



Cais gan Liverpool Bay CCS Limited am Orchymyn yn Rhoi Caniatâd Datblygu ar gyfer Prosiect Piblinell Carbon Deuocsid HyNet.

Cwestiynau ysgrifenedig a cheisiadau am wybodaeth yr Awdurdod Archwilio (ExQ1)

Cyhoeddwyd ar 27 Mawrth 2023

Mae'r tabl canlynol yn amlinellu cwestiynau ysgrifenedig a cheisiadau am wybodaeth yr Awdurdod Archwilio (ExA) – ExQ1. Os bydd angen, mae amserlen yr Archwiliad yn galluogi'r ExA i gyhoeddi rowndiau ychwanegol o gwestiynau ysgrifenedig. Os gwneir hyn, cyfeirir at y rowndiau ychwanegol o gwestiynau fel ExQ2 ac ExQ3, yn y drefn honno.

Gosodir cwestiynau gan ddefnyddio fframwaith wedi'i seilio ar faterion sy'n deillio o'r Asesiad Cychwynnol o Brif Faterion a ddarparwyd fel Atodiad C i'r llythyr Rheol 6 dyddiedig 20 Chwefror 2023. Ychwanegwyd cwestiynau at y fframwaith o faterion a amlinellwyd yno wrth iddynt godi mewn sylwadau ac i fynd i'r afael â'r asesiad o'r cais yn erbyn polisïau perthnasol.

Mae colofn 2 y tabl yn nodi pa Bartïon â Buddiant (IPs) ac unigolion eraill y mae pob cwestiwn wedi'i gyfeirio atynt. Byddai'r ExA yn ddiolchgar pe gallai'r holl unigolion a enwir ateb yr holl gwestiynau a gyfeirir atynt, trwy ddarparu ymateb o sylwedd neu esbonio pam nad yw'r cwestiwn yn berthnasol iddynt. Nid yw hyn yn atal rhywun rhag ateb cwestiwn na chyfeiriwyd ato, os bydd y cwestiwn yn berthnasol i'w fuddiannau.

Mae gan bob cwestiwn gyfeirnod unigryw sy'n dechrau gyda'r rhif 1 (sy'n dangos ei fod yn perthyn i ExQ1) ac yna rhif mater a rhif cwestiwn. Er enghraifft, nodir y cwestiwn cyntaf ar 'Faterion Cyffredinol a Thrawsbynciol' fel Q1.1.1. Pan fyddwch yn ateb cwestiwn, dechreuwch eich ateb drwy ddyfynnu'r cyfeirnod unigryw, os gwelwch yn dda.

Os ydych yn ymateb i nifer fach o gwestiynau, bydd atebion mewn llythyr yn ddigonol. Os ydych yn ateb nifer fawr o gwestiynau, byddai'n ddefnyddiol i'r ExA petaech yn defnyddio tabl wedi'i seilio ar yr un hwn i osod eich ymatebion. Mae fersiwn y gellir ei golygu o'r tabl hwn yn Microsoft Word ar gael ar gais gan y tîm achos: cysylltwch â hynetco2pipeline@planninginspectorate.gov.uk gan roi **Piblinell Carbon Deuocsid HyNet** yn llinell bwnc eich neges e-bost.

Mae'r ExA yn nodi bod nifer o Gyflwyniadau Ychwanegol wedi'u cyflwyno gan yr Ymgeisydd. Efallai y bydd y rhain eisoes yn mynd i'r afael â rhai o'r cwestiynau a nodir isod. Pe bai hynny'n wir nid yw'r ExA o'r farn bod angen ateb y cwestiwn hwnnw'n llawn, yn hytrach byddai'r ExA yn gofyn yr ymateb i arwyddbost cwestiwn hwnnw'n union le mae'r ateb / gwybodaeth eisoes wedi'i ddarparu (ee Teitl y Ddogfen, Cyfeirnod Dogfen yr Ymgeisydd, Cyfeirnod Arolygiaethau Cynllunio, Rhif paragraff, Rhif tabl, ac ati).

Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Terfyn Amser 1: Dydd Llun 17 Ebrill 2023.

Talfyriadau a ddefnyddir:

AGI	Gosodiad ar Ben y Tir		
BNG	Enillion Bioamrywiaeth Net	GHG	Nwyon Tŷ Gwydr
BoR	Llyfr Cyfeirio	HDD	Drilio Cyfeiriadol Llorweddol
BVS	Gorsaf Falfiau Bloc	IPs	Partïon â Buddiant
CA	Caffael Gorfodol	JNCC	Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur
CEMP	Cynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu	LEMP	Cynllun Rheoli Tirwedd ac Ecoleg
CILCS	Atodlen Codi Tâl yr Ardoll Seilwaith Cymunedol	LLFA	Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol
COMAH	Rheoli Peryglon Damweiniau Mawr	MSA	Ardaloedd Diogelu Mwynau
CO₂	Carbon Deuocsid	NE	Natural England
CRT	Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd	NH	National Highways Ltd
CWCC	Cyngor Gorllewin Swydd Gaer a Chaer	NR	Network Rail Infrastructure Ltd
DCO	Gorchymyn Caniatâd Datblygu	CNC	Cyfoeth Naturiol Cymru
EA	Asiantaeth yr Amgylchedd	OCTMP	Cynllun Rheoli Traffig Adeiladu Amlinellol
EM	Memorandwm Esboniadol	OMEMP	Cynllun Rheoli Amgylchedd Gweithrediadau a Chynnal a Chadw
EPS	Rhywogaeth a Warchodir gan Ewrop	PA2008	Deddf Cynllunio 2008
ES	Datganiad Amgylcheddol	PoA	Y Parlwr Du
ExA	Awdurdod Archwilio	REAC	Cofnod o Gamau Gweithredu ac Ymrwymadau Amgylcheddol
ExQ1	Cwestiynau Ysgrifenedig Cyntaf yr ExA	ACA	Ardal Cadwraeth Arbennig
HRA	Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd	SDSAB	Corff Cymeradwyo Systemau Draenio Cynaliadwy
FCA	Asesiad Canlyniadau Llifogydd	SoS	Ysgrifennydd Gwladol
FCC	Cyngor Sir y Fflint	SoCG	Datganiad Tir Cyffredin



AGA	Ardal Gwarchodaeth Arbennig	TPO	Gorchymyn Cadw Coed
SoDdGA	Safle o Ddidiordeb Gwyddonol Arbennig	WFD	Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr
TP	Meddiant Dros Dro	WW	Dŵr Cymru

Llyfrgell yr Archwiliad

Mae cyfeiriadau yn y cwestiynau hyn sydd wedi'u gosod mewn cromfachau sgwâr (e.e. [APP-010]) yn cyfeirio at ddogfennau sydd wedi'u rhestru yn Llyfrgell yr Archwiliad. Mae Llyfrgell yr Archwiliad ar gael trwy'r ddolen ganlynol:

<https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/wp-content/ipc/uploads/projects/EN070007/EN070007-001186-HyNet%20Carbon%20Dioxide%20Pipeline%20Bilingual%20Examination%20Library.pdf>

Caiff ei diweddarau wrth i'r Archwiliad fynd rhagddo.

Cyfeirio at Gwestiynau

Dylid cyfeirio at gwestiynau yn y tabl hwn fel a ganlyn:

Cyfeirnod y cwestiwn: cyfeirnod y mater: rhif y cwestiwn, e.e. mae Q1.1.1 yn cyfeirio at gwestiwn 1 yn y tabl hwn.



Mynegai

1. Cwestiynau Cyffredinol a Thrawsbynciol	5	18. Rheoli Gwastraff	65
2. Asesu Dewisiadau Amgen.....	12	19. Gorchymyn Caniatâd Datblygu Drafft.....	65
3. Ansawdd Aer ac Allyriadau.....	13	20. Arall	86
4. Bioamrywiaeth, Ecoleg a'r Amgylchedd Naturiol .	14		
5. Newid yn yr Hinsawdd.....	27		
6. Caffael Gorfodol, Meddiant Dros Dro ac Ystyriaethau Tir neu Hawliau Eraill	29		
7. Treftadaeth Ddiwylliannol a'r Amgylchedd Hanesyddol	36		
8. Dyluniad a Gosodiad.....	36		
9. Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol/ Datganiad Amgylcheddol.....	36		
10. Perygl Llifogydd, Hydroleg, Adnoddau Dŵr a Halogiad	39		
11. Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd	49		
12. Tirwedd a Gweledol.....	51		
13. Adnoddau Mwynau	54		
14. Sŵn a Dirgryniad.....	56		
15. Polisi Cynllunio.....	58		
16. Effeithiau Economaidd-gymdeithasol, gan gynnwys Iechyd y Boblogaeth ac Iechyd Dynol... 	59		
17. Trafnidiaeth a Thraffig	62		

ExQ1	Cwestiwn ar gyfer:	Cwestiwn:
1. Cwestiynau Cyffredinol a Thrawsbynciol		
Q1.1.1	<i>Diweddariad</i> Yr Ymgeisydd	<ul style="list-style-type: none"> Cadarnhewch hyd y gwaith adeiladu arfaethedig y gwneir cais amdano a chadarnhewch a oes unrhyw newid i'r rhaglen waith ddisgwyliedig. Er mwyn eglurder, cadarnhewch y dyddiadau dechrau arfaethedig hefyd. <p>Rhowch resymau am unrhyw newidiadau. A fydd unrhyw newid a nodwyd i'r rhaglen adeiladu arfaethedig yn effeithio ar unrhyw un o'r tybiaethau yn y Datganiad Amgylcheddol (ES), yn enwedig o ran effeithiau cronol ar y cyd (ac effeithiau ar y cyd yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA))?</p>
Q1.1.2	<i>Diweddariad</i> Pob Awdurdod Cynllunio Perthnasol, gan gynnwys Cyngor Sir y Fflint (FCC) a Chyngor Gorllewin Swydd Gaer a Chaer (CWCC)	<ul style="list-style-type: none"> Mae'r ExA yn nodi bod yr Ymgeisydd wedi cyfeirio at ddull llwybr deuol, yn yr ystyr y bydd dau Gais Cynllunio ar wahân yn cael eu cyflwyno i FCC o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (Cyf. 2.2): un ar gyfer Terfynell a Gwaith Blaendraeth y Parlwr Du (PoA) ac un arall ar gyfer y tair Gorsaf Falfiau Bloc (BVS). <p>Rhowch diweddariad ynglŷn ag unrhyw geisiadau cynllunio sydd wedi cael eu cyflwyno, neu gydsyniadau sydd wedi cael eu rhoi, ers i'r Cais DCO gael ei gyflwyno, a allai naill ai effeithio ar y llwybr arfaethedig neu y byddai'r Datblygiad Arfaethedig yn effeithio arnynt, a ph'un a fyddai hyn yn effeithio ar y casgliadau y daethpwyd iddynt yn yr ES Pennod 19 Effeithiau ar y Cyd ac Effeithiau Cronol [APP-071] neu unrhyw un o'r Atodiadau cysylltiedig – Atodiad 19.1 – Asesiad o Effeithiau Rhyng-brosiect (Cyfrol III) [APP-172]; Atodiad 19.2 – Asesiad o Effeithiau Rhyng-brosiect (Cyfrol III) [APP-173].</p> <p>Rhowch ymateb ochr yn ochr â chwestiwn Q1.1.4.</p>
Q1.1.3	<i>Diweddariad</i> Yr Holl Awdurdodau Cynllunio Perthnasol, gan gynnwys FCC a CWCC ac IPs	<ul style="list-style-type: none"> Gofynnir am y wybodaeth ganlynol fel cyd-destun ychwanegol i lywio'r Archwiliad: <ol style="list-style-type: none"> Cynghorwch a oes Atodlen Codi Tâl yr Ardoll Seilwaith Cymunedol (CILCS) ar waith ar gyfer yr ardal weinyddol y mae cynllun y Gorchymyn Caniatâd Datblygu (DCO) ynddi, neu o fewn unrhyw ffiniau gweinyddol cymdogol. Cadarnhewch a oes unrhyw welliannau arfaethedig i'r ardal leol sydd ar wahân i'r cynllun dan ystyriaeth ond a allai ei ategu, sy'n deillio'n uniongyrchol o'r CILCS? Er gwaethaf unrhyw ddull CILCS sydd ar waith, cynghorwch a oes unrhyw brosiectau neu fuddsoddiadau cyfalaf lleol ar wahân a arweinir yn gyhoeddus sydd yn yr arfaeth neu'n hysbys, neu unrhyw fentrau eraill wedi'u cynllunio yng nghyffiniau'r ardal y bwriedir ei gwella neu gerllaw a allai ategu'r cynllun, o bosibl.

ExQ1: 27 Mawrth 2023**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Terfyn Amser 1: Dydd Llun 17 Ebrill 2023**

ExQ1	Cwestiwn ar gyfer:	Cwestiwn:
		<p>Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, gallai'r gwelliannau arfaethedig yr holwyd amdanynt/ y cyfeiriwyd atynt ymdrin ag unrhyw agwedd ar yr amgylchedd lleol a gallai eu diben fod yn bellgyrhaeddol.</p> <p>iv) Esboniwch sut byddai unrhyw fuddsoddiadau cyfalaf, prosiectau neu fentrau eraill lleol ar wahân presennol yn ategu'r cynllun, os oes unrhyw rai'n cael eu datblygu.</p>
Q1.1.4	<p><i>Diweddariad ar y datblygiad</i> Yr Ymgeisydd, FCC a CWCC</p>	<ul style="list-style-type: none"> Mae'r ExA wedi cynnal arsylwadau cychwynnol o'r ardal y mae'r cynigion yn effeithio arni yn ystod Archwiliadau Safle Digwmni ([EV-003] ac [EV-004]). Mae dogfennau'r cais yn awgrymu y bwriedir defnyddio rhywfaint o le agored cyhoeddus ar gyfer Caffael Gorfodol (CA). Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, a wnaiff yr Ymgeisydd a'r Awdurdodau Cynllunio Perthnasol gadarnhau p'un a fydd y cynllun yn defnyddio lleoliad unrhyw dir arall a fwriedir ar gyfer lle agored cyhoeddus neu ddefnydd tir categori arbennig arall. Gallech ddymuno cyfuno'r ateb i'r cwestiwn hwn â'r ateb i gwestiwn Q1.1.2.
Q1.1.5	<p><i>Cydsyniadau a Thrwyddedau Eraill</i> Yr Ymgeisydd</p>	<ul style="list-style-type: none"> Mae'r ExA yn nodi cynnwys y Datganiad o'r Sefyllfa o ran Cydsyniadau a Chytundebau [APP-046] a gyflwynwyd, ond byddai'n gofyn pa gydsyniadau a thrwyddedau eraill (os oes rhai) y byddai eu hangen ar Ddatblygiad Arfaethedig y DCO? Os oes angen cydsyniadau a thrwyddedau ychwanegol, a wnewch chi: <ul style="list-style-type: none"> i) Roi diweddariad ar gynnydd y broses o gael y cydsyniadau/ trwyddedau hyn ynghyd â diweddariad ar y rhai a ddisgwylir eisoes. ii) Cynnwys adran sy'n rhoi diweddariad ar y cydsyniadau/ trwyddedau hyn mewn unrhyw Ddatganiadau Tir Cyffredin (SoCG) sy'n cael eu llunio gan restru'r awdurdodau cydsynio perthnasol.
Q1.1.6	<p><i>Cyffredinol</i> Yr Ymgeisydd</p>	<ul style="list-style-type: none"> Mae'r ExA yn ymwybodol bod y diffiniad yn nhroednodyn 1 Adran 2.1 Pennod 2 yr ES 'Y Prosiect' [APP-054] yn datgan <i>nid prosiect unigol yw Hynet Gogledd-orllewin (Y Prosiect) o fewn ystyr y Rheoliadau Asesu Effeithiau Amgylcheddol. Mae'r Prosiect yn cael ei ddatblygu gan y Consortiwm. Nod y Prosiect yw lleihau allyriadau carbon deuocsid (CO₂) o ddiwydiant, cartrefi a thrafnidiaeth a chefnogi twf economaidd yng Ngogledd-orllewin Lloegr a Gogledd Cymru. Mae hyn yn cynnwys y canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt: y Biblinell CO₂ a Gosodiadau ar Ben y Tir (AGIs) cysylltiedig, BVSS, Dal Carbon, Storio CO₂, Gwaith ar y Biblinell Bresennol, Offer Hydrogen, Piblinell Hydrogen ac AGIs cysylltiedig, a Storio Hydrogen.</i>

ExQ1	Cwestiwn ar gyfer:	Cwestiwn:
		<p>Felly, mae'n ymddangos mai diffiniad yr Ymgeisydd o'r 'Prosiect' fel man cychwyn yr ES yw'r prif reswm pam mae Datblygiad Arfaethedig y DCO yn cael ei ystyried yn endid ar wahân wrth asesu effeithiau cyfunol a chronnol.</p> <p>Fodd bynnag, mae Paragraff 5, Atodlen 4 y Rheoliadau yn datgan y dylai ES gynnwys: <i>"Disgrifiad o effeithiau arwyddocaol tebygol y datblygiad ar yr amgylchedd sy'n deillio o'r canlynol, ymhlith pethau eraill: (e) effeithiau cronol gyda phrosiectau eraill presennol a/ neu a gymeradwywyd, gan ystyried unrhyw broblemau amgylcheddol presennol sy'n ymwneud ag ardaloedd o bwysigrwydd amgylcheddol penodol y mae'n debygol yr effeithir arnynt neu ddefnyddio adnoddau naturiol."</i> Yn ogystal, mae Pennod 19 yr ES (Effeithiau Cyfunol a Chronnol) [APP-071] paragraff 19.2.3 yn nodi y dylai'r disgrifiad o effeithiau arwyddocaol tebygol ar y ffactorau: <i>"[...] ymdrin â'r effeithiau uniongyrchol ac unrhyw effeithiau uniongyrchol, eilaidd, cronol, trawsffiniol, tymor byr, tymor canolig a thymor hir, parhaol a dros dro, cadarnhaol a negyddol o'r datblygiad."</i></p> <p>A wnaiff yr Ymgeisydd gyfiawnhau ymhellach pam y dylai/ y gall elfennau'r 'Prosiect' (yn ei gyfanrwydd) gael eu trin yn annibynnol gan yr ES, o ystyried y Rheoliadau Asesu Effeithiau Amgylcheddol? Sut mae'r Ymgeisydd wedi sicrhau bod ystyriaeth lawn yn cael ei rhoi i'r effeithiau cronol rhwng Datblygiad Arfaethedig y DCO a rhannau eraill perthnasol o'r 'Prosiect' gan gynnwys, lle y bo'n berthnasol, agweddau sydd i'w cyflawni o dan gydsyniadau ar wahân?</p> <p>Cadarnhewch a yw'r ddau Gais Cynllunio ar wahân y disgwylir iddynt gael eu gwneud i FCC o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ar gyfer Terfynell a Gwaith Blaendraeth PoA a'r tair BVS wedi cael eu cyflwyno neu, os nad ydynt wedi'u cyflwyno, nodwch ba bryd y bydd y cyfryw geisiadau'n cael eu cyflwyno.</p> <p>Os yw'r Ceisiadau a grybwyllir uchod wedi cael eu cyflwyno, rhowch:</p> <ol style="list-style-type: none"> i) rif cyfeirnod y cais cynllunio a roddwyd gan yr Awdurdod Cynllunio perthnasol; ii) diweddariad ar gynnydd y Ceisiadau Cynllunio hyn, neu ba bryd y bwriedir eu cyflwyno, gan gynnwys unrhyw drafodaethau/ gohebiaeth rhyngoch chi a'r Awdurdod Cynllunio Perthnasol ynglŷn â'r Ceisiadau Cynllunio y bwriedir eu cyflwyno/ a gyflwynwyd; a iii) chopi o'r penderfyniad cynllunio sy'n ymwneud â'r Ceisiadau Cynllunio a grybwyllir uchod, a roddwyd gan yr Awdurdod Cynllunio Perthnasol, os yw'n berthnasol.

ExQ1: 27 Mawrth 2023**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Terfyn Amser 1: Dydd Llun 17 Ebrill 2023**

ExQ1	Cwestiwn ar gyfer:	Cwestiwn:
Q1.1.7	<i>Effeithiau Cronnol yr ES</i> Yr Ymgeisydd	<ul style="list-style-type: none"> • Mae CWCC [RR-012] yn darparu sylwadau cychwynnol a materion yn ymwneud â chynnwys a chwmpas y cais, gan gynnwys cyd-destun Polisi y Cynllun Lleol, Asesiad Amgylcheddol a gofynion a darpariaethau arfaethedig y DCO Drafft. Mae'r ExA yn cydnabod cynnwys [RR-012] sy'n gofyn bod yr effeithiau cyfunol yn cael eu hystyried yn llawn gyda HS2, yn enwedig o ran effeithiau ar Ardaloedd Diogelu Mwynau (MSA), cynhyrchu gwastraff ac effeithiau ar drafnidiaeth leol a rhanbarthol. Gofynnir i effeithiau cyfunol ag NSIPs eraill gynnwys prosiect Piblinell Hydrogen Cadent. <ul style="list-style-type: none"> i) A all yr Ymgeisydd amlinellu (gan gynnwys cyfeirio at ddogfennau'r archwiliad) sut mae'r effeithiau cronnol awgrymedig hynny sy'n deillio o'r prosiectau eraill hyn wedi cael eu cynnwys mewn unrhyw asesiad a wnaed hyd yma. Neu, i'r gwrthwyneb, y rhesymau penodol pam y'u hepgorwyd. ii) Mae CWCC yn crybwyll nifer o anghysondebau ynglŷn â nodi polisïau, gan gynnwys hepgor Cynlluniau Cymdogaeth. A all yr Ymgeisydd gadarnhau y bydd yr holl rannau perthnasol o'r Cynllun Datblygu y mae CWCC yn cyfeirio atynt yn cael eu cydnabod trwy gyfrwng Datganiad Cynllunio wedi'i ddiweddarau? iii) Ceisir safbwyntiau'r Ymgeisydd ynglŷn â ph'un a yw'r cynllun DCO yn cydymffurfio â pholisïau'r cynllun datblygu sy'n ymdrin ag ystyriaethau economaidd ar gyfer busnesau/ gweithrediadau presennol o ystyried unrhyw estyniadau yn y dyfodol y cyfeiriwyd atynt, yn ogystal â'r rhwydwaith ecolegol a goblygiadau Polisi DM 44 y cyfeiriwyd ato ymhellach gan CWCC.
Q1.1.8	<i>Effeithiau Cronnol yr ES</i> Yr Ymgeisydd ac IPs, gan gynnwys CWCC a FCC	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r ExA yn nodi cynnwys Pennod 19 yr ES Effeithiau Cyfunol a Chronnol [APP-071] yn ogystal â Phennod 19.1 – Asesiad o Effeithiau Rhyng-brosiect, Diwygiad A [APP-172] a Phennod 19.2 – Asesiad o Effeithiau Rhyng-brosiect, Diwygiad A [APP-173]. • IPs A oes unrhyw brosiectau y nodwyd eu bod wrthi'n cael eu hadeiladu, y disgwylir iddynt gael eu cwblhau cyn adeiladu Datblygiad Arfaethedig y DCO, sydd wedi cael eu heithrio o asesiad yr Ymgeisydd ar Gam 2 (gweler Tabl 2 yn Atodiad 19.1 – Asesiad o Effeithiau Rhyng-brosiect, Cyfrol III [APP-172])? A yw'r Awdurdodau Cynllunio Perthnasol/ IPs yn cytuno â chwmpas a chynnwys y rhestr sy'n berthnasol ar gyfer Cam 2? • Awdurdodau Cynllunio Perthnasol

ExQ1: 27 Mawrth 2023**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Terfyn Amser 1: Dydd Llun 17 Ebrill 2023**

ExQ1	Cwestiwn ar gyfer:	Cwestiwn:
		<p>Nid yw'r Ymgeisydd wedi ystyried ceisiadau cynllunio a wrthodwyd nad ydynt yn destun apêl ar y sail na ddisgwylir yn rhesymol iddynt gael eu gweithredu. A oes unrhyw gydsyniadau (neu geisiadau cynllunio) newydd wedi dod i'r amlwg, neu yn yr arfaeth, a fyddai'n atal sefyllfa ddatganedig yr Ymgeisydd rhag cael ei derbyn?</p> <p>A all yr Ymgeisydd gadarnhau p'un a gytunwyd ar y rhestr o ddatblygiadau i'w hystyried yn yr asesiad cronol gydag ymgylchreion perthnasol.</p>
Q1.1.9	<p><i>Effeithiau Cronol yr ES</i> IPs, gan gynnwys CWCC a FCC</p>	<ul style="list-style-type: none"> Mae'r ExA yn tynnu sylw'r Ymgeisydd/ IPs at gynnwys Nodyn Cyngor 9 yr Arolygiaeth Gynllunio: Amlen Rochdale. Mae'r nodyn cyngor hwn yn cadarnhau'r egwyddor sefydledig, sef: <i>"Ni ddylai'r ES fod yn gyfres o adroddiadau pynciol digyswllt ar wahân. Dylai'r gydberthynas rhwng agweddau ar y datblygiad arfaethedig gael ei hasesu a dylai'r datblygwr roi ystyriaeth ofalus i esbonio sut mae cydberthnasoedd wedi cael eu hasesu er mwyn mynd i'r afael ag effeithiau amgylcheddol y cynnig yn ei gyfanrwydd. Nid yw'n dilyn o reidrwydd y byddai'r effaith niweidiol fwyaf o ran unrhyw effaith bynciol unigol yn arwain yn awtomatig at yr effaith bosibl fwyaf pan fydd nifer o effeithiau pynciol yn cael eu hystyried gyda'i gilydd. Yn ogystal, efallai na fydd effeithiau unigol yn arwyddocaol, ond fe allant ddod yn arwyddocaol wrth asesu eu cydberthynas. Y datblygwr sydd i ddangos bod effeithiau arwyddocaol tebygol y prosiect wedi cael eu hasesu'n briodol."</i> <p>A yw IPs, gan gynnwys Awdurdodau Cynllunio Perthnasol, yn cytuno bod effeithiau arwyddocaol tebygol Datblygiad Arfaethedig y DCO wedi cael eu hasesu'n ddigonol gan yr ES? Os na, nodwch pam.</p> <p><i>Fe allech ddymuno cyfuno'r ateb i'r cwestiwn hwn â'r ateb i gwestiwn Q1.1.6.</i></p>
Q1.1.10	<p><i>Cloddwaith adeiladu</i> Yr Ymgeisydd</p>	<ul style="list-style-type: none"> Eglurwch ba ddarpariaethau a fyddai ar waith yn ystod adeiladu i sicrhau na fydd mesurau lliniaru llwch, rheoli gweddillion a chludo'r deunydd, ochr yn ochr ag amddiffyn golwg weledol yr ardal, yn benodol rhag unrhyw bentyrru tymor byr/ canolig a thymor hir a ddisgwylir, yn erydu'r amgylchedd lleol? <p>Pa opsiynau eraill sy'n bosibl ar gyfer unrhyw ddeunydd a ddadleolwyd nad oes angen ei aildefnyddio ar y safle? Ac a ellir rhoi amcangyfrif bras o faint o ddeunydd gweddilliol sy'n debygol o fod dros ben?</p> <p>Amcangyfrifwch am ba hyd y byddai deunydd a ddadleolwyd o'r cynllun yn cael ei storio ar y tir y cyfeirir ato yn yr ardaloedd gweithio a gynigiwyd yn y cais.</p>

ExQ1: 27 Mawrth 2023**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Terfyn Amser 1: Dydd Llun 17 Ebrill 2023**

ExQ1	Cwestiwn ar gyfer:	Cwestiwn:
Q1.1.11	<i>Cloddwaith adeiladu</i> Yr Ymgeisydd	<p>Os oes unrhyw ran o'r wybodaeth uchod eisoes wedi cael ei darparu, cyfeiriwch ati.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mynegwyd pryderon lleol ynglŷn ag aflonyddu ar bridd [RR-056]. Honnir bod tir wedi cael ei adfer yn anfoddfaol yn ystod gwaith archwiliadol blaenorol a gychwynwyd gan yr Ymgeisydd, gan fod uwchbridd o ansawdd uchel wedi cael ei gladdu ac isbridd wedi cael ei adael ar yr wyneb. <p>Pa dulliau a rheolaethau ansawdd fyddai ar waith i sicrhau y byddai unrhyw dir yr effeithir arno'n cael ei adfer yn briodol ar ôl torri ffosydd neu waith peirianegol arall sy'n arwain at aflonyddu ar bridd? A ellir defnyddio dulliau newydd neu arloesol i wella cyflwr y pridd/ atafaelu carbon mewn priddoedd yr effeithir arnynt ar ôl adeiladu/ datblygu?</p> <p>Os oes unrhyw ran o'r wybodaeth uchod eisoes wedi cael ei darparu, cyfeiriwch ati.</p>
Q1.1.12	<i>Diweddariad</i> FCC	<ul style="list-style-type: none"> • Os nad ydych eisoes wedi gwneud hynny: <ul style="list-style-type: none"> i) Rhowch ddiweddariad i'r Archwiliad ar statws Cynllun Datblygu Lleol Sir y Fflint 2015-2030, a'i ddyddiad mabwysiadu ffurfiol disgwylidig. ii) Darparwch i'r Archwiliad a nodwch holl bolisiau newydd y cynllun datblygu yr ystyriwch eu bod yn bwysig ac yn berthnasol i'r datblygiad arfaethedig sy'n destun Archwiliad ar hyn o bryd, gan roi'r rhesymau penodol dros berthnasedd y polisi lle y bo'n briodol. iii) Rhowch eich barn i'r Archwiliad ynglŷn â ph'un a yw'r datblygiad DCO yn cydymffurfio ag unrhyw bolisiau newydd a pherthnasol ai peidio. iv) Os na chydymffurfir ag unrhyw bolisi newydd (neu bolisi y disgwylir iddo gael ei fabwysiadu), awgrymwch unrhyw newid sy'n angenrheidiol a allai gael ei wneud gan yr Ymgeisydd i sicrhau ei fod yn cydymffurfio.
Q1.1.13	<i>Datblygiad Arfaethedig</i> Yr Ymgeisydd	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r ExA yn nodi Pennod 3 yr ES (Disgrifiad o Ddatblygiad Arfaethedig y DCO) [APP-055], sy'n rhoi crynodeb o elfennau allweddol Datblygiad Arfaethedig y DCO. Mae hefyd yn nodi'r rhestr fanwl a roddir yn Atodlen 1, Rhan 1 (Datblygiad Awdurdodedig) y DCO drafft [APP-024], sy'n nodi'n glir, ac yn fanwl, y Datblygiad Arfaethedig mewn perthynas â'r Rhifau Gwaith cysylltiedig. Fodd bynnag, byddai'r ExA yn gofyn i chi ei gyfeirio at ble arall yn y dogfennau cais a gyflwynwyd y mae manylion llawn y Datblygiad Arfaethedig a'i rifau gwaith cysylltiedig wedi cael eu darparu/ eu hamlinellu'n llawn.

ExQ1: 27 Mawrth 2023**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Terfyn Amser 1: Dydd Llun 17 Ebrill 2023**

ExQ1	Cwestiwn ar gyfer:	Cwestiwn:
Q1.1.14	<i>Ceisiadau ac apeliadau cynllunio</i> FCC ac IPs	<ul style="list-style-type: none"> Mae Mr James Doran [RR-054] wedi cyfeirio at gais cynllunio sy'n berthnasol a benderfynwyd gan FCC (cyfeirnod cynllunio 061368) a chrybwyllir hefyd ei fod yn destun apêl ochr yn ochr â chyfeiriadau at aelodau o'r gymuned teithwyr. FCC Darparwch fanylion llawn dogfennau'r cais cynllunio gan gynnwys adroddiadau dirprwyedig, i lywio'r Archwiliad. IPs Gwnewch ba sylwadau bynnag yr ystyriwch eu bod yn angenrheidiol os nad ydych eisoes wedi gwneud hynny.
Q1.1.15	<i>Ymgynghori â'r gymuned</i> Yr Ymgeisydd ac IPs	<ul style="list-style-type: none"> O ystyried Atodiad D Datganiad Ymgynghori â'r Gymuned [APP-035] a gyflwynwyd, yn ogystal ag Adroddiad Ymgynghori'r DCO a gyflwynwyd (Cyfrol V) [APP-031]. Yr Ymgeisydd Cadarnhewch ba Gynghorau Tref a Chymuned yr ymgynghorwyd â nhw a'r rhai hynny sy'n berthnasol i ardal y DCO. IPs Eglurwch ba Gynghorau Tref a Chymuned sy'n dymuno ymwneud â'r Archwiliad neu, os oes angen, cadarnhewch unrhyw gorff ffurfiol sy'n cynrychioli ar eu rhan.
Q1.1.16	<i>Cynlluniau tir a'r Llyfr Cyfeirio</i> Yr Ymgeisydd	<ul style="list-style-type: none"> Mae nifer o anghysondebau ar y Cynlluniau Tir [APP-008]. Er enghraifft: i) Nid yw Lleiniau 1-18 (Dalen 1), 2-14 (Dalen 2), 6-20 a 6-22 (Dalen 6), 21-06 (Dalen 21) a 25-03 (Dalen 25) wedi'u hamlygu; ii) Mae Llain 5-03 (Dalen 5) wedi'i rhestru ddwywaith, tra bod Llain 6-21 yn ymddangos nifer o weithiau; iii) Mae Llain 8-04 wedi cael ei chynnwys o fewn llinell goch y Datblygiad Arfaethedig, ac eto mae'r un rhif llain yn y Llyfr Cyfeirio [APP-030] yn datgan "Rhif heb ei ddefnyddio"; iv) Mae maint Llain 12-12A (Dalen 12) yn aneglur ar y Cynlluniau Tir [APP-008]. Sylwch na fwriedir i'r rhestr hon gynnwys popeth. Byddai'r ExA yn gofyn i'r Cynlluniau Tir [APP-008] gael eu gwirio a'u croesgyfeirio â'r Llyfr Cyfeirio [APP-030] i sicrhau bod yr holl leiniau wedi'u hamlygu'n gywir a bod y Cynlluniau Tir [APP-008] a'r Llyfr Cyfeirio [APP-030] yn cael eu diweddarau yn unol â hynny.
Q1.1.17	<i>Disgrifiad o'r Datblygiad Arfaethedig</i> Yr Ymgeisydd	<ul style="list-style-type: none"> Mae'n ymddangos bod paragraffau 3.6.27 i 3.6.29 (yn gynnwysedig) Pennod 3 yr ES (Disgrifiad o Ddatblygiad Arfaethedig y DCO) [APP-055] ar goll. Adolygwch a chywirwch, os oes angen.

ExQ1: 27 Mawrth 2023**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Terfyn Amser 1: Dydd Llun 17 Ebrill 2023**

ExQ1	Cwestiwn ar gyfer:	Cwestiwn:
Q1.1.18	<i>Cais/ ceisiadau am newid</i> Yr Ymgeisydd	<ul style="list-style-type: none"> A oes unrhyw geisiadau am newid yn cael eu cynnig neu'n debygol o gael eu cynnig yn ystod yr Archwiliad mewn perthynas â'r Datblygiad Arfaethedig? Os felly, nodwch ba newidiadau sy'n cael eu cynnig/ sy'n debygol o gael eu cynnig a phryd mae cais/ ceisiadau o'r fath yn debygol o gael ei wneud/ eu gwneud yn ystod yr Archwiliad.
2. Aseu Dewisiadau Amgen		
Q1.2.1	<i>Cyffredinol</i> Yr Ymgeisydd	<ul style="list-style-type: none"> Mae'r ExA yn nodi ymhellach gwmpas a chynnwys Pennod 4 yr ES – Ystyried Dewisiadau Amgen [APP-056]. <ul style="list-style-type: none"> i) Mae [APP-056] yn amlygu'r angen am y datblygiad arfaethedig i ddatgarboneiddio diwydiannau sy'n allyrru a chyflawni llwybr y Deyrnas Unedig tuag at sero net. Esboniwch ymhellach yr achos angen cyffredinol am y cynllun mewn perthynas ag ystyriaethau newid yn yr hinsawdd, y wybodaeth bresennol a mathau naturiol (neu eraill) o ddal/atafaelu carbon sydd ar gael. A yw'r wybodaeth bresennol neu unrhyw newidiadau sy'n deillio o arloesedd yn arwain at unrhyw ddewis amgen arall ymarferol? ii) Wrth ystyried dewisiadau amgen yn lle'r cynllun, eglurwch/ esboniwch (gan gynnwys cyfeirio at ddogfennau'r archwiliad) i ba raddau yr ystyriwyd amddiffyniadau bioamrywiaeth ac ecolegol perthnasol er mwyn osgoi? iii) Wrth ystyried a phenderfynu ar ddewisiadau amgen (er enghraifft dewis llwybr), a all yr Ymgeisydd esbonio a roddodd fwy o bwys i faterion penodol nag eraill pan oedd blaenoriaethau'n cystadlu yn erbyn ei gilydd. <p>Fe allech ddymuno cyfuno'r ateb i'r cwestiwn hwn â'r ateb i gwestiwn Q1.2.3.</p>
Q1.2.2	<i>Cyffredinol</i> IPs, gan gynnwys CWCC a FCC	<ul style="list-style-type: none"> O ran yr ES a gyflwynwyd – Pennod 4.1 – Egwyddorion Arweiniol, Ffactorau a Meini Prawf ar gyfer Opsiynau, Diwygiad A [APP-079], a yw IPs yn cytuno â'r egwyddorion arweiniol a nodwyd fel man cychwyn ar gyfer datblygu manylion y cynllun, neu a oes ganddynt unrhyw sylwadau ychwanegol arnynt?
Q1.2.3	<i>Cyffredinol</i> Yr Ymgeisydd	<ul style="list-style-type: none"> O ran maint y biblinell, mae paragraff 4.5.4 [APP-056] yn datgan bod y prosiect yn ceisio darparu capasiti yn y system i alluogi cludo a storio CO₂ ar gyfradd o 10 MtCO₂/y flwyddyn erbyn 2030. Athroniaeth y Prosiect oedd dylunio unrhyw seilwaith newydd i fodloni'r capasiti hwn yn y system ar gyfer Piblinell CO₂ HyNet, ond dim ond uwchraddio/ailldefnyddio seilwaith presennol pan fo mwy o sicrwydd ynglŷn â'r galw. <ul style="list-style-type: none"> i) A yw piblinell â diamedr mwy sy'n dilyn yr un llwybr ar gyfer piblinell newydd yn bosibilrwydd ar ôl 2030? (Gan gydnabod y pennwyd maint y biblinell 20" o AGI Ince

ExQ1	Cwestiwn ar gyfer:	Cwestiwn:
		<p>i AGI Stanlow i ddarparu capasiti o 2.5 MtCO₂/y flwyddyn yn seiliedig ar nifer yr allyrwyr a chan ystyried gofynion capasiti'r biblinell yn y dyfodol).</p> <p>ii) A fyddai'r datblygiad yn gallu cael ei ddiogelu at y dyfodol ar yr adeg hon (er enghraifft, gyda diamedr mwy mewn rhannau) er mwyn osgoi effeithiau ecolegol yn y dyfodol mewn ardaloedd sensitif?</p> <p>iii) O ran y dewis amgen 'gwneud dim byd' y cyfeirir ato yn Adran 4.3 [APP-056] sy'n ymwneud â datgomisiynu diwedd oes y cronfeydd nwy naturiol ym Maes Nwy Bae Lerpwl. Beth mae datgomisiynu'r seilwaith presennol yn ei olygu, yn llawn ac yn fanwl? A yw'n golygu prosesau diffodd yn bennaf yn hytrach na gwaith amgylcheddol ac adeiladu sylweddol i hwyluso datgomisiynu? Esboniwch natur y datgomisiynu a fyddai'n digwydd yn y senario 'gwneud dim byd'.</p>
<p>3. Ansawdd Aer ac Allyriadau</p>		
<p>Q1.3.1</p>	<p><i>Mesurau Lliniaru</i> Yr Ymgeisydd ac IPs, gan gynnwys FCC a CWCC</p>	<ul style="list-style-type: none"> Mae dogfen y cais a gyflwynwyd, sef Atodiad 6.2 Awyrellu Amhureddau [APP-082], yn darparu tystiolaeth y gallai'r CO₂ yn y biblinell gynnwys amhureddau hefyd, gan gynnwys Hydrogen Sylffid. Mae'r ES yn asesu bod Hydrogen Sylffid yn aroglus ac y gallai fod yn beryglus i iechyd dynol, os eir yn fwy na chwantwm penodol. Mae paragraff 3.1.4 [APP-082] yn datgan bod canlyniadau'r gwaith modelu'n dangos nad oes perygl o dorri'r trothwy a osodwyd ar gyfer amddiffyn iechyd dynol (150µg/m³). Fodd bynnag, mae'r canlyniadau'n dangos bod perygl arogleuon (crynnodiadau uwchlaw 7µg/m³) yn ystod y gweithgareddau canlynol: Awyrellu manifold yn AGIs Ince, Stanlow a'r Fflint; a "lansio PIG" yn AGI Stanlow. (Er mwyn osgoi amheuaeth, mae lansiwr PIG yn ddyfais sy'n defnyddio cynhwysydd dan wasgedd i saethu dyfais lanhau (neu "PIG") trwy'r biblinell i gyflawni amrywiaeth o swyddogaethau, gan gynnwys glanhau, monitro, a chynnal a chadw'r biblinell). Mae'r parth arogleuon mwyaf, sef 100m i 160m, wedi'i leoli yn AGI Ince. Nid oes unrhyw dderbynyddion sensitif o fewn unrhyw barth arogleuon heblaw am barc carafannau preswyl sydd wedi'i leoli 130m i'r de o AGI Stanlow. Mae'n bosibl y bydd effaith ar y derbynyddion hyn yn union ar ôl i'r nwy gael ei ryddhau yn ystod awyrellu manifold, y bwriedir iddo ddigwydd unwaith bob pum mlynedd. A oes gan IPs unrhyw sylwadau ar y derbynyddion a amlygwyd lle y gallai arogleuon arwain at faterion amwynder?

ExQ1: 27 Mawrth 2023**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Terfyn Amser 1: Dydd Llun 17 Ebrill 2023**

ExQ1	Cwestiwn ar gyfer:	Cwestiwn:
		<p>Mae'r asesiad hefyd yn amlygu bod perygl arogleuon yn cael ei ddileu pan fydd uchder stac o 6m o leiaf. A oes gan IPs unrhyw sylwadau ar y mesur lliniaru a ddisgwylir neu ei effeithiolrwydd tebygol?</p> <p>Yr Ymgeisydd</p> <p>Mae mater arall yn codi yn sgil effaith uchderau disgwylidig y staciau ar olwg weledol yr ardal ehangach. A all yr Ymgeisydd esbonio/ cyfeirio at sut mae effaith uchderau'r staciau wedi cael ei hystyried fel effaith arwyddocaol debygol ar gymeriad yr ardal? Hefyd, a yw'r staciau wedi'u manylu ar y cynlluniau a gyflwynwyd? Yn ogystal â'r uchod, esboniwch y dulliau sy'n gysylltiedig â'r staciau sy'n bresennol yn y DCO, oherwydd ei bod yn ymddangos bod yr uchder a grybwyllir uchod yn fwy na'r terfynau a amlinellir yn Atodlen 2, Rhan 1, Gofyniad 4 (Dyluniad y Cynllun) y DCO drafft [APP-024].</p>
Q1.3.2	<p><i>Mesurau Lliniaru/ Ymgynghori</i></p> <p>IPs, gan gynnwys FCC a CWCC</p>	<ul style="list-style-type: none"> • A yw IPs yn fodlon â'r mesurau monitro/ lliniaru a gynigir gan y DCO sy'n ymdrin â llygredd aer/ allyriadau ac arogleuon posibl? A ystyrir bod unrhyw ddarpariaeth ychwanegol ar gyfer ymgynghori yn angenrheidiol ac wedi'i sicrhau yn y DCO?
4. Bioamrywiaeth, Ecoleg a'r Amgylchedd Naturiol		
Q1.4.1	<p><i>Arolygon</i></p> <p>IPs, gan gynnwys Awdurdodau Cynllunio Perthnasol, Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), Asiantaeth yr Amgylchedd (EA), Natural England (NE)</p>	<ul style="list-style-type: none"> • IPs <ol style="list-style-type: none"> i) Cadarnhewch b'un a ydych yn fodlon ag ystod yr arolygon ecolegol sy'n gysylltiedig â'r ES – Pennod 9 – Bioamrywiaeth [APP-061]; ii) A ydych chi'n ystyried bod y wybodaeth sylfaenol a gyflwynwyd yn adlewyrchiad rhesymol o'r sefyllfa bresennol? iii) O ran i) a ii), os na, pam a beth fyddai'n datrys unrhyw bryderon sy'n weddill? Mae'r ExA yn cydnabod y gallai hyn dderbyn sylw mewn SoCG. Os bwriedir i'r atebion i'r cwestiynau hyn dderbyn sylw mewn SoCG, nodwch hynny.
Q1.4.2	<p><i>Monitro</i></p> <p>Yr Ymgeisydd ac IPs, gan gynnwys</p>	<ul style="list-style-type: none"> • IPs <p>Cadarnhewch b'un a ydych yn fodlon â'r mesurau monitro yn ystod adeiladu ac ar ôl adeiladu a ddisgrifir yn Adran 9.13 yr ES – Pennod 9 – Bioamrywiaeth [APP-061].</p>

ExQ1	Cwestiwn ar gyfer:	Cwestiwn:
	<p>Awdurdodau Cynllunio Perthnasol (CWCC a FCC) a CNC, EA ac NE.</p>	<p>Yn arbennig, gwahoddir eich sylwadau ar y gofynion monitro a ddisgwylir yn ystod adeiladu a fanylir yn Nhabl 9.13 ac yn Atodiadau 9.1 - 9.10 (Cyfrol III), o ran trwyddedau rhywogaethau a warchodir a'r Cynllun Rheoli Tirwedd ac Ecoleg Amlinellol [APP-229]. Yn ogystal â'r mesurau monitro y bwriedir eu cynnal ar ôl adeiladu yn unol â Chynllun Rheoli Tirwedd ac Ecoleg (LEMP) [APP-230] a ddatblygir ar y cam Dylunio Manwl. Bwriedir i'r LEMP gael ei gynnwys yn y Cynllun Rheoli Amgylchedd Gweithrediadau a Chynnal a Chadw (OMEMP), a ddarperir ar ôl adeiladu.</p> <p>Mae'r ExA yn cydnabod y gallai hyn dderbyn sylw mewn SoCG. Os bwriedir i'r atebion i'r cwestiynau hyn dderbyn sylw mewn SoCG, nodwch hynny.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Yr Ymgeisydd <p>Mae'r ExA yn nodi y bwriedir i'r LEMP gael ei ddatblygu yn ystod yr hyn a ddisgrifir fel y cam 'Dylunio Manwl', ac eto mae LEMP wedi cael ei ddarparu [APP-230]. Ar ba gam dylunio y mae'r ddogfen ar hyn o bryd? A all yr Ymgeisydd egluro pam y'i cynhwyswyd? Er enghraifft, a fwriadwyd ei chynnwys ar hyn o bryd i ganiatáu i ymatebion ymgylgoreion fwydo i'r fersiwn dylunio manwl?</p> <p>Mae paragraff 9.13.4 [APP-061] yn cyfeirio at ddatblygu 'HEMP' o'r Cynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu (CEMP) manwl a'r LEMP. Cadarnhewch beth yw'r HEMP a'i rôl.</p> <p>Mae defnyddiau tir sensitif a amlygwyd o fewn, neu o fewn 250m, o Rannau 4, 5 a 6 yn cynnwys; Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA), Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) a choetir hynafol dynodedig. Os bydd y biblinell yn gollwng neu os bydd effeithiau ar ddŵr daear o ganlyniad i Ddatblygiad Arfaethedig y DCO, sut byddai cyrsiau dŵr/ dŵr daear/ ecoleg yn cael eu diogelu trwy'r rheolaethau monitro sydd ar gael? A ellir osgoi/ diogelu rhag y posibilrwydd o lygru neu asideiddio dŵr mewndirol yn ddigonol? Os felly, sut?</p>
Q1.4.3	<p><i>BNG/ Gwella Bioamrywiaeth</i></p> <p>Yr Ymgeisydd ac IPs, gan gynnwys FCC, CWCC, CNC ac NE</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae paragraffau 9.2.33-36 Pennod 9 yr ES yn datgan y bydd Enillion Bioamrywiaeth Net (BNG) yn ofyniad statudol ar gyfer y rhan fwyaf o geisiadau cynllunio, yn unol â Deddf newydd yr Amgylchedd (Bil yr Amgylchedd yn flaenorol), a gafodd Gydsyniad Brenhinol trwy'r Senedd ar 9 Tachwedd 2021. Er bod cyfnod pontio ar hyn o bryd cyn i ofynion gorfodol ddod i rym (disgwylir i hyn ddigwydd yn y gaeaf 2023), bydd yn mynnu bod datblygiad yn cyflawni enillion net o 10% mewn unedau bioamrywiaeth (cynefin ardal, unedau gwrych ac afon lle y bo'n berthnasol), a bennir trwy ddefnyddio metrig bioamrywiaeth.

ExQ1: 27 Mawrth 2023**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Terfyn Amser 1: Dydd Llun 17 Ebrill 2023**

ExQ1	Cwestiwn ar gyfer:	Cwestiwn:
		<p>At hynny, mae'r Ymgeisydd yn disgwyl y bydd y gofyniad BNG yn berthnasol ar draws yr holl brosiectau seilwaith daearol, neu elfennau daearol prosiectau, a dderbynnir i'w harchwilio gan yr Arolygiaeth Gynllunio trwy'r gyfundrefn NSIP erbyn mis Tachwedd 2025 (yn amodol ar ddarpariaethau'r Datganiadau Polisi Cenedlaethol perthnasol neu'r Datganiad Enillion Bioamrywiaeth). Ni fyddai'n ofynnol i brosiectau a dderbyniwyd i'r harchwilio cyn y dyddiad dechrau a nodwyd ddarparu BNG gorfodol o dan delerau Deddf yr Amgylchedd.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Yr Ymgeisydd <ol style="list-style-type: none"> i) Er hynny, mae buddiannau bioamrywiaeth a'r cyd-destun polisi/ statudol ehangach y mae'r buddiannau hynny'n rhan ohono, yng Nghymru a Lloegr, yn ystyriaethau pwysig a pherthnasol o hyd sy'n golygu y gallai gwelliant sylweddol gael ei sicrhau, o bosibl, ni waeth am y ddarpariaeth statudol BNG a ddisgwylir. A yw'r Ymgeisydd yn cytuno? Os na, esboniwch pam. ii) A all yr Ymgeisydd egluro ac amlinellu/ cyfeirio at sut mae'n bwriadu sicrhau BNG sylweddol uwch na'r 1% a fanylir ar hyn o bryd yn nogfennau'r archwiliad? Cadarnhewch lefel y BNG y mae'r Ymgeisydd wedi ymrwymo i'w darparu fel nod cyffredinol. Y tu hwnt i fesur BNG, a all yr Ymgeisydd amlinellu sut gallai hybu a chyflawni gwelliannau bioamrywiaeth cyffredinol ystyrlon ymhellach? iii) A yw'r Ymgeisydd yn cytuno y gallai defnyddio cytundeb a106 sy'n cynnwys dull swm gohiriedig i hwyluso gwelliannau bioamrywiaeth fod yn opsiwn ymarferol/ addas sydd ar gael? iv) I ba raddau y mae creu/ adfer (neu rywbeth tebyg) mawndir, gwlyptir neu forfa heli wedi cael ei ystyried fel gwelliant sy'n gysylltiedig â buddiannau a rennir, sef cydnerthedd rhag llifogydd o ganlyniad i beryglon y newid yn yr hinsawdd a galluogi dulliau o ddal carbon wedi'u seilio ar fyd natur. Os na, pam na ystyriwyd hyn? • IPs <ol style="list-style-type: none"> v) Cyflwynwch eich barn am geisio gwella bioamrywiaeth/ hwyluso BNG, gan gynnwys unrhyw ddiogelu at y dyfodol.
Q1.4.4	<i>BNG/ Gwella Bioamrywiaeth/ Cynefinoedd</i>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r ExA yn nodi cyflwyno'r Asesiad BNG – Rhannau 1-6 [APP-231] i [APP-236], yn olynol. <ol style="list-style-type: none"> i) Mae lefel y gwelliant BNG cyffredinol yr amlinellir y gellir ei sicrhau yn isel iawn. A all yr Ymgeisydd gyfiawnhau ymhellach y sail resymegol dros anelu at gynnydd

ExQ1: 27 Mawrth 2023**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Terfyn Amser 1: Dydd Llun 17 Ebrill 2023**

ExQ1	Cwestiwn ar gyfer:	Cwestiwn:
	Yr Ymgeisydd ac IPs, gan gynnwys FCC, CWCC, CNC ac NE	<p>cyffredinol o BNG 1% yn hytrach na cheisio'r trothwyon uwch o 5% neu 10% (a ddatganwyd yng nghyflwyniadau'r cais) yn y lle cyntaf yr ystyrir eu bod yn bosibl?</p> <p>ii) Mae paragraff 1.4.2 [APP-231] yn amlygu bod BNG hyd at 10% ar draws cynefinoedd ardal ac afon yn gyfle ymarferol. Amlinellwch y cynnydd a wnaed gyda thirfeddianwyr wrth sicrhau gwelliannau o'r fath i gynefin afon neu gynefin dyfrol arall, yn ogystal â'r camau nesaf i'w cymryd ynghyd â graddfa amser debygol i lywio'r Archwiliad.</p> <p>iii) Mae'r ExA yn cydnabod bod yr Asesiad BNG a gynhaliwyd yn canolbwyntio ar gynefinoedd â blaenoriaeth. Credir bod hyn wedi'i seilio ar y set ddata ofodol yn y Rhestr Cynefinoedd â Blaenoriaeth (Lloegr) a luniwyd gan NE ac a ddiweddarwyd ddiwethaf ar 13 Rhagfyr 2022, nad yw'n cynnwys Cymru. Ai dyna'r achos? Cadarnhewch y setiau data a ddefnyddiwyd ar gyfer Cymru a Lloegr a'u hoedran.</p> <p>iv) Gan ddilyn ymlaen o'r cwestiwn uchod, mae'r rhestr genedlaethol o gynefinoedd a rhywogaethau â blaenoriaeth yn Lloegr ('cynefinoedd a rhywogaethau Adran 41') ar gael i'w defnyddio gan gyrff cyhoeddus, tirfeddianwyr a chyllidwyr ar gyfer cadwraeth fioamrywiaeth. Crëwyd rhywogaethau a chynefinoedd â blaenoriaeth Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth (BAP) y Deyrnas Unedig rhwng 1995 a 1999, ac fe'u diweddarwyd wedi hynny yn 2007, yn dilyn adolygiad 2 flynedd o brosesau a blaenoriaethau BAP y Deyrnas Unedig, a oedd yn cynnwys adolygiad o restrau rhywogaethau a chynefinoedd â blaenoriaeth y Deyrnas Unedig. Roedd 'Fframwaith Bioamrywiaeth Ôl-2010 y Deyrnas Unedig', a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2012, wedi disodli BAP y Deyrnas Unedig. Er hynny, mae BAP y Deyrnas Unedig yn parhau i fod yn gyfeirbwynt defnyddiol ar gyfer 'rhywogaethau' a 'chynefinoedd'. Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, a wnewch chi gadarnhau'r rhestr cynefinoedd â blaenoriaeth y mae'r Ymgeisydd yn cyfeirio ati yn ei asesiad ar gyfer amddiffyniadau cynefin ac at ddibenion BNG/ buddiannau bioamrywiaeth?</p> <p>v) Esboniwch ba gyfle sy'n parhau i'r cynllun ategu mentrau ecolegol a bioamrywiaeth presennol ymhellach yn yr ardaloedd lleol y mae'r cynllun yn teithio trwyddynt. Os nad yw mentrau lleol/ rhanbarthol neu genedlaethol perthnasol wedi cael eu hystyried yn llawn hyd yma, rhowch ddiweddariad ar sut gellid cyflawni integreiddio posibl.</p> <p>vi) Mae'r EA [RR-024] yn nodi y bydd corff dŵr 'ger Purfa Stanlow' yn cael ei golli'n barhaol. A all yr Ymgeisydd gadarnhau i'r Archwiliad fanylion cynefin digolledu digonol o ganlyniad i'r golled hon?</p>

ExQ1: 27 Mawrth 2023**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Terfyn Amser 1: Dydd Llun 17 Ebrill 2023**

ExQ1	Cwestiwn ar gyfer:	Cwestiwn:
		<p>vii) Mae'r EA [RR-024] hefyd yn nodi, yn ogystal â chreu pentyrrau cynefin pren a gosod blychau ystlumod ac adar, mae'n rhaid hefyd cwblhau mesurau lliniaru cyfagos y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr (WFD), sy'n gwella cynefinoedd afonol ar gyfer bioamrywiaeth. Byddai hyn yn cyfrannu at BNG a'r amcan cyfreithiol o 'botensial ecolegol da' ar gyfer y cyrff dŵr hyn. A yw'r Ymgeisydd yn cydnabod yr ymatebion hyn? Os felly, esboniwch/ cyfeiriwch at ba ddarpariaeth sydd i'w gwneud.</p>
Q1.4.5	<p><i>BNG/ Gwella Bioamrywiaeth</i> Yr Ymgeisydd ac IPs, gan gynnwys FCC, CWCC a CNC</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Cyflwynodd Adran 6 o dan Ran 1 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 ddyletswydd uwch ynglŷn â bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau (y ddyletswydd A6) ar gyfer awdurdodau cyhoeddus wrth arfer swyddogaethau mewn perthynas â Chymru. Mae'n mynnu bod rhaid i awdurdodau cyhoeddus geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth cyn belled ag sy'n gyson ag arfer eu swyddogaethau'n briodol ac, wrth wneud hynny, hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau. Mae Adran 7 y Ddeddf yn cynnwys rhestrau bioamrywiaeth a dyletswydd i gymryd camau i gynnal a gwella bioamrywiaeth. Mae'r ExA yn nodi bod rhaid i Weinidogion Cymru hefyd gymryd pob cam rhesymol i gynnal a gwella'r organebau byw a'r mathau o gynefin(oedd) sydd wedi'u cynnwys mewn unrhyw restr a gyhoeddir o dan Adran 42, ac annog eraill i gymryd camau o'r fath. • Yr Ymgeisydd <ul style="list-style-type: none"> i) Cyfeiriwch a sut y cydymffurfir â'r ddyletswydd uchod yn nogfennau'r archwiliad? ii) Mae'r Asesiad BNG a gyflwynwyd yn nodi y ceisir cydymffurfedd â'r ddarpariaeth statudol uchod yn ystod yr Archwiliad, yn rhannol, trwy ymgysylltu gan ddefnyddio'r senarios digolledu oddi ar y safle. Fodd bynnag, os bydd dull o'r fath yn cael ei ddefnyddio, sut bydd hyn yn cael ei gyflawni i sicrhau cydymffurfedd cyfreithiol a rheolaeth tymor hir gadarn? iii) A yw'r Ymgeisydd wedi ystyried opsiynau trawstoriadol sydd ar gael i hybu BNG/ gwella bioamrywiaeth mewn perthynas â'i gynllun ei hun ar y cyd â'r heriau ecolegol strategol sy'n wynebu ymgylchreion statudol yng Nghymru a Lloegr? iv) Mae'r ExA o'r farn y dylai cynigion BNG oddi ar y safle gael eu harchwilio'n fwy trylwyr ac mae'n annog ymdrechion cynnar i gyflawni BNG oddi ar y safle a gwerth cyffredinol sylweddol fwy. Mae'r ExA yn gofyn am farn yr Ymgeisydd ynglŷn â

ExQ1: 27 Mawrth 2023**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Terfyn Amser 1: Dydd Llun 17 Ebrill 2023**

ExQ1	Cwestiwn ar gyfer:	Cwestiwn:
		<p>chyflawni BNG ystyrion oddi ar y safle yn realistig (am 30 mlynedd o leiaf ac wedi'u cofrestru'n ffurfiol) a'r lefel net a ddisgwylir ar ôl datblygu.</p> <p>v) Cynghorir yr Ymgeisydd i ddefnyddio ymagwedd hyblyg at opsiynau ar gyfer cyflawni BNG/ gwelliannau bioamrywiaeth ystyrion. Mae hyn yn ymestyn i gyflawni enillion net ar dir a berchnogir yn gyhoeddus ac yn breifat sy'n cynnwys nodweddion seilwaith gwyrdd neu las (gan gynnwys coetir newydd, creu gwlyptir, sefydlu/ adfer dolydd morwellt, a sefydlu/ adfer morfeydd heli).</p> <p>vi) Mae'r ExA yn gwahodd archwilio opsiynau o'r fath ymhellach gydag ymgylgoreion perthnasol a thirfeddianwyr fel modd o hybu lefelau BNG cyffredinol. Yn hynny o beth, mae'r ExA yn gofyn i amserlen gael ei chyflwyno sy'n amlinellu'r trafodaethau a gynhelir â thirfeddianwyr/ cyrff strategol perthnasol ynglŷn â mentrau ecolegol lleol (sydd naill ai ar waith neu y gellid eu datblygu) yn y cyffiniau y byddai modd eu hybu, o bosibl.</p> <p>vii) Mae'r ExA yn nodi mai'r Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC) yw'r corff cyhoeddus sy'n cynghori Llywodraeth y Deyrnas Unedig a gweinyddiaethau datganoledig ar gadwraeth natur ar draws y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol. Mae'n cynnwys aelodau o'r cyrff cadwraeth natur ar gyfer Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon, ac aelodau annibynnol a benodwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol (SoS) dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig. Mae'r JNCC yn darparu gwasanaeth cadwraeth natur gwyddonol a rennir ar gyfer y Deyrnas Unedig – dull i Lywodraeth y Deyrnas Unedig a'r gweinyddiaethau datganoledig gronni eu hadnoddau i gael tystiolaeth a chynghor ar gadwraeth natur a chyfalaf naturiol. A ystyriwyd cynghor y JNCC? Os na, nodwch pam a ph'un a fydd yr Ymgeisydd yn gallu caffael cynghor o'r fath yn ystod yr Archwiliad.</p> <ul style="list-style-type: none"> • IPs <p>viii) Croesewir unrhyw sylwadau sy'n ymateb i gwestiynau i) i vii) uchod.</p>
Q1.4.6	<p><i>BNG/ Gwella Bioamrywiaeth</i> Yr Ymgeisydd</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae paragraff 2.4.10 yr Aseiad BNG Rhan 1 [APP-231] yn datgan nad oedd modd arolygu Nant Penarlâg o ganlyniad i gyfyngiadau ar fynediad i dir. Fodd bynnag, tybir bod ei chyflwr yn wael gyda sgorau'n debyg i gyrsgiau dŵr eraill. Esboniwch natur y cyfyngiadau mynediad y cyfeirir atynt. <p>A fyddai unrhyw gyfyngiadau mynediad presennol a ddisgrifir yn rhwystro unrhyw welliannau posibl i ansawdd y nant fel opsiwn ar gyfer gwelliant posibl? A ellir goresgyn</p>

ExQ1: 27 Mawrth 2023**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Terfyn Amser 1: Dydd Llun 17 Ebrill 2023**

ExQ1	Cwestiwn ar gyfer:	Cwestiwn:
		y cyfyngiadau mynediad a ddisgrifir gan yr Ymgeisydd yn ystod cyfnod yr Archwiliad? Os na, nodwch pam.
Q1.4.7	<i>Cynefinoedd/ Gwella Bioamrywiaeth</i> Yr Ymgeisydd ac IPs, gan gynnwys FCC, CWCC, CNC ac NE	<ul style="list-style-type: none"> • Yr Ymgeisydd Mae'r ExA yn gofyn i'r Ymgeisydd gydnabod bod cynefinoedd afon (neu ddyfrol arall), gwrych ac ardal yn cael eu hystyried yn annibynnol, ac nad ydynt yn rhyng-gyfnewidiol. Mae'n rhaid llwyr ddeall na ellir mynd i'r afael â cholli un math trwy ddarparu un arall o fath gwahanol. • Yr Ymgeisydd/ IPs Cyfeiriwch at y strategaethau natur lleol penodol (gan gynnwys y rhai hynny sy'n cynnwys adfer natur neu ddulliau cysylltiedig â sail ecolegol iddynt ar gyfer atafaelu carbon) a gynhwysir yn yr ardal ddaearyddol sy'n destun y DCO, neu rai cyfagos, y gellid eu defnyddio i gyflawni gwelliant ecolegol ychwanegol. Awgrymwch y strategaethau y gellid eu defnyddio i sicrhau gwelliant a'r union ddulliau o weithredu'r gwelliant a ddymunir.
Q1.4.8	<i>Madfallod Dŵr Cribog</i> Yr Ymgeisydd ac IPs, gan gynnwys CWCC a FCC	<p>Mae'r ExA yn nodi cynnwys Atodiad 9.2 Adroddiad Arolwg Madfallod Dŵr Cribog – Rhannau 1-4 [APP-094]; [APP-095]; [APP-096]; ac [APP-097].</p> <ul style="list-style-type: none"> • Yr Ymgeisydd <ol style="list-style-type: none"> i) Eglurwch a rhowch fanylion ynglŷn â ph'un a ydych yn credu bod digon o wybodaeth arolwg sylfaenol i gadarnhau neu ddiystyru presenoldeb posibl Madfallod Dŵr Cribog (GCN) fel ystyriaeth berthnasol ym mhob rhan o lwybr y biblinell. ii) Cadarnhewch/ cyfeiriwch at fanylion mudo – o ble/i ble y byddai'r GCN yn teithio? iii) A all yr Ymgeisydd ddarparu manylion ychwanegol ynglŷn â pha fesurau lliniaru a fyddai'n cael eu cynnwys pe byddai GCN na ddisgwyllir gan yr arolwg perthnasol yn cael eu canfod wedi hynny? iv) A all yr Ymgeisydd hefyd egluro a oes angen cynllun lliniaru ar wahân ar gyfer GCN? • IPs: A oes unrhyw sylwadau/ pryderon yr hoffech eu mynegi ynglŷn â'r materion uchod?

ExQ1: 27 Mawrth 2023**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Terfyn Amser 1: Dydd Llun 17 Ebrill 2023**

ExQ1	Cwestiwn ar gyfer:	Cwestiwn:
Q1.4.9	<p><i>Madfallod Dŵr Cribog/ Rhywogaethau Eraill/ Trwyddedu</i></p> <p>Yr Ymgeisydd</p>	<ul style="list-style-type: none"> Mae'r HRA a gyflwynwyd – Gwybodaeth i lywio asesiad priodol [APP-226] yn nodi bod angen cael trwydded liniaru Rhywogaeth a Warchodir gan Ewrop (EPS) mewn perthynas â gwaith sy'n effeithio ar gynefin GCN, a'r mesurau lliniaru a digolledu penodol sydd i'w dilyn, gan gynnwys amseru gwaith er mwyn osgoi cyfnodau sensitif, gwneud gwaith clirio dan oruchwyliaeth Clerc Gwaith Ecolegol (ECoW); cynnal ymarfer trawsleoli; ac adfer unrhyw gynefin a gollir yn ystod adeiladu. <p>i) Gofynnir i'r Ymgeisydd amlinellu unrhyw rwystrau rhag cael y drwydded EPS berthnasol, ac amlinellu'r amserlen arfaethedig ar gyfer ei sicrhau.</p> <p>ii) Amlinellwch y rhwystrau/ yr amserlen ar gyfer unrhyw drwydded EPS arall sy'n angenrheidiol ar gyfer rhywogaethau eraill a warchodir.</p>
Q1.4.10	<p><i>Ystlumod</i></p> <p>Yr Ymgeisydd ac IPs, gan gynnwys CWCC a FCC</p>	<ul style="list-style-type: none"> Mae'r ExA yn nodi'r gwaith Adroddiad Arolwg Gweithgarwch Ystlumod a gyflwynwyd gan yr Ymgeisydd, a fanylir yn: [APP-098]; [APP-099]; [APP-100]; ac [APP-101] yn ogystal ag Atodiad 9.4 Asesiad Ystlumod a Gwrychoedd Rhannau 1-4 [APP-102]; [APP-103]; [APP-104] ac [APP-105]. <p>Mae Atodiad 9.3 yr Adroddiad Arolwg Gweithgarwch Ystlumod Rhan 1 [APP-098], Paragraff 2.7.3 yn datgan <i>Mae arolygon ar draws y Ffin Adeiladu Seilwaith Newydd yn parhau yn 2022. Fel y cyfryw, mae'r adroddiad hwn wedi cael ei baratoi ar sail canlyniadau arolwg a gronwyd hyd at 30 Mehefin 2022, a bydd gwybodaeth ychwanegol yn cael ei chyflwyno fel Gwybodaeth Atodol yn dilyn y Cais DCO.</i></p> <p>At hynny, mae Atodiad 9.4 Asesiad Ystlumod a Gwrychoedd Rhan 1 [APP-102] Paragraff 2.7.9 yn datgan <i>"Disgwylir i asesiadau synwryddion sefydlog awtomataidd gael eu cwblhau erbyn diwedd mis Hydref 2022. Mae'r casgliadau wedi'u seilio ar y data sydd ar gael. Pan fydd yr arolygon wedi'u cwblhau, bydd y data ychwanegol yn cael eu coladu i gadarnhau'r canfyddiadau. Bydd data ychwanegol yn cael eu cyhoeddi mewn fersiwn wedi'i diweddarau o'r adroddiad hwn ac fe'i darperir yn rhan o Wybodaeth Atodol y Cais DCO".</i></p> <ul style="list-style-type: none"> Yr Ymgeisydd

ExQ1: 27 Mawrth 2023**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Terfyn Amser 1: Dydd Llun 17 Ebrill 2023**

ExQ1	Cwestiwn ar gyfer:	Cwestiwn:
		<p>A all yr Ymgeisydd gadarnhau pryd y bydd y Wybodaeth Atodol yn cael ei chyflwyno i'r Archwiliad? A oes unrhyw rwystrau hysbys yn dod i'r amlwg rhag cael unrhyw drwydded sy'n angenrheidiol?</p> <p>A all yr Ymgeisydd esbonio, heb ganlyniadau arolwg llawn, pam y dylai'r ExA fod yn hyderus bod y gyfres o fesurau lliniaru ecolegol yn ddigon cadarn i ddelio ag effeithiau'r Datblygiad Arfaethedig?</p> <p>O ystyried Sylwadau Perthnasol (RRs) NE a CNC [RR-065 ac RR-066], a all yr Ymgeisydd gadarnhau p'un a oedd y fethodoleg "newydd" arfaethedig ar gyfer asesu effeithiau posibl ar ystlumod sy'n deillio o golli cynefin cymudo a chwilota am fwyd dros dro o ganlyniad i wahanu gwrychoedd yn ystod adeiladu'r Datblygiad Arfaethedig wedi cael ei chytuno ag NE a/ neu CNC cyn cyflwyno'r cais DCO.</p> <ul style="list-style-type: none"> • IPs Gwahoddir sylwadau sy'n berthnasol i'r gwaith arolwg neu rai eraill yr ystyrir eu bod yn angenrheidiol.
Q1.4.11	<i>Moch Daear/ Tylluanod Gwynion</i> Yr Ymgeisydd	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r ExA yn nodi'r Adroddiad Arolwg Moch Daear [APP-106] a'r Adroddiad Arolwg Tylluanod Gwynion Rhannau 1-4 [APP-108]; [APP-109]; [APP-110] ac [APP-111]. A ddisgwylir unrhyw ddiweddariadau ychwanegol i'r dogfennau hynny? Os felly, pryd bydd y diweddariadau'n cael eu cyflwyno i'r Archwiliad?
Q1.4.12	<i>Dyfrgwn a Llygod y Dŵr</i> Yr Ymgeisydd	<ul style="list-style-type: none"> • O ystyried Atodiad 9.6 Adroddiad Arolwg Mamaliaid Glannau Afon [APP-107], mae paragraff 2.4.4 yn cadarnhau "ymwelwyd â mwyafrif y cyrsiau dŵr unwaith yn unig cyn 30 Mehefin 2022, felly mae unrhyw asesiadau a wnaed ynglŷn â'u haddasrwydd fel cynefin, a phresenoldeb neu absenoldeb tebygol dyfrgwn neu lygod y dŵr, yn rhai dros dro tra'n disgwyl yr ail ymweliad arolygu. Cynhwyswyd grŵp 25 yn y Ffin Adeiladu Seilwaith Newydd wrth ddatblygu'r dyluniad, ac felly ni chafodd ei arolygu mewn perthynas â'r rhywogaethau hyn cyn 30 Mehefin 2022. Bydd y canlyniadau arolwg terfynol, gan gynnwys yr holl arolygon a gynhaliwyd ar ôl 30 Mehefin 2022, yn cael eu cyflwyno yn y Wybodaeth Atodol a fydd yn cael ei chwblhau yn yr hydref 2022. Fodd bynnag, mae'r mesurau lliniaru a fanylir ym Mhennod 9: Bioamrywiaeth (Cyfrol II (Cyfeirnod y Ddogfen: D.6.2.9)) wedi'u seilio ar bresenoldeb tybiedig dyfrgwn neu lygod y dŵr fel dull achos gwaethaf rhesymol, felly bydd unrhyw gyrsiau dŵr

ExQ1: 27 Mawrth 2023**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Terfyn Amser 1: Dydd Llun 17 Ebrill 2023**

ExQ1	Cwestiwn ar gyfer:	Cwestiwn:
		<p><i>ychwanegol yr amlygir eu bod yn cynnal y rhywogaethau hyn yn ddarostyngedig i'r un mesurau osgoi, lliniaru a digolledu".</i></p> <p>i) A all yr Ymgeisydd gadarnhau pryd y bydd y wybodaeth arolygu ychwanegol yn cael ei chyflwyno i'r Archwiliad, ac a oes unrhyw rwystrau hysbys rhag cael trwyddedau perthnasol?</p> <p>ii) A ddisgwylir i unrhyw un o'r mesurau osgoi, lliniaru neu ddigolledu presennol a fanylir ym Mhennod 9: Bioamrywiaeth gael eu newid gan y deunydd arolygu ychwanegol a ddisgwylir?</p> <p>iii) A ellir diystyru effeithiau negyddol ar unrhyw famaliaid glannau afon eraill, neu beidio? Os felly, ar ba sail? Pa ddarpariaeth osgoi, lliniaru neu ddigolledu fyddai ar gyfer mamaliaid glannau afon eraill heblaw am ddyfrgwn a llygod y dŵr?</p> <p>iv) Esboniwch, heb ganlyniadau arolwg llawn, pam y dylai'r ExA fod yn hyderus bod y gyfres o fesurau lliniaru ecolegol yn ddigon cadarn i ddelio ag effeithiau'r Datblygiad Arfaethedig.</p>
Q1.4.13	<i>Dyfrgwn a Llygod y Dŵr</i> Yr Ymgeisydd	<ul style="list-style-type: none"> Eglurwch ba ddarpariaeth a pha ddulliau ffurfiol fydd yn sicrhau bod cynefin amgen addas ar gyfer dyfrgwn neu lygod y dŵr sydd wedi'u dadleoli yn ystod ac ar ôl adeiladu. A fydd "Llythyr Dim Rhwystr" ar gyfer unrhyw drwyddedau sy'n angenrheidiol yn cael ei gyflwyno i'r Archwiliad?
Q1.4.14	<i>Adar</i> IPs, gan gynnwys CWCC a FCC	<ul style="list-style-type: none"> Mae Adran 4.10 Atodiad 9.8 Adroddiad Arolwg Adar [APP-112] yr Ymgeisydd yn nodi bod niferoedd mawr o Bibyddion Coesgoch (wedi'u cofnodi yn Nhrawslun 2) yn defnyddio glannau Afon Dyfrdwy, ger Sealand, yn ystod misoedd y gaeaf. Nid oedd y saith trawslun arall, gan gynnwys Trawslun 5 a Thrawslun 7 sy'n agos i Afon Mersey a Thrawslun 1, ger Afon Dyfrdwy, wedi cofnodi rhywogaethau cymwys Ardal Gwarchodaeth Arbennig (AGA) yn rheolaidd. Er nad yw Afon Dyfrdwy o fewn AGA Aber Afon Dyfrdwy yn y man croesi, mae'n uniongyrchol gysylltiedig â'r AGA ymhellach i'r gogledd-orllewin. Bydd y boblogaeth Pibyddion Coesgoch sy'n defnyddio'r tir ar hyd Trawslun 2 yn rhan o'r boblogaeth sy'n bresennol yn yr AGA a dylid ystyried ei bod wedi'i chysylltu'n swyddogaethol.

ExQ1: 27 Mawrth 2023**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Terfyn Amser 1: Dydd Llun 17 Ebrill 2023**

ExQ1	Cwestiwn ar gyfer:	Cwestiwn:
		A oes gan IPs unrhyw sylwadau ychwanegol i'w gwneud ar ganfyddiadau'r arolwg neu faterion yn ymwneud â thir sy'n gysylltiedig yn swyddogaethol?
Q1.4.15	<i>Adar</i> Yr Ymgeisydd ac NE	<ul style="list-style-type: none"> Hepgorwyd asesu effeithiau dadleoli ar adar Aber Afon Mersey ar sail presenoldeb/niferoedd adar. A ystyriwyd presenoldeb unigolion sy'n gysylltiedig â gweithgarwch adeiladu yn ymddangos ar ben glannau? Mae goleuadau, sŵn ac amseru aflonyddu er mwyn osgoi adegau pan fo adar yn bresennol yn agweddau ychwanegol i'w hystyried yn yr archwiliad. A yw'r mesurau lliniaru arfaethedig yn ddigonol?
Q1.4.16	<i>Ecoleg Ddyfrol</i> IPs, gan gynnwys Awdurdodau Cynllunio Perthnasol, CNC, EA ac NE	<ul style="list-style-type: none"> Mae'r ExA yn cydnabod cynnwys Atodiad 9.9 Adroddiad Arolwg Ecoleg Ddyfrol (Cyrsiau Dŵr) ac Atodiad 9.10 Adroddiad Arolwg Ecoleg Ddyfrol (Pyllau) [APP-113] [APP-114]. A yw IPs/ Ymgynghoreion Statudol yn fodlon â chwmpas a chynnwys yr arolygon dyfrol a ddarparwyd? Os na, nodwch pam.
Q1.4.17	<i>Coridorau Bywyd Gwyllt</i> Yr Ymgeisydd ac IPs, gan gynnwys CWCC, FCC, CNC ac NE	<p>Yr Ymgeisydd</p> <ul style="list-style-type: none"> Yn ystod Archwiliadau Safle Digwmni'r ExA [EV-003] ac [EV-004], arsylwyd bodolaeth debygol coridorau bywyd gwyllt 'anffurfiol' o fewn ardaloedd amgylchynol cyfagos a allai gael eu defnyddio gan amrywiaeth eang o rywogaethau, o bosibl. <ul style="list-style-type: none"> i) Eglurwch sut mae effaith y datblygiad arfaethedig ar goridau bywyd gwyllt anffurfiol posibl wedi cael ei hystyried. ii) Esboniwch i ba raddau y byddai unrhyw welliannau/ mesurau lliniaru ecolegol yn integreiddio â choridorau bywyd gwyllt anffurfiol presennol a sut y bwriedir sicrhau'r elfennau hynny trwy'r DCO. iii) Esboniwch ba gyfle sydd ar gael o fewn y gwaith peirianegol cyffredinol a thirweddu newydd a gynigir gan y DCO i alluogi coridorau ecolegol i ailsefydlu cyn gynted â phosibl cyn i'r holl waith gael ei gwblhau. Hefyd, esboniwch sut gallai darpariaeth bosibl o'r fath gael ei sicrhau'n ffurfiol. A archwiliwyd dulliau newydd ac arloesol wedi'u seilio ar fyd natur yn ddigonol?

ExQ1: 27 Mawrth 2023**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Terfyn Amser 1: Dydd Llun 17 Ebrill 2023**

ExQ1	Cwestiwn ar gyfer:	Cwestiwn:
		iv) Pa fesurau lliniaru a gynigir i sicrhau bod rhywogaethau a warchodir a rhywogaethau eraill yn cael eu gwarchod rhag sŵn a dirgryniad? IPs v) A oes unrhyw sylwadau/ pryderon yr hoffech eu mynegi ynglŷn â'r materion uchod?
Q1.4.18	<i>Coed</i> Yr Ymgeisydd, CWCC a FCC	<ul style="list-style-type: none"> • O ran unrhyw goed y disgwylir eu colli o ganlyniad i'r cynllun yn ei gyfanrwydd:- <ul style="list-style-type: none"> i) Gan gydnabod yr Asesiad o'r Effaith ar Goedyddiaeth a gyflwynwyd [APP-115] [APP-116], gofynnir i'r Ymgeisydd egluro faint o goed fyddai'n cael eu symud ymaith, neu sy'n debygol o gael eu symud ymaith neu eu difrodi o ganlyniad i'r cynllun yn gyffredinol? ii) IPs- Os oes unrhyw anghysondebau ag asesiad yr Ymgeisydd, amlygwch nhw. Amlygwch unrhyw feysydd lle y ceir anghytundeb. iii) Eglurwch leoliad yr holl goed sy'n debygol o gael eu colli neu eu difrodi. Darparwch gynllun/ rhowch gyfeiriad yn y cynllun sy'n dangos lleoliad y coed yr effeithir arnynt. iv) A yw'r coed a fyddai'n cael eu colli, eu difrodi neu sy'n debygol o gael eu difrodi wedi'u gwarchod? Ac os felly, sut? A oes unrhyw goed urddasol neu hynod? Os felly, faint? v) A ellir lliniaru'n ddigonol neu liniaru ymhellach ar gyfer colli coed ac, os felly, sut? vi) A ymgysylltwyd ag NE, CNC neu'r Comisiwn Coedwigaeth ynglŷn â'r posibilrwydd o gael gwared â choed neu effeithiau eraill a allai gynnwys coetir hynafol? Yn yr un modd, a gynhaliwyd unrhyw drafodaethau ynglŷn ag atgyfnerthu gorchudd coed/ coetir o fewn yr ardaloedd gweinyddol yr effeithir arnynt? Os na, a ellir rhoi ymrwymiad clir ar gyfer ymgysylltiad o'r fath. vii) A all yr Ymgeisydd esbonio ymhellach y dull o osgoi'r posibilrwydd o golli coetir hynafol/ effeithiau colli coed hynod a choed eraill perthnasol yn gyffredinol. viii) Gan ystyried unrhyw newidiadau posibl a allai fod wedi codi ers cyhoeddi'r ES, a fyddai effaith ar unrhyw goed sy'n cael eu gwarchod gan naill ai Gorchymyn Cadw Coed (TPO) neu oherwydd eu bod wedi'u lleoli mewn Ardal Gadwraeth? Os felly, rhowch fanylion ble mae'r coed hyn wedi'u lleoli a rhannau o'r dyfyniadau TPO perthnasol. Os yw'r wybodaeth eisoes wedi cael ei darparu, cyfeiriwch ati.
Q1.4.19	<i>Coed</i>	<ul style="list-style-type: none"> • Yr Ymgeisydd

ExQ1: 27 Mawrth 2023**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Terfyn Amser 1: Dydd Llun 17 Ebrill 2023**

ExQ1	Cwestiwn ar gyfer:	Cwestiwn:
	Yr Ymgeisydd ac IPs, gan gynnwys CWCC a FCC	<ul style="list-style-type: none"> i) Mae'n ymddangos bod lle i blannu coed newydd ychwanegol (ar y safle neu oddi arno), y tu hwnt i unrhyw blannu cyfnewid. Sut byddai unrhyw waith plannu coed posibl ychwanegol/ tirweddu cysylltiedig na chyfeirir ato ar hyn o bryd yn y DCO drafft a dogfennau'r cais yn cael ei sicrhau? ii) A ystyriwyd plannu coed ychwanegol (neu dirweddu arall cysylltiedig) i ategu coridorau natur anffurfiol lleol ymhellach ar y tir? Os na, pam? iii) Esboniwch os, a sut, gellir cydlynu'r cynlluniau plannu/ tirweddu a ddisgwylir mewn ffordd sy'n sicrhau eu bod yn sefydlu ac yn darparu cysylltiadau cadarnhaol â choridorau bywyd gwyllt presennol tra bod gweithgarwch adeiladu'n digwydd. iv) A ellir cymhwyso safonau uwch ar gyfer unrhyw waith plannu coed cyfnewid (lle y bo'n briodol) er mwyn cael effaith fwy uniongyrchol? Os na, pam? v) Awdurdodau Cynllunio Perthnasol/ IPs: A oes gennych unrhyw sylwadau ychwanegol ar y ddarpariaeth plannu coed neu dirweddu?
Q1.4.20	<i>Coed</i> Yr Ymgeisydd	<ul style="list-style-type: none"> • Cadarnhewch/ eglurwch y canlynol: - <ul style="list-style-type: none"> i) Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, cadarnhewch ble y cynigir gwaith clirio coed a llystyfiant cyn dechrau. ii) Eglurwch unrhyw newidiadau i'r gwaith clirio coed a llystyfiant cyn dechrau a gynigir sydd eisoes wedi'u disgwyl yn yr ES. Os oes newidiadau, ble byddai'r rhain yn digwydd a pha goed/ ardaloedd yr effeithir arnynt? Cyfeiriwch at gynllun wrth ymateb. iii) Pryd byddai'r gwaith clirio hwn yn digwydd? iv) O dan ba ddeddfwriaeth y byddai'r gwaith yn cael ei wneud? Os yw'r wybodaeth eisoes wedi cael ei darparu, cyfeiriwch ati.
Q1.4.21	<i>Mesurau Lliniaru Coed</i> Yr Ymgeisydd	<ul style="list-style-type: none"> • Mae Coed Cadw [RR-077] yn argymhell bod llain glustogi 30 metr yn cael ei gweithredu ar gyfer pob ardal o goetir hynafol er mwyn lliniaru'r effeithiau uchod yn ystod adeiladu. A all yr Ymgeisydd gadarnhau y gellir bodloni'r gofyniad hwn a sut byddai'n cael ei sicrhau gan y DCO?
Q1.4.22	<i>Cael Gwared â Gwrychoedd</i> Yr Ymgeisydd	<ul style="list-style-type: none"> • Mae Pennod 3 yr ES [APP-055] paragraff 3.6.31 yn datgan pan fydd angen cael gwared â gwrychoedd (gan gynnwys unrhyw goed ynddynt) i hwyluso adeiladu, tybir y bydd gwaredu o'r fath yn cael ei gadw i uchafswm lled o 15 metr. Ailadroddir hyn yn y Cofnod o Gamau Gweithredu ac Ymrwymadau Amgylcheddol (REAC) [APP-222] a'r CEMP Amlinellol [APP-225], sy'n datgan na eir yn fwy na'r lled 15 metr. Fodd bynnag, mae'r ExA yn nodi nad yw'r pellter hwn wedi'i gynnwys yn y terfynau gwyro a'r

ExQ1: 27 Mawrth 2023**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Terfyn Amser 1: Dydd Llun 17 Ebrill 2023**

ExQ1	Cwestiwn ar gyfer:	Cwestiwn:
		paramedrau a amlinellir yn y DCO drafft yn Erthygl 6 nac yn Atodlen 2, Rhan 1 Gofyniad 4 yn Nhabl 1. Esboniwch pam na ddylai'r mesuriad 15 metr uchod gael ei nodi yn rhan o'r terfynau gwyro a'i sicrhau'n briodol yn y DCO.
5.	Newid yn yr Hinsawdd	
Q1.5.1	<i>Cyffredinol</i> Yr Ymgeisydd	<ul style="list-style-type: none"> O ran yr effeithiau niweidiol cymedrol gweithredol a ragfyneir ar y biblinell o ganlyniad i'r newid yn yr hinsawdd, fel yr amlinellir ym Mhennod 7 yr ES, datganir y byddai mesurau lliniaru eilaidd yn cynnwys ymchwiliadau tir ac arolygon geotechnegol a sefydlogrwydd tir. A all yr Ymgeisydd esbonio sut byddai unrhyw fesurau sy'n ofynnol i fynd i'r afael ag unrhyw risgiau sefydlogrwydd tir a amlygir o ganlyniad i'r ymchwiliadau/ arolygon yn cael eu sicrhau trwy'r DCO?
Q1.5.2	<i>Methodoleg</i> Yr Ymgeisydd ac IPs, gan gynnwys CWCC a FCC	<ul style="list-style-type: none"> Mae'r ExA yn nodi bod yr asesiad o Nwyon Tŷ Gwydr (GHG) wedi cael ei hepgor o'r ES. Mae'r Ymgeisydd wedi datgan bod effaith allyriadau GHG (Pennod 10 – Nwyon Tŷ Gwydr, Cyfrol II), o ran eu cyfraniad at y newid yn yr hinsawdd, yn fyd-eang a chronnol ei natur, a bod pob tunnell yn cyfrannu at effeithiau ar systemau naturiol a dynol. Fel y cyfryw, effaith gronol yr holl weithgareddau dynol sy'n allyrru GHG sy'n achosi'r newid yn yr hinsawdd, ac felly mae'r asesiad o GHG o ganlyniad i'r Prosiect yn asesu effaith gronol allyriadau GHG yn ymhlyg. Yn ogystal, byddai'r Prosiect yn ei gyfanrwydd yn dal a storio allyriadau CO₂ ac yn cyfrannu at agenda carbon sero net y Deyrnas Unedig. Felly, mae'r Ymgeisydd yn dadlau y bydd buddion cronol Datblygiad Arfaethedig y DCO, ynghyd ag elfennau eraill y Prosiect, yn arwain at effaith fuddiol gronol at ei gilydd. Gwahoddir IPs i wneud pa sylwadau bynnag yr ystyriant eu bod yn briodol.
Q1.5.3	<i>Mesurau Lliniaru</i> Yr Ymgeisydd ac IPs, gan gynnwys CWCC, FCC, CNC ac NE	<ul style="list-style-type: none"> O ystyried Pennod 7 yr ES – Gwrthsefyll y Newid yn yr Hinsawdd [APP-059], mae'r ExA yn nodi cynnwys Tabl 7.13, sef Mesurau Lliniaru Ymgorfforedig yn Nyluniad Rhagarweiniol Datblygiad Arfaethedig y DCO, sy'n ymdrin â risg yr hinsawdd yn ystod unrhyw weithredu yn y dyfodol. Pa fesurau lliniaru ychwanegol sydd ar gael i'w hymgorffori yn y dyluniad i sicrhau bod darpariaeth ecolegol a thirwedd sy'n gysylltiedig â'r cynllun yn aros yn ddigon cydnerth i ddelio â'r newidiadau hinsoddol a ddisgwyllir yn y dyfodol? Esboniwch ymhellach/ cyfiawnhewch sut byddai mesurau lliniaru sydd wedi'u hymgorffori yn y dyluniad neu fesurau lliniaru/ gwella ychwanegol y mae'n bosibl eu cyflawni yn llwyddiannus o ystyried y dystiolaeth o risgiau hinsoddol. Er enghraifft,

ExQ1: 27 Mawrth 2023**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Terfyn Amser 1: Dydd Llun 17 Ebrill 2023**

ExQ1	Cwestiwn ar gyfer:	Cwestiwn:
		<p>gallai unrhyw wlyptir newydd y gellid ei greu arwain at nifer o fuddion trawstoriadol, fel y rhai hynny sy'n gysylltiedig â mwy o allu i storio carbon yn ecolegol, gwelliant ecolegol a delio â pherygl llifogydd lleol. Yn yr un modd, gallai cefnogaeth i blannu dolydd morwellt oddi ar y safle, mentrau tyfu lludwymon neu adfer morfeydd heli arwain at effeithiau buddiol trawstoriadol ehangach.</p> <p>Gwahoddir IPs i wneud pa sylwadau bynnag yr ystyriant eu bod yn briodol. Yn arbennig, mae'r ExA yn ceisio sylwadau ar b'un a yw ystod o fesurau lliniaru/gwelliannau wedi'u seilio ar fyd natur sydd ar gael ac yn gyflawnadwy wedi cael ei hystyried yn briodol?</p>
Q1.5.4	<p><i>Monitro</i></p> <p>Yr Ymgeisydd ac IPs, gan gynnwys CWCC a FCC</p>	<ul style="list-style-type: none"> Mae Pennod 7 – Gwrthsefyll y Newid yn yr Hinsawdd [APP-059] adran 7.14 yn nodi y bydd gan Ddatblygiad Arfaethedig y DCO OMEMP (a gynhwyswyd fel Gofyniad o'r DCO Drafft) i'w ddilyn ar gyfer gwaith cynnal a chadw arferol ac ymweliadau archwilio â'r Biblinell CO₂ a'r AGIs a'r BVSS i sicrhau eu bod yn cael eu hamddiffyn rhag effeithiau posibl yr hinsawdd a nodwyd yn y REAC. Yn ogystal, bydd y nodweddion draenio dŵr wyneb yn cael eu monitro a'u rheoli ar ôl cynllunio i gael data dŵr daear tymor hir, yn unol â'r Adroddiad Strategaeth Draenio Dŵr Wyneb Amlinellol. <p>Sut bydd y ddarpariaeth tirweddu ac ecolegol (gan gynnwys gwelliant) yn cael ei monitro mewn ffordd sy'n sicrhau cydnerthedd hinsoddol digonol, gan gynnwys ar ôl y cam datgomisiynu?</p>
Q1.5.5	<p><i>Mesurau Lliniaru</i></p> <p>Yr Ymgeisydd ac IPs, gan gynnwys CWCC a FCC</p>	<ul style="list-style-type: none"> Gofynnir i'r Ymgeisydd gyfiawnhau ymhellach sut mae materion hinsoddol niweidiol yn derbyn sylw'n ddigonol o ran plannu coed a llwyni brodorol; glaswelltir rhywogaeth gyfoethog a'u cydnerthedd dilynol yn y dyfodol. <p>Sut gall/ gallai cydnerthedd ychwanegol gael ei ddylunio/ ei gynnwys yn y cynllun a'i sicrhau gan y DCO?</p>
Q1.5.6	<p><i>Mesurau Lliniaru</i></p> <p>Yr Ymgeisydd ac IPs, gan gynnwys CWCC, FCC ac NE</p>	<ul style="list-style-type: none"> O ran tarfu ar fawndir a'r Cynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu Amlinellol – Atodiad 2 – Cynllun Rheoli Mawn Amlinellol [APP-228], heblaw am dechnegau lleiafu i leihau cloddio mawn, mae Paragraff 5.1.4 y ddogfen yn datgan "...os bydd gormod o ddeunydd wedi'i gloddio, byddai angen cymhwyso opsiynau ychwanegol ar y Camau Dylunio Manwl ac Adeiladu. Os na ellir ei ddefnyddio ar y safle, dylid archwilio opsiynau ailddefnyddio oddi ar y safle, gan ystyried gwaredu'n briodol fel gwastraff fel yr opsiwn olaf yn unig, yn unol â'r hierarchaeth reoli a amlinellir gan SEPA." <p>A ellir gwneud unrhyw waith cloddio mawndir mewn ffordd sy'n atal carbon rhag cael ei ryddhau?</p>

ExQ1: 27 Mawrth 2023**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Terfyn Amser 1: Dydd Llun 17 Ebrill 2023**

ExQ1	Cwestiwn ar gyfer:	Cwestiwn:
		<p>O ran mawn wedi'i gloddio na ellir ei ddychwelyd i'r safle, a oes modd ei drosglwyddo i fawndir arall gerllaw mewn ffordd sy'n ei atal rhag sychu ac allyrru CO₂? Os felly, sut gellir sicrhau'r mesur lliniaru hwnnw yn y DCO?</p> <p>A ystyriwyd/ diystyriwyd dulliau newydd neu arloesol, er enghraifft fel ysgeintio basalt i ddal unrhyw CO₂ a gollir yn ystod torri ffosydd ac ailgyflenwi ffrwythlondeb pridd ymhellach y tu hwnt i ardaloedd mawndir?</p>
6. Caffael Gorfodol, Mediant Dros Dro ac Ystyriaethau Tir neu Hawliau Eraill		
Q1.6.1	Yr Ymgeisydd	<ul style="list-style-type: none"> Cynghorwch b'un a yw'r Llyfr Cyfeirio (BoR) [APP-030] yn llwyr gydymffurfio â'r Canllawiau a gyhoeddwyd yn 2013 gan yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol (DCLG)¹.
Q1.6.2	Yr Ymgeisydd	<ul style="list-style-type: none"> Mae'r ExA yn gofyn i'r Ymgeisydd ddarparu fersiwn daenlen o'r BoR [APP-030] sy'n rhoi manylion y perchnogion/ partïon a amlygwyd gan y BoR, yn nhrefn yr wyddor, ac yna wrth ymyl pob perchennog/ parti restru'r rhifau lleiniau cysylltiedig, pryd y dechreuodd drafodaethau, dyddiadau gohebiaeth a chyfarfodydd a chynnydd a wnaed o ran trafodaethau ynglŷn â'r perchnogion a'r lleiniau hynny.
Q1.6.3	Unigolion yr Effeithir Arnynt/ IPs	<ul style="list-style-type: none"> A yw unrhyw Unigolion yr Effeithir Arnynt neu IPs yn ymwybodol o unrhyw anghywirdebau yn y BoR [APP-030], y Datganiad o'r Rhesymau [APP-027] neu'r Cynlluniau Tir [APP-008]?
Q1.6.4	Yr Ymgeisydd	<ul style="list-style-type: none"> Cadarnhewch fod yr holl unigolion sydd â buddiant mewn tir, gan gynnwys unrhyw hawliau dros dir anghofrestredig, wedi cael eu hamlygu a, lle nad oedd hyn yn bosibl: <ul style="list-style-type: none"> i) rhowch grynodedd o achosion lle nad yw eto wedi gallu amlygu unrhyw unigolion sydd â buddiant mewn tir, gan gynnwys unrhyw hawliau dros dir anghofrestredig; a ii) cadarnhewch ba gamau ychwanegol y bydd yr Ymgeisydd yn eu cymryd i amlygu unrhyw hawl(iau) anhysbys yn ystod yr Archwiliad.
Q1.6.5	Yr Ymgeisydd/ Ymgwymerwyr Statudol	<ul style="list-style-type: none"> Mae'r BoR [APP-030] yn cynnwys nifer o Ymgwymerwyr Statudol sydd â buddiannau mewn tir. Byddai'r ExA yn gofyn i'r Ymgeisydd:

¹ Deddf Cynllunio 2008, Canllawiau yn ymwneud â'r gweithdrefnau ar gyfer caffael tir yn orfodol, DCLG, Medi 2013

ExQ1: 27 Mawrth 2023**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Terfyn Amser 1: Dydd Llun 17 Ebrill 2023**

ExQ1	Cwestiwn ar gyfer:	Cwestiwn:
		<ul style="list-style-type: none"> i) Ddarparu adroddiad cynnydd ar drafodaethau gyda phob un o'r Ymgwymerwyr Statudol a restrir yn y BoR, gan roi syniad bras o'r raddfa amser ar gyfer sicrhau cytundeb â nhw; ii) Datgan p'un a ddisgwylir unrhyw rwystrau rhag sicrhau'r cyfryw gytundebau; a iii) Datgan p'un a amlygwyd unrhyw Ymgwymerwyr Statudol ychwanegol ers i'r BoR gael ei gyflwyno.
Q1.6.6	Yr Ymgeisydd	<ul style="list-style-type: none"> • Yn dilyn ymlaen o'r cwestiwn uchod (Q1.6.5), gofynnir i'r Ymgeisydd sicrhau bod y BoR [APP-030], y Datganiad o'r Rhesymau [APP-027] a Chynlluniau Tir [APP-008]: <ul style="list-style-type: none"> i) yn cael eu cadw'n gwbl gyfredol a bod unrhyw newidiadau a'r fersiynau diweddaraf yn cael eu cyflwyno erbyn pob Terfyn Amser, gan ddechrau o Derfyn Amser 1 (gan gyflwyno fersiwn derfynol o'r dogfennau hyn erbyn Terfyn Amser 7), a ddangosir yn amserlen yr Archwiliad ynghyd ag esboniad o'r rhesymau dros bob newid; ii) yn cael eu cyflenwi ar ffurf dwy fersiwn erbyn pob Terfyn Amser, gan ddechrau ar Derfyn Amser 1 (gan gyflwyno fersiwn derfynol o'r dogfennau hyn erbyn Terfyn Amser 7), sef copi glân cyfredol a chopi arall sy'n dangos newidiadau wedi'u holrhain o'r fersiwn flaenorol; ac iii) yn cael eu cyflenwi gyda rhifau diwygio unigryw sy'n cael eu diweddarau'n olynol o'r fersiynau yn y cais, wedi'u nodi'n glir yng nghorff pob dogfen ac wedi'u cynnwys yn enw'r ffeil electronig; a <p>bod y DCO drafft yn cael ei ddiweddarau yn unol â hynny, gan gynnwys Atodlenni 7 ac 8.</p>
Q1.6.7	Yr Ymgeisydd	<ul style="list-style-type: none"> • Cwblhewch y tabl yn Atodiad A y ddogfen ExQ1 hon.
Q1.6.8	Unigolion yr Effeithir Arnynt ac IPs	<ul style="list-style-type: none"> • A yw unrhyw 'Unigolion yr Effeithir Arnynt' a/ neu 'IPs' yn ymwybodol o: <ul style="list-style-type: none"> i) unrhyw ddewisiadau amgen rhesymol yn lle unrhyw Gaffael Gorfodol (CA) neu Feddiant Dros Dro (TP) a geisir gan yr Ymgeisydd; neu ii) unrhyw ardaloedd o dir neu hawliau y mae'r Ymgeisydd yn ceisio'r pwerau i'w caffael nad ydynt yn credu bod eu hangen?
Q1.6.9	Yr Ymgeisydd	<ul style="list-style-type: none"> • Erbyn pob un o'r Terfynau Amser perthnasol, gan ddechrau ar Derfyn Amser 1 ac yn gorffen ar Derfyn Amser 7, fel y dangosir yn amserlen yr Archwiliad, darparwch atodlen

ExQ1: 27 Mawrth 2023**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Terfyn Amser 1: Dydd Llun 17 Ebrill 2023**

ExQ1	Cwestiwn ar gyfer:	Cwestiwn:
		<p>cynnydd ar drafodaethau ynglŷn â CA a TP, cytundebau gwirfoddol, gwrthwynebiadau ac unrhyw gynnydd mewn perthynas â malltod sy'n:</p> <ul style="list-style-type: none"> i) nodi'r Unigolyn yr Effeithir Arno, ei fuddiannau ym mhob llain, y pwerau a geisir gan yr Ymgeisydd; y diben(ion) y'u ceisir ar ei gyfer/eu cyfer; a hyd disgwylidig unrhyw TP; ii) crynhoi unrhyw wrthwynebiadau gan yr Unigolyn yr Effeithir Arno i'r pwerau a geisir gan yr Ymgeisydd, ac ymatebion yr Ymgeisydd; iii) nodi p'un a ddaethpwyd i gytundeb gwirfoddol; iv) nodi'r cynnydd a wnaed ers y diweddariad diwethaf, unrhyw faterion sy'n weddill, y camau nesaf i'w cymryd a'r cynnydd a ddisgwylir erbyn diwedd yr Archwiliad. <p>Sylwch:</p> <ul style="list-style-type: none"> a) y bydd y wybodaeth uchod yn cael ei chyhoeddi ar ein gwefan, felly ni ddylid rhoi manylion masnachol a/ neu gyfrinachol; ac b) o ran Cais NSIP arall, ysgrifennodd yr SoS yn ddiweddar at yr Ymgeisydd ac IPs a enwyd a wnaeth gyflwyniadau ynglŷn â'r cynnig hwnnw gan nodi y dylai materion gael eu datrys erbyn diwedd yr Archwiliad ac, yn gyffredinol, na ddylai'r partïon ddibynnu ar ymgynghoriad ychwanegol ar ôl diwedd unrhyw Archwiliad i ddatrys materion o'r fath.
Q1.6.10	Ymgymerydd Statudol	<ul style="list-style-type: none"> • Darpariaethau Amddiffynnol – Mae nifer o Ymgymerydd Statudol, gan gynnwys Cadent Gas Ltd; yr Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd (CRT); National Grid Electricity Transmission PLC; National Grid Gas PLC; National Highways Ltd (NH); Network Rail Infrastructure Ltd (NR); SP Energy Networks ac United Utilities Water Ltd, wedi nodi: <ul style="list-style-type: none"> i) nad yw Darpariaethau Amddiffynnol o'u plaid wedi cael eu cynnwys yn y DCO drafft; ii) ni ddefnyddiwyd eu geiriad Darpariaeth Amddiffynnol safonol; ac iii) ni ystyriwyd amgylchiadau penodol i safle mewn perthynas â Darpariaethau Amddiffynnol. <p>Byddai'r ExA yn gofyn i bob Ymgymerydd Statudol:</p>

ExQ1: 27 Mawrth 2023**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Terfyn Amser 1: Dydd Llun 17 Ebrill 2023**

ExQ1	Cwestiwn ar gyfer:	Cwestiwn:
		<p>a) ddarparu copïau o'u geiriad a ffefrir neu, os ydynt wedi darparu geiriad i'r Ymgeisydd yn flaenorol, esbonio pam na ddylid defnyddio'r geiriad yn fersiwn gyfredol y DCO drafft;</p> <p>b) lle y bo'n berthnasol, cynghori ynglŷn â pha amgylchiadau penodol i safle, o ran Darpariaethau Amddiffynnol, nad ydynt wedi cael eu hystyried; a</p> <p>c) chadarnhau bod y partïon yn fodlon llunio cytundeb ochr, neu wedi dechrau paratoi cytundeb ochr o'r fath, neu eisoes wedi llunio cytundeb ochr o'r fath er boddhad y partïon perthnasol.</p> <p>Sylwch y bydd y wybodaeth uchod yn cael ei chyhoeddi ar ein gwefan, felly ni ddylid rhoi manylion masnachol a/ neu gyfrinachol.</p>
Q1.6.11	Yr Ymgeisydd	<ul style="list-style-type: none"> • Gan ystyried sylwadau'r Ymgymerywr Statudol, gan gynnwys y rhai hynny gan Cadent Gas Ltd, CRT, National Grid Electricity Transmission PLC, National Grid Gas PLC, NH, NR, SP Energy Networks ac UUW, fel yr amlinellwyd yn y cwestiwn uchod (Q1.6.10), ynglŷn â pheidio â defnyddio eu Darpariaethau Amddiffynnol yn y DCO drafft na'u geiriad ar gyfer Darpariaeth Amddiffynnol, byddai'r ExA yn gofyn i'r Ymgeisydd wneud sylwadau ar y RRs hyn, gan gynnwys: <ul style="list-style-type: none"> i) pam nad yw wedi cynnwys unrhyw Ddarpariaethau Amddiffynnol ar gyfer CRT nac NH; ii) p'un a yw'n cynnal trafodaethau â'r Ymgymerywr Statudol ynglŷn â'r amgylchiadau penodol i safle mewn perthynas â Darpariaethau Amddiffynnol a pha gynnydd a wnaed wrth ddatrys y pryderon a godwyd ganddynt; iii) p'un a oedd yn ymwybodol o'r geiriad a ffefrir yr Ymgymerywr Statudol; a iv) pham na ddefnyddiwyd y geiriad a ffefrir yr Ymgymerywr Statudol.
Q1.6.12	Ymgymerywr Statudol	<ul style="list-style-type: none"> • Mae nifer o Ymgymerywr Statudol wedi nodi yn eu RRs mai eu prif bryderon yw bodloni eu rhwymedigaethau statudol a sicrhau nad yw unrhyw ddatblygiad yn effeithio ar y rhwymedigaethau statudol hyn mewn unrhyw ffordd niweidiol. Byddai'r ExA yn gofyn: <ul style="list-style-type: none"> i) p'un a ydynt wedi cynnal unrhyw asesiad o effaith y Datblygiad Arfaethedig ar eu rhwymedigaeth(au) statudol neu a ydynt yn cynnal asesiad(au) o'r fath ar hyn o bryd; a ii) ph'un a ydynt wedi amlygu unrhyw bryderon o'r fath ac, os felly, beth ydynt.

ExQ1: 27 Mawrth 2023**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Terfyn Amser 1: Dydd Llun 17 Ebrill 2023**

ExQ1	Cwestiwn ar gyfer:	Cwestiwn:
Q1.6.13	Yr Ymgeisydd/ Ymgwymerwyr Statudol	<ul style="list-style-type: none"> Yn unol â'r cwestiwn uchod (Q1.6.12), byddai'r ExA yn gofyn i'r Ymgeisydd ac Ymgwymerwyr Statudol p'un a oes unrhyw drafodaethau wedi cael eu cynnal ynglŷn â phryderon yr Ymgwymerwyr Statudol, yn enwedig y rhai hynny sy'n ymwneud â'u gallu i fodloni eu rhwymedigaethau statudol, ac, os felly, pa gynnydd a wnaed gan y partion hyn o ran mynd i'r afael â'r pryderon hynny.
Q1.6.14	Yr Ymgeisydd	<ul style="list-style-type: none"> Pe byddai Ymgwymerwr Statudol yn gwneud sylw o dan adran 127 Deddf Cynllunio 2008 (PA2008) a heb ei dynnu'n ôl, ni fyddai'r SoS yn gallu awdurdodi pwerau sy'n ymwneud â thir yr ymgwymerwr statudol oni bai ei fod yn fodlon â materion penodol a amlinellir yn adran 127. Pe na byddai'r sylw'n cael ei dynnu'n ôl erbyn diwedd yr archwiliad, byddai angen cadarnhad y bodlonir y prawf "hwylustod". Ni fyddai'r SoS ychwaith yn gallu awdurdodi symud cyfarpar ymaith na'i ail-leoli oni bai ei fod yn fodlon y byddai angen ei ddileu neu ei symud ymaith er mwyn cynnal y datblygiad y mae'r Gorchymyn yn ymwneud ag ef yn unol ag adran 138 PA2008. Byddai angen cyfiawnhad i ddangos y byddai dileu neu symud ymaith yn angenrheidiol. Os nad yw'r gwrthwynebiadau gan Ymgwymerwyr Statudol yn cael eu tynnu'n ôl, nodwch ba bryd y byddai'r wybodaeth hon yn cael ei chyflwyno i'r Archwiliad.
Q1.6.15	Yr Ymgeisydd	<ul style="list-style-type: none"> Atgoffir yr Ymgeisydd bod Canllawiau'r Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol (fel yr oedd bryd hynny) yn ymwneud â gweithdrefnau ar gyfer Caffael Gorfodol (Medi 2013) yn datgan: <i>"Dylai ymgeiswyr allu dangos bod digon o gyllid yn debygol o fod ar gael i alluogi CA o fewn y cyfnod statudol ar ôl gwneud y Gorchymyn, a bod y goblygiadau i adnoddau yn sgil caffael posibl sy'n deillio o hysbysiad malltod wedi cael eu hystyried"</i>. <p>Mae'r ExA yn nodi'r Datganiad Cyllid [APP-029] ac nad yw'n amlygu unrhyw amcangyfrifon penodol o gostau, ond byddai'n gofyn:</p> <ol style="list-style-type: none"> p'un a gynhaliwyd dadansoddiad penodol o gostau CA disgwylidig y lleiniau penodol ac, os yw ar gael, bod y wybodaeth honno'n cael ei chyflwyno i'r Archwiliad neu fod yr Ymgeisydd yn esbonio'n fanwl pam na ddylai'r gyfryw wybodaeth gael ei chyflwyno i'r Archwiliad; ac o ran yr amcangyfrif o gyfanswm y costau CA a ddarperir yn y Datganiad Cyllid [APP-029], bod yr Ymgeisydd yn egluro'n fanwl sut y daethpwyd i'r ffigur CA hwnnw.

ExQ1: 27 Mawrth 2023**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Terfyn Amser 1: Dydd Llun 17 Ebrill 2023**

ExQ1	Cwestiwn ar gyfer:	Cwestiwn:
		Sylwch y bydd y wybodaeth uchod yn cael ei chyhoeddi ar ein gwefan, felly ni ddylid rhoi manylion masnachol a/ neu gyfrinachol.
Q1.6.16	Yr Ymgeisydd	<ul style="list-style-type: none"> Mae angen cydsyniad ar gyfer unrhyw ddarpariaeth arall yn y DCO sy'n ymwneud â thir y Goron neu hawliau sydd o fudd i'r Goron yn unol ag a135(2) PA2008. Ymhlith pethau eraill, mae hyn yn cynnwys cydsyniad ar gyfer unrhyw TP a geisir dros dir y Goron. Byddai'r ExA yn gofyn i'r Ymgeisydd nodi p'un a yw cydsyniad ar gyfer unrhyw ddarpariaethau sy'n effeithio ar dir neu hawliau'r Goron wedi cael ei sicrhau neu ar ddod.
Q1.6.17	Yr Ymgeisydd	<ul style="list-style-type: none"> Mae'r BoR [APP-030] yn cynnwys CA ar gyfer tir a amlygwyd yn 'Fan Agored'. Fel y cyfryw, byddai gorchymyn sy'n rhoi Caniatâd Datblygu yn destun gweithdrefn seneddol arbennig, i'r graddau bod y gorchymyn yn awdurdodi caffael tir yn orfodol, oni bai bod unrhyw un o'r eithriadau a nodir yn Adran 131 neu Adran 132 PA2008 yn berthnasol. Cynghorwch b'un a ydych o'r farn: <ul style="list-style-type: none"> i) bod unrhyw un o'r eithriadau a nodir yn yr adrannau a grybwyllir uchod yn berthnasol; neu ii) y byddai angen i Orchymyn sy'n rhoi Caniatâd Datblygu fod yn destun gweithdrefn seneddol arbennig. Rhowch resymau manwl gyda'ch ymateb.
Q1.6.18	Yr Ymgeisydd	<ul style="list-style-type: none"> Yn ei RR [RR-026], mae NR yn gwrthwynebu ar hyn o bryd y pwerau a gynhwysir yn Erthyglau 19 (Rhyddhau Dŵr), 21 (Awdurdod i arolygu ac ymchwilio'r tir), 22 (Gwaith amddiffynnol ar adeiladau), 24 (Caffael tir yn orfodol), 26 (Caffael hawliau a chyfamodau cyfyngu yn orfodol), 27 (Awdurdod statudol i drechu hawddfrentiau a hawliau eraill), 28 (Caffael tir yn orfodol: mwynau), 29 (Hawliau preifat), 31 (caffael isbridd neu ofod awyr yn unig), 33 (hawliau o dan neu dros strydoedd), 34 (Defnyddio tir dros dro i gynnal y datblygiad awdurdodedig), 35 (Defnyddio tir dros dro i gynnal a chadw'r datblygiad arfaethedig) a 39 (Torri neu docio coed a chael gwared ar wrychoedd) y DCO drafft. Mae NR hefyd yn cynghori y gall unrhyw ddefnydd dros dro o reilffordd weithredol NR, neu fynediad iddo, gael ei ganiatáu gyda chydysyniad NR yn unig oherwydd bod rhaid i unrhyw ddefnydd o'r fath o'r rheilffordd fod yn unol â'r gofynion statudol a osodir ar NR fel gweithredwr y rhwydwaith rheilffyrdd a'r holl ofynion sy'n angenrheidiol i sicrhau bod y rheilffyrdd yn gweithredu'n ddiogel. At hynny, mae NR yn datgan yn ogystal â Darpariaethau Amddiffynnol, y bydd angen i'r Ymgeisydd lunio Cytundeb Amddiffyn

ExQ1: 27 Mawrth 2023**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Terfyn Amser 1: Dydd Llun 17 Ebrill 2023**

ExQ1	Cwestiwn ar gyfer:	Cwestiwn:
		<p>Asedau, yn enwedig o ran Rhifau Gwaith 4, 24, 24A, 25, 31B, 32, 38 a 43, i sicrhau bod y gofynion technegol, peirianegol a diogelwch priodol ac angenrheidiol ar gyfer gweithio ar neu gerllaw rheilffordd weithredol NR yn cael eu cymhwyso i'r Cynllun DCO. Mae NR yn amlinellu meini prawf yn ei RR, y mae'n disgwyl y byddai mewn sefyllfa i dynnu ei wrthwynebiadau yn ôl petaent yn cael eu bodloni.</p> <p>Byddai'r ExA yn gofyn i'r Ymgeisydd ymateb yn fanwl i RR NR a rhoi gwybod pa gynnydd y mae'n ei wneud i ddatrys y pryderon a godwyd er mwyn i'r gwrthwynebiad hwn gael ei ddileu.</p>
Q1.6.19	Yr Ymgeisydd	<ul style="list-style-type: none"> Mae SP Energy Networks yn datgan yn ei RR [RR-075] bod rhaid iddo sicrhau bod unrhyw effaith niweidiol ar ei rwydwaith yn cael ei hosgoi. Mae'n amlinellu'r materion y mae angen mynd i'r afael â nhw a byddai'r ExA yn gofyn i'r Ymgeisydd ymateb yn fanwl i'r RR hwn a rhoi gwybod pa gynnydd a wnaed i ddatrys y materion sydd wedi cael eu codi.
Q1.6.20	Yr Ymgeisydd	<ul style="list-style-type: none"> Yn ogystal â phryderon NR ac SP Energy Networks a amlygwyd yn y cwestiynau uchod (Q1.6.18 a Q1.6.19), mae CRT wedi gwrthwynebu elfen CA/ TP y Datblygiad Arfaethedig hefyd. Mae'n ymddangos bod llawer o'i phryderon a gwrthwynebiadau a godwyd yn hyn o beth yn canolbwyntio ar y ffaith bod CA wedi'i fwriadu fel dewis olaf i sicrhau y gellir casglu ynghyd yr holl diroedd sy'n angenrheidiol i weithredu'r prosiectau ac y dylai gael ei wneud dim ond pan fydd achos cymhellol er budd y cyhoedd. O ystyried hyn, a wnewch chi: <ul style="list-style-type: none"> i) ymateb yn fanwl i'r RR a wnaed gan CRT [RR-008]; a ii) dangos pa gamau rhesymol rydych wedi'u cymryd i gaffael yr holl dir a hawliau sydd wedi'u cynnwys yn y Gorchymyn, cyn ac ar ôl i'r Cais DCO hwn gael ei gyflwyno.
Q1.6.21	Yr Ymgeisydd	<ul style="list-style-type: none"> Nodir Rhan 2 y BoR. Fodd bynnag, byddai'r ExA yn gofyn i'r Ymgeisydd a oes unrhyw unigolion eraill a allai fod â'r hawl i wneud hawliad perthnasol o dan: <ul style="list-style-type: none"> i) adran 10 Deddf Prynu Gorfodol 1965; ii) Rhan 1 Deddf Digollediad Tir 1973; a/ neu iii) adran 152(3) PA2008, <p>petai'r DCO yn cael ei wneud a'i weithredu'n llawn ac felly y dylid eu hychwanegu fel partïon Categori 3 i'r BoR [APP-030]? Gallai hyn gynnwys y rhai hynny sydd wedi gwneud sylwadau ar y canlynol (ond heb fod yn gyfyngedig iddynt), neu sydd â buddiannau ynddynt:</p>

ExQ1: 27 Mawrth 2023**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Terfyn Amser 1: Dydd Llun 17 Ebrill 2023**

ExQ1	Cwestiwn ar gyfer:	Cwestiwn:
		<ul style="list-style-type: none"> • sŵn, dirgryniad, arogleuon, mygdarthau, mwg neu oleuadau artiffisial; • effaith adeiladu neu weithredu'r Datblygiad Arfaethedig ar werthoedd eiddo neu incwm rhenti; • pryderon ynglŷn ag ymsuddiant/ sefydlogi; • honiadau y bydd angen i rywun gael ei adleoli dros dro neu'n barhaol; • effeithiau ar fusnes; • colli hawliau, e.e. i le parcio neu fynediad i eiddo preifat; • pryderon ynglŷn â chyllido'r prosiect; • honiadau bod dewisiadau amgen hyfyw; a/ neu falltod.
Q1.6.22	Yr Ymgeisydd	<ul style="list-style-type: none"> • A oes angen caffael unrhyw dir neu hawliau yn ychwanegol at y rhai a geisir trwy'r DCO drafft cyn y gall y Datblygiad Arfaethedig ddod yn weithredol?
Q1.6.23	Yr Ymgeisydd, Unigolion yr Effeithir Arnynt ac IPs	<ul style="list-style-type: none"> • Ydych chi'n ystyried bod yr holl rwystrau posibl rhag y datblygiad wedi cael eu hamlygu ac wedi derbyn sylw'n briodol? Yn ogystal, a oes pryderon efallai na fydd unrhyw faterion, sydd naill ai o fewn neu'r tu allan i gwmpas y DCO drafft, a fyddai'n atal y datblygiad rhag dod yn weithredol, yn cael eu datrys yn foddhaol? Mae hyn yn cynnwys materion yn ymwneud â chaffaeliadau, cydsyniadau, adnoddau neu gytundebau eraill.
7. Treftadaeth Ddiwylliannol a'r Amgylchedd Hanesyddol		
Q1.7.1	Yr Ymgeisydd	<ul style="list-style-type: none"> • Mae CC Sir y Fflint yn dweud bod y Cynllun Ymchwilio Ysgrifenedig yn gadarn ac yn briodol i raddau helaeth. Fodd bynnag, dylai'r Ymgeisydd/ ymgynghorwyr egluro p'un a fydd briff gwylio treigl sy'n defnyddio methodoleg clirio/ mapio/ cloddio yn cael ei gynnwys yn ystod y cam hawddfrait a chloddio ffosydd pibell cychwynnol hyd at lefel ffurfiant, gan fod hyn fel arfer yn dod o hyd i fwy o nodweddion na ddatgelwyd gan dorri ffosydd treialu a geoffiseg yn unig, yn enwedig nodweddion cynhanesyddol. A all yr Ymgeisydd gadarnhau? Sut bydd yr ymrwymiad yn cael ei ffurfioli?
8. Dyluniad a Gosodiad		
Q1.8.1	Yr Ymgeisydd	<ul style="list-style-type: none"> • Ymdrinnir â chwestiynau perthnasol yn yr adran Tirwedd a Gweledol.
9. Aseiad o'r Effaith Amgylcheddol/ Datganiad Amgylcheddol		

ExQ1: 27 Mawrth 2023**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Terfyn Amser 1: Dydd Llun 17 Ebrill 2023**

ExQ1	Cwestiwn ar gyfer:	Cwestiwn:
Q1.9.1	Yr Ymgeisydd ac IPs, gan gynnwys CWCC a FCC	<ul style="list-style-type: none"> Mae'r ExA yn cydnabod bod rhywfaint o'r wybodaeth arolwg sylfaenol sydd wedi'i chynnwys yn yr ES yn hen. Mae rhai amgylchiadau wedi codi hefyd (gan gynnwys yn sgil y pandemig COVID-19) a allai fod wedi effeithio ar ddefnyddio'r data sylfaenol, neu beidio, ac unrhyw gasgliadau/ tybiaethau sydd i'w ffurfio o hynny. <ul style="list-style-type: none"> i) Gofynnir i'r Ymgeisydd amlinellu mewn un atodlen (gan gyfeirio at y penodau perthnasol) unrhyw waith casglu data sylfaenol ychwanegol sydd wedi cael ei wneud neu sy'n mynd rhagddo, neu fel arall nodi'r rhesymau pam mae'r data sylfaenol presennol yn parhau i fod yn addas i'r diben. ii) A all yr Ymgeisydd hefyd nodi ei ymateb i unrhyw effaith bosibl ar unrhyw sefyllfa sylfaenol a'i farn am ddibynadwyedd cyffredinol y wybodaeth a gyflwynwyd, gan ystyried y newid penodol hwnnw i amgylchiadau, ac unrhyw newid arall o bwys a ddisgwylir i amgylchiadau. iii) O ran gwybodaeth yn ymwneud ag effeithiau cronol, cadarnhewch unrhyw ddiweddariadau iddi. <p>IPs – a ydych yn fodlon â'r arolygon sylfaenol sy'n llywio effaith gronol yn yr ES? Os na, esboniwch pam.</p>
Q1.9.2	Yr Ymgeisydd ac NE	<ul style="list-style-type: none"> Mae NE [RR-065] wedi dweud nad yw'r Ymgeisydd wedi darparu digon o dystiolaeth ynglŷn â'r materion canlynol: <ul style="list-style-type: none"> i) Safleoedd a ddynodwyd yn rhyngwladol ac yn genedlaethol, gan fod angen rhagor o wybodaeth am effeithiau ar dir sy'n gysylltiedig yn swyddogaethol ac aflonyddwch sŵn. ii) Rhywogaethau a warchodir, gan fod angen rhagor o wybodaeth am fanylion arolygu ac asesu. iii) Priddoedd a thir amaethyddol gorau a mwyaf amlbwrpas, gan fod angen rhagor o wybodaeth yn y Cynllun Rheoli Pridd a'r Cynllun Rheoli Mawn Amlinellol. <p>A oes rhagor o wybodaeth ar ddod ynglŷn â'r meysydd hyn o'r ES? Sut mae'r Ymgeisydd yn bwriadu datrys y diffygion hyn?</p>
Q1.9.3	Yr Ymgeisydd, IPs, gan gynnwys FCC a CNC	<ul style="list-style-type: none"> Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn amlinellu dyletswydd i wella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy.

ExQ1: 27 Mawrth 2023**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Terfyn Amser 1: Dydd Llun 17 Ebrill 2023**

ExQ1	Cwestiwn ar gyfer:	Cwestiwn:
		i) Yr Ymgeisydd: Eglurwch sut mae effeithiau cronol y cynllun, ynghyd â'r mesurau lliniaru, wedi cael eu hasesu gyda'r egwyddor drosfwaol honno mewn golwg. ii) IPs: Gwnewch unrhyw sylwadau a ddymunwch ar oblygiadau'r Ddeddf uchod os nad ydych eisoes wedi gwneud hynny.
Q1.9.4	Yr Ymgeisydd	<ul style="list-style-type: none"> Nid yw'r disgrifiad o'r Datblygiad Arfaethedig ym Mhennod 3 yr ES [APP-055] yn cynnwys unrhyw gyfeiriad at ddymchwel strwythurau yn ystod y cam adeiladu, er y darperir ar ei gyfer yn y DCO drafft. A all yr Ymgeisydd gadarnhau p'un a fyddai angen unrhyw waith dymchwel a rhoi disgrifiad ac asesiad o effeithiau arwyddocaol fel y bo'r angen? <p>At hynny, mae'r bennod hon o'r ES yn datgan y tybiwyd at ddibenion yr asesiad y byddai capasiti cludo CO₂ llawn y Datblygiad Arfaethedig yn cael ei gyrraedd yn 2027. A all yr Ymgeisydd esbonio pa dybiaethau a wnaed ynglŷn â'r trwygyrch yn ystod y cyfnod gweithredol cyn hynny, h.y. 2025 (yn rhannol) a 2026, a sut y'i haseswyd?</p> <p>Dim ond y terfynau gwyro fertigol ar gyfer y biblinell sydd wedi'u hamlinellu yn Erthygl 6 y DCO drafft (gallai'r ffigurau fod yn wallus):</p> <ul style="list-style-type: none"> - gallai'r gwaith piblinell wyro'n fertigol i fyny i ddim llai nag 1.2m islaw wyneb y ddaear; a - gallai'r gwaith piblinell wyro'n fertigol i lawr mewn perthynas â'r rhannau sy'n defnyddio technegau gosod di-ffos hyd at ddyfnder mwyaf o 35m. <p>Gofynnir i'r Ymgeisydd esbonio pam mae'n ystyried bod angen i waith piblinell di-ffos wyro'n fertigol i lawr hyd at ddyfnder mwyaf o 35m neu nodi'r ffigur diwygiedig.</p>
Q1.9.5	Yr Ymgeisydd	<ul style="list-style-type: none"> Mae Pennod 18 yr ES [APP-070] paragraff 18.5.24 yn datgan nad oedd y cyrff ymgynghori perthnasol, ar yr adeg yr ysgrifennwyd yr ES, wedi cadarnhau eu bod yn cytuno â defnyddio'r methodolegau (ar gyfer pennu arwyddocâd a maint) a gynhwysir yn 'LA 113 Draenio Ffyrdd a'r Amgylchedd Dŵr' gan NH a 'Chanllawiau ar Ddadansoddi Trafnidiaeth (TAG) Uned A3 Arfarnu Effeithiau Amgylcheddol – Effeithiau ar yr Amgylchedd Dŵr' gan yr Adran Drafndiaeth ar gyfer asesu effeithiau ar ddŵr daear. A

ExQ1	Cwestiwn ar gyfer:	Cwestiwn:
		all yr Ymgeisydd gadarnhau a yw'r cyrff ymgynghori wedi ymateb ers hynny ac, os ydynt, rhoi eu sylwadau i'r Archwiliad.
10. Perygl Llifogydd, Hydroleg, Adnoddau Dŵr a Halogiad		
Q1.10.1	<i>Perygl Llifogydd</i> Yr Ymgeisydd	<ul style="list-style-type: none"> Mae'r Ymgeisydd wedi cyflwyno Atodiad 18.5 Aseiad Canlyniadau Llifogydd (FCA), Rhannau 1-3 [APP-168] [APP-169] [APP-170]. Mae'r dogfennau'n dangos bod yr holl AGIs a BVSs wedi'u lleoli ym Mharth Llifogydd A – ardaloedd lle nad oes llawer o berygl llifogydd o afonydd a'r môr, neu ddim perygl o'r fath. Mae rhannau o'r Biblinell o fewn Parthau Llifogydd 2 a 3 ar Fap Perygl Llifogydd yr EA ar gyfer cynllunio. Mae'r wybodaeth yn yr ES hefyd yn dangos y bydd y Biblinell CO₂ Newydd yn croesi Afon Dyfrdwy, sef afon a amddiffynnir sydd dan ddylanwad y llanw. Mae'r amddiffynfa bresennol rhag llifogydd ar gyfer Afon Dyfrdwy yn cynnwys argloddiau llifogydd. Nid oes unrhyw amddiffynfeydd hysbys rhag llifogydd sy'n gwasanaethu'r pedair BVS a'r ddau AGI o ystyried eu pellter oddi wrth unrhyw gyrff dŵr mawr a'r ffaith eu bod wedi'u lleoli i ffwrdd oddi wrth unrhyw orlifdiroedd afonol/ llanw/ arfordirol hysbys. Er mwyn eglurder, beth yw ystod uchder bras yr amddiffynfeydd rhag llifogydd (argloddiau) y cyfeirir atynt a pha mor bell maen nhw'n ymestyn? A oes cynllun ar gael sy'n dangos y wybodaeth? Mae'r EA [RR-024] wedi ymateb trwy ddweud y bydd angen i unrhyw waith dros dro neu barhaol o fewn 8m o unrhyw brif afon fod yn destun Trwydded Gweithgarwch Perygl Llifogydd gan EA o dan y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol. Maen nhw'n argymhell bod yr Ymgeisydd yn cyflwyno cais am drwydded ar yr un pryd â'r DCO. Ni allant roi unrhyw sicrwydd y bydd y cynigion presennol yn cael trwydded o'r fath ar hyn o bryd. A all yr Ymgeisydd gadarnhau p'un a fwriedir gwneud cais am drwydded ar yr un pryd â'r Archwiliad?
Q1.10.2	<i>Perygl Llifogydd</i> Yr Ymgeisydd ac IPs, gan gynnwys CNC; FCC fel yr Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol (LLFA) a'r Corff Cymeradwyo Systemau Draenio	<ul style="list-style-type: none"> Yr Ymgeisydd Mae paragraff 2.5.4 [APP-168] yn nodi bod gan AGI y Fflint gwrs dŵr agored (Lead Brook) i'r gogledd-ddwyrain o ffin y safle yn fras. Mae'r cwrs dŵr yn llifo tua'r gogledd lle mae'n mynd o dan Chester Road (yr A548) trwy gwlfert. Felly, awgrymir bod angen i AGI y Fflint sicrhau na fydd unrhyw ddŵr wyneb ffo yn achosi llifogydd mewn man arall o ystyried y cwrs dŵr y mae'n agos iddo. Mae paragraff 5.5.5 yn cyfeirio at lwybr llif dros y tir sy'n rhyddhau i gwrs dŵr 50 metr i'r dwyrain (nad yw wedi'i enwi).

ExQ1: 27 Mawrth 2023

Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Terfyn Amser 1: Dydd Llun 17 Ebrill 2023

ExQ1	Cwestiwn ar gyfer:	Cwestiwn:
	<p>Cynaliadwy (SDSAB); Dŵr Cymru (WW); United Utilities; a CWCC</p>	<p>Ai dyna'r un cwrs dŵr a grybwyllir ym mharagraff 2.5.4 neu gwrs dŵr gwahanol? Eglurwch, os gwelwch yn dda.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Yr Ymgeisydd/ IPs A oes cyfraddau llif dangosol ar gyfer cyrsiau dŵr lleol ar gael cyn ac ar ôl datblygu? A fyddai opsiynau i arafu cyfraddau llif/ ffurfio dŵr wyneb lleol yn ardal y DCO, neu gerllaw, yn sgil ffurfio pyllau/ gwlyptir newydd a fyddai o fantais i nodau cynaliadwyedd ehangach yn ymarferol/ yn bosibl? Os felly, a allai'r ddarpariaeth honno gael ei chynnwys?
<p>Q1.10.3</p>	<p><i>Perygl Llifogydd</i> Yr Ymgeisydd ac IPs, gan gynnwys CNC; FCC fel LLFA a SDSAB; WW; United Utilities; a CWCC</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae gan CNC dystiolaeth o un cofnod o ddigwyddiad llifogydd blaenorol ar hyd y Biblinell CO₂ Newydd (Cyrhaeddiad Pibell 4b). Digwyddodd hyn ar hyd y B5129 Chester Road sydd gerllaw Nant Brychdyn. Mae Asesiad Canlyniadau Llifogydd Strategol FCC (2018) hefyd yn dangos bod llifogydd afonol hanesyddol wedi digwydd ar y B5129 Chester Road, er na wyddys y manylion llawn. • Yr Ymgeisydd ac IPs <ol style="list-style-type: none"> i) A oes unrhyw safbwyntiau lleol wedi cael eu cyflwyno/ ar gael sy'n rhoi mwy o fanylion ynglŷn ag achos neu ddyddiad y digwyddiad llifogydd hanesyddol hwn? A yw hyn yn ardal Nant Chester Road? ii) Cyfeirir at y gofrestr llifogydd "DG5" hefyd ym Mharagraff 3.3.4 [APP-168]. Esboniwch darddiad, natur a statws y gofrestr honno ar gyfer yr ardal weinyddol. • IPs <ol style="list-style-type: none"> iii) Gwnewch ba sylwadau bynnag yr ystyriwch eu bod yn berthnasol ar asesu perygl llifogydd neu unrhyw fater arolygu, lliniaru neu osgoi cysylltiedig sy'n cael ei ysgogi, gan gynnwys mesurau sy'n gysylltiedig â gwrthsefyll y newid yn yr hinsawdd yn y dyfodol trwy'r posibilrwydd o greu gwlyptir.
<p>Q1.10.4</p>	<p><i>Perygl Llifogydd</i> Yr Ymgeisydd ac IPs, gan gynnwys: CNC; FCC fel LLFA a SDSAB; WW; CWCC; ac United Utilities.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Yr Ymgeisydd: <ol style="list-style-type: none"> i) Prin yw'r wybodaeth am y lefelau dŵr daear ym mhob un o'r safleoedd BVS ac AGI arfaethedig. Pa wybodaeth arolwg/ monitro dŵr daear a gynigir i ddeall unrhyw berygl posibl o lifogydd dŵr daear i lywio'r dyluniad draenio manwl? ii) Amlygodd y cam ymgynghori statudol berygl llifogydd carthffosydd mewnol ac allanol yn Chester Road, Pentre a Leaches Lane, Mancot o ganlyniad i ddiffyg capasiti hydrologig. Yn ogystal, mae perygl a nodwyd o lifogydd allanol yn yr ardal cod post CH5

ExQ1: 27 Mawrth 2023**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Terfyn Amser 1: Dydd Llun 17 Ebrill 2023**

ExQ1	Cwestiwn ar gyfer:	Cwestiwn:
		<p>3HJ (Blackbrook Avenue, Penarlâg). Sut mae'r risgiau penodol hynny wedi cael eu hystyried/ lliniaru gan y cynllun?</p> <p>iii) A all yr Ymgeisydd gadarnhau a ellir cyflwyno Cynllun Rheoli Dad-ddyfrio a Chynllun Rheoli a Monitro Dŵr Daear i lywio'r Archwiliad?</p> <ul style="list-style-type: none"> • Yr Ymgeisydd ac IPs <p>iv) Disgwylir dad-ddyfrio sylweddol gerllaw Afon Gowy a'r Draen Canolog Gorllewinol. Mae'r rhain yng nghyrrff dŵr wyneb WFD Gowy a Chorsydd Ince. A oes gan IPs unrhyw sylwadau i'w gwneud ar yr agwedd honno neu unrhyw agwedd arall ar y cynnig? A ellir sicrhau unrhyw fuddion ecolegol cysylltiedig ar yr un pryd â delio â materion rheoli perygl llifogydd sy'n codi?</p>
Q1.10.5	<i>Perygl Llifogydd</i> Yr Ymgeisydd	<ul style="list-style-type: none"> • Mae Atodiad 18.5 - FCA [APP-168] Paragraff 7.1.6. yn datgan bod y Biblinell CO₂ Newydd yn croesi ardaloedd lle y ceir perygl isel, canolig ac uchel o ddŵr daear yn dod i'r amlwg a pherygl llifogydd. Y ddwy brif effaith bosibl sy'n gysylltiedig â dŵr daear sy'n dod i'r amlwg yw ffurfio llwybrau llif dŵr daear blaenoriaethol trwy wely'r bibell a deunydd amgylchynol y biblinell arfaethedig (ar ôl adeiladu) a hefyd perygl hynofedd y pibwaith claddedig arfaethedig. Cynigir lliniaru'r risgiau hyn trwy weithredu mesurau i atal dŵr daear rhag mudo, e.e. plygiau clai yn rhan o adfer y ffosydd arfaethedig a dileu perygl hynofedd trwy'r dyluniad mewn ardaloedd allweddol lle y ceir pryder y gallai dŵr daear ddod i'r amlwg. <p>A all yr Ymgeisydd gadarnhau a fyddai'r mesurau lliniaru y nodwyd y byddent yn cael eu darparu yn y strategaeth ddraenio fanwl a'r dyluniad draenio manwl yn cynnwys safbwyntiau'r LLFA a'r SDSAB yn FCC; CWCC; yn ogystal â Dŵr Cymru ac United Utilities? Yn ogystal, trwy ba ofyniad yn y DCO y bwriedir i'r manylion hyn gael eu sicrhau?</p> <p>Gallai unrhyw faterion lliniaru perygl llifogydd posibl fod yn gysylltiedig â chadernid y REAC [APP-222], y Cynllun Rheoli Tirwedd ac Ecoleg Amlinellol/ LEMP [APP-178] [APP-229] [APP-230] a/ neu'r OMEMP. Sut mae peryglon llifogydd wedi cael eu hystyried yn y cynlluniau hynny yn yr ardaloedd risg perthnasol y cyfeiriwyd atynt gan yr FCA, yn enwedig pe byddai'r tir cyfagos yn mynd yn fwy soeglyd yn y dyfodol?</p>
Q1.10.6	<i>Diweddariad</i> Yr Ymgeisydd	<ul style="list-style-type: none"> • O ystyried Atodiad 18.3 Aseiad WFD [APP-165] a gyflwynwyd. O ran defnyddio dulliau croesi di-ffos gan y cynllun, y tri math o dechneg gosod di-ffos y dywedwyd eu bod yn fwyaf tebygol o gael eu defnyddio gan y Contractwr/ Contractwyr Adeiladu pan fydd y

ExQ1	Cwestiwn ar gyfer:	Cwestiwn:
		<p>Dyluniad Manwl wedi'i gwblhau yw Drilio Cyfeiriadol Llorweddol (HDD), Taradr Tyllu wedi'i Dywys a Heb ei Dywys a Micro-Dwnelu.</p> <p>Nodwch:</p> <ul style="list-style-type: none"> i) os ydych yn disgwyl, am ba reswm bynnag, na fyddai unrhyw un o'r technegau croesi di-ffos a grybwyllwyd uchod yn ymarferol (h.y., pe na byddai technegau croesi di-ffos o'r fath yn opsiwn/ yn ymarferol mewn ardaloedd mawndir). ii) os nad ydynt yn ymarferol/ ar gael neu os byddant yn methu, nodwch ba dechnegau adeiladu eraill y gellid eu dewis, o bosibl.
Q1.10.7	<p><i>Yr Amgylchedd Dŵr</i> Yr Ymgeisydd ac IPs, gan gynnwys CNC, NE ac EA</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Yr Ymgeisydd <ul style="list-style-type: none"> i) A yw egwyddor cyflawni gwelliant ecolegol sylweddol neu fwy o BNG gan ddefnyddio'r amgylchedd morol alltraeth ehangach yn opsiwn ymarferol i'r Ymgeisydd? (h.y., a gyflawnir trwy'r Ardaloedd Morol Gwarchodedig sydd wedi'u sefydlu ar draws y Deyrnas Unedig y bwriedir iddynt, gyda'i gilydd, ffurfio 'rhwydwaith ecolegol gydlynol a reolir yn dda'). ii) A yw'r dull hwn wedi cael ei archwilio gyda JNCC ac ymgylgoreion statudol eraill? (h.y., ar gyfer Lloegr – NE; ac ar gyfer Cymru – CNC, ond y ddau ymgynghorai hyn ar gyfer Ardaloedd Morol Gwarchodedig mewn dyfroedd tiriogaethol?) iii) Nodir bod gan CNC dri rhanbarth basn afonydd yng Nghymru a bod gan bob un ei gynllun rheoli basn afonydd ei hun: <ul style="list-style-type: none"> - Rhanbarth Gorllewin Cymru – sy'n gyfan gwbl yng Nghymru; - Rhanbarth Afon Dyfrdwy – sy'n drawsffiniol â Lloegr; a - Rhanbarth Afon Hafren – sy'n drawsffiniol â Lloegr (a arweinir gan yr EA). <p>A yw'r Ymgeisydd yn cydnabod ac yn cytuno y gallai fod lle i gefnogi cynlluniau rheoli basnau afonydd trwy welliant posibl? A gynhaliwyd trafodaethau pellach â CNC neu'r EA i gefnogi buddiannau rheoli basnau afonydd?</p> iv) Mae atodiad 18.3 yr Aseiad WFD yn datgan y byddai clirio llystyfiant glannau afon yn cael ei gyfyngu cyn belled ag y bo'n ymarferol i'r ardaloedd adeiladu uniongyrchol er mwyn gallu gwneud y gwaith. Byddai llystyfiant yn cael ei adfer ar ôl adeiladu cyn belled ag y bo'n ymarferol. Cadarnhewch y dull DCO a fyddai'n sicrhau hynny. • Yr Ymgeisydd ac IPs

ExQ1: 27 Mawrth 2023**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Terfyn Amser 1: Dydd Llun 17 Ebrill 2023**

ExQ1	Cwestiwn ar gyfer:	Cwestiwn:
		<p>v) Disgwylir i lystyfiant gael ei glirio o fewn cyrff dŵr wyneb WFD Mersey, Corsydd Ince, Gowy, Nant Stanney Mill, Finchetts Gutter, Draen Garden City, Draen Sandycroft, Nant Gwepa, Afon Dyfrdwy (Gogledd Cymru), a Gogledd Cymru. Yn ogystal, disgwylir dad-ddyfrio sylweddol gerllaw Afon Gowy a'r Draen Canolog Gorllewinol. Mae'r rhain yng nghyrrff dŵr wyneb WFD Gowy a Chorsydd Ince. Cadarnhewch y ddarpariaeth drwyddedu sy'n ofynnol ar gyfer y gwaith penodol a restrir uchod.</p>
Q1.10.8	<p><i>Yr Amgylchedd Dŵr</i> Yr Ymgeisydd ac IPs, gan gynnwys CNC ac NE</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Er mwyn rhoi cyd-destun i'r Archwiliad, mae Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021 wedi disodli'r gofynion Parth Perygl Nitradau. Mae'r rheoliadau'n nodi bod rhaid i storfa newydd neu a newidir yn sylweddol: <ul style="list-style-type: none"> - ddilyn y rheolau penodol ar gyfer y math o sylwedd sy'n cael ei storio. - bod â rhychwant oes disgwylidig o 20 mlynedd o leiaf gyda chynnal a chadw (mae'n rhaid i unrhyw ran o system elifion silwair sydd o dan y ddaear gael ei dylunio a'i hadeiladu i bara o leiaf 20 mlynedd heb gynnal a chadw). - peidio â bod o fewn 10 metr o unrhyw ddyfroedd mewndirol ac arfordirol, e.e. nentydd, ffosydd, pyllau neu unrhyw bibellau neu gwlfertau. - peidio â bod o fewn 50 metr o unrhyw dwll turio, ffynnon neu darddell. - peidio â bod o fewn parth 1 amddiffyn ffynhonnell dŵr daear oni bai bod mesurau lliniaru penodol i'r safle sy'n lleihau'r perygl i gyflenwadau dŵr yfed i'r eithaf wedi cael eu cytuno'n ysgrifenedig gyda CNC. <p>Mae'r ExA hefyd yn nodi bod NE wedi diweddarau ei gyngor yn ddiweddar (16 Mawrth 2022) mewn perthynas â llygredd lefel maethynnau mewn nifer o ddalgylchoedd basn afonydd presennol a newydd. Mae'r cyngor yn canfod yr ystyrir bod nifer gynyddol o gyrff dŵr, o fewn Safleoedd Ewropeaidd neu'n gysylltiedig â nhw, o statws cadwraeth 'anffafriol' bellach at ddibenion y Rheoliadau Cynefinoedd. Mae hyn yn debygol o olygu y bydd angen i hyd yn oed mwy o gynlluniau a phrosiectau, mewn dalgylchoedd basn afonydd perthnasol ac yn agos i safle Ewropeaidd, gael eu sgrinio yn unol â'r Rheoliadau Cynefinoedd. Y canlyniad tebygol yw y bydd angen mwy o Aseidiadau Priodol ac ystyried gwybodaeth berthnasol. Mae'r cyngor gan NE hefyd yn cadarnhau bod yr offer sydd ar gael i lywio'r asesiad o effeithiau wedi cael eu diweddarau. Mae'r cyngor hefyd yn berthnasol i CNC (ar gyfer safleoedd trawsffiniol).</p>

ExQ1: 27 Mawrth 2023**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Terfyn Amser 1: Dydd Llun 17 Ebrill 2023**

ExQ1	Cwestiwn ar gyfer:	Cwestiwn:
		<p>Mae'r ExA yn nodi ymhellach y bydd angen i awdurdodau cymwys gyfiawnhau'n ofalus sut y sicrhau na fydd mewnbynnau ychwanegol o gynlluniau neu brosiectau newydd, naill ai'n unigol neu ar y cyd, yn cael effaith niweidiol ar gyfanrwydd y safle o ystyried yr amcanion cadwraeth.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Yr Ymgeisydd ac IPs A wnaiff: <ul style="list-style-type: none"> i) yr Ymgeisydd gadarnhau ei fod yn cydnabod cyngor diwygiedig CNC/ NE; ii) yr Ymgeisydd ac IPs gynghori p'un a ydynt yn ystyried bod digon o wybodaeth gefndir ar gael i fesur effeithiau dilynol ar ansawdd dŵr. <p>Yn ogystal â'r uchod, mae'r ExA yn nodi bod defnyddiau tir sensitif a amlygwyd o fewn neu o fewn 250m o Rannau 4, 5 a 6 yn cynnwys SoDdGA, ac ACA a choetir hynafol dynodedig. At hynny, mae'r amgylchedd dŵr lleol yn rhyng-gysylltiedig. Nid yw effeithiau ar ddŵr wyneb a dŵr daear yn ystod adeiladu wedi'u lliniaru ar hyn o bryd gan fod yr Ymgeisydd yn nodi y byddai ymchwiliadau safle penodol ychwanegol a strategaeth adfer ar gyfer ffynonellau pwynt yn cael eu cynnal pe byddai angen. Mae'r ExA yn gofyn i'r Ymgeisydd ac IPs sut mae'r dull hwnnw'n sicrhau bod yr effeithiau ar safleoedd Ewropeaidd a'r mesurau diogelu ar eu cyfer yn gallu bodloni gofynion HRA?</p>
Q1.10.9	<p><i>Yr Amgylchedd Dŵr</i> Yr Ymgeisydd ac IPs, gan gynnwys WW, United Utilities ac EA</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Yr Ymgeisydd O ran ansawdd ac adnoddau dŵr daear, esboniwch ba ddulliau sydd/ a fyddai ar waith i sicrhau na ellir rhanddirymu unrhyw gyflenwad dŵr preifat oherwydd y gwaith neu weithredu'r cynllun, hyd yn oed dros dro, heb ganiatâd ysgrifenedig y perchennog o flaen llaw a darparu mesurau lliniaru? O ran effeithiau posibl yn ystod adeiladu ac unrhyw weithgarwch HDD arfaethedig, eglurwch ba ymchwiliadau, asesiadau, dulliau a gofynion ymgynghori sydd i'w sicrhau i wneud yn siŵr na fydd gwaith HDD yn achosi risg i adnoddau dŵr daear. • IPs Gwahoddir eich sylwadau ynglŷn â'r uchod.
Q1.10.10	<p><i>Yr Amgylchedd Dŵr</i> IPs, gan gynnwys CNC, WW, United Utilities, CWCC a FCC</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r Asesiad WFD [APP-165] a'r Cynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu Amlinellol [APP-225] a gyflwynwyd yn nodi y byddai'r holl strwythurau parhaol newydd yn sefyll yn ôl oddi wrth gyrsiau dŵr, gan gynnwys gollyngfeydd, er mwyn osgoi addasiadau i'r cyrsiau dŵr eu hunain.

ExQ1	Cwestiwn ar gyfer:	Cwestiwn:
	<p>Yr Ymgeisydd</p>	<p>IPs</p> <ul style="list-style-type: none"> Gan ystyried unrhyw gyrsiau dŵr, gollyngfeydd neu anghysondebau hydroddaearegol sy'n hysbys yn lleol a allai fod yn amlwg; a yw IPs yn cytuno y byddai dull yr Ymgeisydd a fanylir yn [APP-165] ac [APP-225] yn bosibl? <p>Mae paragraff 7.1.7 yr Asesiad WFD [APP-165] yn datgan bod Datblygiad Arfaethedig y DCO wedi cael ei asesu a daethpwyd i'r casgliad na fyddai'n cael unrhyw effaith ar gyrff dŵr WFD Dyfrhaenau Tywodfaen Permo-Driasig Wirral a Gorllewin Swydd Gaer, Tywodfaen Permo-Driasig Afon Dyfrdwy, Cystradau Glo Carbonifferaidd Afon Dyfrdwy a Dŵr Daear Calchfaen Carbonifferaidd Clwyd. A yw'r IPs yn cytuno â'r casgliad hwnnw? Os na, rhowch eich rhesymau.</p> <p>Mae'r Ymgeisydd yn datgan mai amcanion Datblygiad Arfaethedig y DCO yw adfer cynefinoedd lle y bo'n ymarferol. Lle y byddai effaith ar gyrsiau dŵr a llystyfiant glannau afonydd, byddent yn cael eu hadfer ar ôl adeiladu a byddai'r rhan fwyaf o gyrsiau dŵr yn adfer o fewn dwy flynedd. Yr eithriad i hyn yw pan fyddai gorchudd coed aeddfed yn cael ei waredu yn y parth glan afon. Felly, cynigir gwelliannau i lannau afonydd i liniaru'r effeithiau hynny. Cynigir gwelliannau i lannau afonydd yn y mannau canlynol: y Draen Canolog Dwyreiniol; Isafon Finchetts Gutter; Nant Backford; Ffos Friars Park; a Nant Alltami. A ddylai unrhyw ardaloedd eraill gael eu hystyried? Os felly, nodwch pam.</p> <p>Yr Ymgeisydd</p> <ul style="list-style-type: none"> Mae paragraff 7.14 yr Asesiad WFD [APP-165] yn datgan y gallai'r gwelliannau i lannau afonydd arwain at wella'r Sgôr Cyflwr Afon ar gyfer y cyrsiau dŵr hynny pan fydd y gorchudd coed wedi'i sefydlu. Yn ogystal, cynigir ychwanegu at raean yn Nant Alltami i wrthbwysu'r gostyngiad posibl mewn cynefin silio a chyflwyno deunydd gwely artiffisial. A all yr Ymgeisydd esbonio ymhellach beth a olygir gan ychwanegu at raean a'i oblygiadau i reoli silt cwrs dŵr? A faint o ddeunydd gwely artiffisial a ddisgwyllir? Nodwch gyfaint a hyd y nant yr effeithir arni yn ogystal â'r deunyddiau y disgwyllir eu defnyddio. <p>A ystyriwyd cynnwys dalfeydd carbon naturiol neu barthau adfywio ocsigen dŵr ychwanegol (neu rai tebyg) i hybu fflora a ffawna mewn lleoliadau ar hyd cyrsiau dŵr? Os na, nodwch pam.</p>

ExQ1: 27 Mawrth 2023**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Terfyn Amser 1: Dydd Llun 17 Ebrill 2023**

ExQ1	Cwestiwn ar gyfer:	Cwestiwn:
		<p>Mae'r EA [RR-024] yn cefnogi cynhyrchu Cynllun Rheoli Dad-ddyfrio a Chynllun Rheoli a Monitro Dŵr Daear. Mae'n dymuno bod yn ymgynghorai o ran cymeradwyo'r cynlluniau hyn. A all yr Ymgeisydd gadarnhau'r ddarpariaeth yn y DCO lle mae cais yr EA wedi cael ei sicrhau.</p>
Q1.10.11	<p><i>Yr Amgylchedd Dŵr</i> Yr Ymgeisydd, CNC ac EA</p>	<ul style="list-style-type: none"> Nodir nad yw Rhan 6 y Ffin Adeiladu Seilwaith Newydd a gynigir gan y DCO o fewn parth gwarchod dŵr daear. Cadarnhewch ba rannau o'r biblinell a fyddai wedi'u lleoli o fewn parthau gwarchod dŵr daear.
Q1.10.12	<p><i>Trwyddedau</i> Yr Ymgeisydd ac IPs, gan gynnwys CNC, EA, CWCC a FCC</p>	<ul style="list-style-type: none"> Mae'r ExA yn nodi: <ul style="list-style-type: none"> Efallai y bydd angen trwydded drosglwyddo neu drwydded Gronni os bydd angen strwythur dros dro neu barhaol sy'n cyfyngu ar lif dyfrffordd/ cwrs dŵr. Efallai y bydd angen Trwydded Amgylcheddol ar gyfer mewnfario a thrin deunydd gwastraff sydd y tu allan i'r cwrpas neu'r terfynau a fanylir yn yr ES. O ran unrhyw 'Ddeunyddiau Gwastraff' a gynhyrchir, yr awdurdod cydsynio ar gyfer rhai trwyddedau offer symudol (fel malwyr concrit) yw'r awdurdod lleol perthnasol, ac felly dylid ei restru ynghyd â'r corff cyhoeddus cenedlaethol perthnasol yn y DCO drafft os disgwylir darpariaeth o'r fath. Yr Ymgeisydd: Rhwng eglurhad a diweddariad ynglŷn â'r materion hyn, lle y bo'n berthnasol; IPs: Gwahoddir sylwadau ynglŷn â'r uchod.
Q1.10.13	<p><i>Trwyddedau</i> Yr Ymgeisydd</p>	<ul style="list-style-type: none"> Mae'r ddogfen 'Cydsyniadau a Thrwyddedau Eraill' a gyflwynwyd [APP-046] yn datgan y dylid gwneud cais i CNC am Drwydded Forol ac i Ddŵr Cymru am Gais Carthffos Dŵr Budr, ar ôl cyflwyno'r DCO a chyn y penderfyniad. Yn ogystal, nodir y ceir gwneud cais i CNC am Drwydded Tynnu Dŵr ar ôl cyflwyno'r cais DCO. A wnaiff yr Ymgeisydd: <ol style="list-style-type: none"> roi diweddariad ar gynnydd y ceisiadau hyn ac unrhyw gydsyniadau, trwyddedau a hawlenni eraill fel y bo'n berthnasol; ac esbonio'r sail i'w ddull yn hyn o beth.

ExQ1: 27 Mawrth 2023**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Terfyn Amser 1: Dydd Llun 17 Ebrill 2023**

ExQ1	Cwestiwn ar gyfer:	Cwestiwn:
Q1.10.14	<i>Materion sy'n weddill</i> IPs, gan gynnwys CWCC, FCC, CNC, EA, WW ac United Utilities	<ul style="list-style-type: none">Rhowch eich sylwadau ar unrhyw faterion sy'n weddill yn ymwneud â halogiad tir neu lygredd os nad ydych eisoes wedi gwneud hynny.
Q1.10.15	<i>Cyd-destun</i> Yr Ymgeisydd	<ul style="list-style-type: none">Mae'r ExA yn nodi bod pwynt terfyn y biblinell a fanylir yn natblygiad arfaethedig y DCO yr ymgeisir amdano ar hyn o bryd yn gorffen ar y tir. Mae prosesau cydsynio ychwanegol yn berthnasol/ yn ddisgwyliedig er mwyn i bwynt terfyn y biblinell gyrraedd y cyfleuster storio tanddaear yn y pen draw, sydd wedi'i leoli yn y môr. Mae Pennod 2 yr ES – Y Prosiect [APP-054] Paragraff 2.1.5 yn datgan y bydd rhwydwaith arfaethedig o biblinellau tanddaear ar y tir ac wedi'u claddu o dan y dŵr yn cludo'r CO₂ a gynhyrchir ac a ddelir gan gyfleusterau cynhyrchu hydrogen yn y dyfodol a safleoedd diwydiannol presennol yng Ngogledd-orllewin Lloegr a Gogledd Cymru i'w storio'n barhaol ar y môr. Er mwyn rhoi cyd-destun i lywio'r Archwiliad: - i) Rhowch amlinelliad o'r broses gydsynio lawn sy'n angenrheidiol ar gyfer y rhan o'r cynllun a ddisgwyliar o bwynt terfyn y DCO ar y tir i'r cyfleuster storio ar y môr. ii) Sut bydd CO₂ yn adweithio dros amser ar ôl iddo gael ei roi mewn cyfleuster storio tanddaear? A fydd ei gyfansoddiad ffisegol yn newid mewn unrhyw ffordd arwyddocaol? Er enghraifft, a fyddai'n amsugno i'r craigwely neu ffurfiau daearegol eraill? iii) Beth yw cyfanswm capasiti cyffredinol y storfa danddaear a ddisgwyliar? A ellir rhoi amcangyfrif o nifer y blynyddoedd y gallai'r cyfleuster storio (cyfan) fod yn weithredol? iv) Beth yw'r rhesymau penodol pam na wnaed cais am ddatblygiad arfaethedig y DCO fel prosiect piblinell o'r dechrau i'r diwedd yn hytrach nag fel elfennau ar wahân? v) Os bydd llwybr y biblinell yn cael ei rwystro neu'n mynd yn anweithredol am gyfnodau sylweddol, sut bydd carbon yn cael ei ddal a'i storio ar y tir? Er enghraifft,

ExQ1: 27 Mawrth 2023**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Terfyn Amser 1: Dydd Llun 17 Ebrill 2023**

ExQ1	Cwestiwn ar gyfer:	Cwestiwn:
		a ddisgwylir rhywfaint o gapasiti dal a storio carbon dros dro ar y tir yn y tymor byr? Sut mae'r DCO yn ymdrin â risgiau o'r fath?
Q1.10.16	<i>Cwmpasu</i> Yr Ymgeisydd	<ul style="list-style-type: none"> Mae Pennod 11 (Tir a Phriddoedd) yr ES [APP-063] ym Mharagraff 11.4.3 yn rhestru'r elfennau a gynhwyswyd yn yr asesiad, sydd wedi'u nodi. Fodd bynnag, mae'r ExA yn gofyn p'un a ddylai'r effaith arwyddocaol debygol a restrir yn y cyfnod gweithredu sy'n ymwneud â "Newidiadau i lefelau'r safle..." gael ei hystyried yn effaith arwyddocaol debygol yn ystod cyfnod adeiladu'r Datblygiad Arfaethedig hefyd, ac os na, pam.
Q1.10.17	<i>Ordnans Heb Ffrwydro</i> Yr Ymgeisydd ac Awdurdodau Lleol Perthnasol (CWCC a FCC).	<ul style="list-style-type: none"> Mae Pennod 11 (Tir a Phriddoedd) yr ES [APP-063] yn nodi na amlygwyd 'unrhyw ffynhonnell arwyddocaol ordnans heb ffrwydro' (Paragraff 11.6.25), ond mae'n argymhell bod sesiynau briffio ffurfiol ynglŷn ag ymwybyddiaeth o ordnans heb ffrwydro yn cael eu rhoi i'r holl bersonél sy'n ymwneud â chloddiau. Mae hefyd yn nodi y bydd asesiad ordnans heb ffrwydro wedi'i ddiweddarau yn cael ei gynhyrchu cyn dechrau adeiladu. Byddai'r ExA yn gofyn: i) sut dylai'r mesurau hyn gael eu sicrhau; a ii) p'un a ddylai asesiadau o'r fath gael eu cyflwyno i gorff priodol a'u cymeradwyo ganddo'n ysgrifenedig.
Q1.10.18	<i>Mwyngloddio ac ymchwiliadau pellach</i> Yr Ymgeisydd	<ul style="list-style-type: none"> Mae paragraff 11.6.44 Pennod 11 (Tir a Phriddoedd) yr ES [APP-063] yn nodi bod dau Adroddiad yr Ymgynghorydd Mwyngloddio yn dod i'r casgliad bod angen ymchwilio ymhellach. Mae'r paragraff hwn hefyd yn nodi bod rhan ddwyreiniol Rhan 5 yn agos i ardaloedd a ymchwiliwyd ac a adferwyd yn flaenorol o ganlyniad i adroddiadau peryglon penodol, ac mae'n argymhell y dylai ymchwiliadau pellach ynglŷn â'r peryglon hyn gael eu cynnal yn ystod unrhyw ymchwiliadau tir ychwanegol. Mae'r ExA yn gofyn: <ul style="list-style-type: none"> i) A yw Adroddiadau'r Ymgynghorydd Mwyngloddio, y cyfeirir atynt uchod, yr un fath â'r Asesiad Risg Mwyngloddio (Rhannau 1 i 10 yn gynnwysedig) ([APP-121] i [APP-130]) a gyflwynwyd yn rhan o Ddogfennau'r Cais DCO? Os na, cyfeiriwch yr ExA at ble y gellir dod o hyd i Adroddiadau'r Ymgynghorydd Mwyngloddio yn nogfennau'r Cais a gyflwynwyd. ii) Pryd bydd yr ymchwiliadau pellach a argymhellir yn cael eu cynnal ac a fyddant yn cael eu cyflwyno i'r Archwiliad?
Q1.10.19	<i>Mwyngloddio plwm a risgiau halogiad</i>	<ul style="list-style-type: none"> Mae Pennod 11 (Tir a Phriddoedd) yr ES [APP-063] yn cyfeirio at gyn-fwyngloddio plwm a'r potensial ar gyfer halogiad tir yng nghyffiniau BVSs Babell a Phentre Helygain. Fodd bynnag, nid yw'r ExA wedi gallu dod o hyd i unrhyw gyfeiriad arall at risgiau halogiad

ExQ1: 27 Mawrth 2023**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Terfyn Amser 1: Dydd Llun 17 Ebrill 2023**

ExQ1	Cwestiwn ar gyfer:	Cwestiwn:
	yr Ymgeisydd	o'r fath a mesurau lliniaru a gynigir yn nogfennau Cais y DCO a gyflwynwyd. Fel y cyfryw, a wnewch chi gyfeirio at ble y darparwyd y gyfryw wybodaeth yn nogfennau Cais y DCO neu gyflwyno gwybodaeth ynglŷn â sut y bydd risgiau o'r fath yn cael eu lliniaru.
Q1.10.20	<i>Cyfarpar diogelu personol</i> Yr Ymgeisydd	<ul style="list-style-type: none"> A fydd angen unrhyw gyfarpar diogelu personol anghyffredin o ganlyniad i berygl halogiad plwm?
Q1.10.21	<i>Carbonau organig anweddol iawn</i> CWCC	<ul style="list-style-type: none"> Mae paragraff 11.6.112 Pennod 11 (Tir a Phriddoedd) yr ES [APP-063] yn amlygu canlyniad carbon organig anweddol iawn o fewn cyfadeilad gweithgynhyrchu Stanlow ac yn nodi y bydd angen asesu pellach. Nodir hefyd y bydd gwaith ymchwilio tir ychwanegol yn cael ei gynnal cyn adeiladu. Byddai'r ExA yn gofyn p'un a yw'n briodol i'r gwaith ymchwilio tir ychwanegol gael ei gynnal cyn adeiladu ac, os na, pryd y dylai gwaith ymchwilio tir ychwanegol o'r fath gael ei gynnal.
Q1.10.22	<i>Siaffftiau mwyngloddio hanesyddol neu weithfeydd bas</i> Yr Ymgeisydd	<ul style="list-style-type: none"> Mae'r ExA yn nodi Pennod 11 (Tir a Phriddoedd) yr ES [APP-063] paragraff 11.8.5 ac y bydd y biblinell yn cael ei llwybro "...i osgoi siaffftiau mwyngloddio hanesyddol neu weithfeydd bas posibl a amlygwyd gan yr Awdurdod Glo..." Fodd bynnag, byddai'r ExA yn gofyn sut gall yr Ymgeisydd fod yn siŵr ei fod yn osgoi siaffftiau mwyngloddio a gweithfeydd bas o'r fath a beth fyddai'n digwydd pe byddai siafft(iau) mwyngloddio neu weithfeydd bas anhysbys yn cael eu hamlygu yn ystod adeiladu.
11. Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd		
Q1.11.1	NE a CNC	<ul style="list-style-type: none"> Nid yw NE wedi gwneud unrhyw sylwadau ar asesiad yr Ymgeisydd o effeithiau ar ACA Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid nac ACA Safleoedd Madfallod Glannau Afon Dyfrdwy a Bwcle. A all NE gadarnhau p'un a yw'n cytuno â chasgliadau'r Ymgeisydd a gyflwynir yn [APP-226] mewn perthynas â'r safleoedd hyn? Nid yw CNC wedi amlygu unrhyw bryderon mewn perthynas ag asesiad yr Ymgeisydd o effeithiau ar ACA Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid, ACA Mynydd Helygain ac ACA Coedwigoedd Dyffryn Alun. A all CNC gadarnhau p'un a yw'n cytuno â chasgliadau'r Ymgeisydd mewn perthynas â'r safleoedd hyn?
Q1.11.2	NE a CNC	<ul style="list-style-type: none"> A yw asesiad yr Ymgeisydd o effeithiau ar safleoedd Ewropeaidd yn amlygu'r holl safleoedd a nodweddion cymwys perthnasol y gallai'r Datblygiad Arfaethedig effeithio arnynt?

ExQ1: 27 Mawrth 2023**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Terfyn Amser 1: Dydd Llun 17 Ebrill 2023**

ExQ1	Cwestiwn ar gyfer:	Cwestiwn:
		Cadarnhewch ai'r amcanion cadwraeth a gyflwynir yn Atodiad A [APP-226] yw'r rhai cywir ar gyfer y safleoedd yr ymdrinnir â nhw yn asesiad yr Ymgeisydd o effeithiau ar safleoedd Ewropeaidd.
Q1.11.3	Yr Ymgeisydd	<ul style="list-style-type: none"> Nodir bod y DCO drafft yn cyfeirio at ddatgomisiynu, ond nid yw'r effeithiau ar safleoedd Ewropeaidd yn cael eu hasesu yn [APP-226]. Gofynnir i'r Ymgeisydd ddarparu adroddiad HRA wedi'i ddiweddarau sy'n mynd i'r afael â hyn. O ran effeithiau ar y cyd ar safleoedd Ewropeaidd, a all yr Ymgeisydd gadarnhau a oes unrhyw ddiweddariadau a ddisgwylir i'w asesiad ar y cyd?
Q1.11.4	<i>Methodoleg</i> Yr Ymgeisydd ac IPs, gan gynnwys: CWCC; FCC; NE a CNC	<ul style="list-style-type: none"> HRA – Mae'r wybodaeth i lywio asesiad priodol [APP-226] yn nodi bod 9 safle Ewropeaidd o fewn 10km o ardal datblygiad arfaethedig y DCO: <ul style="list-style-type: none"> i) ACA Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid. ii) ACA Safleoedd Madfallod Glannau Afon Dyfrdwy a Bwcle (yn union gerllaw ardal datblygiad arfaethedig y DCO). iii) ACA Mynydd Helygain (400m i'r gogledd yn ei man agosaf). iv) AGA Aber Afon Mersey (tua 1.05km i'r gogledd). v) Safle Ramsar Aber Afon Mersey (tua 1.05km i'r gogledd). vi) ACA Aber Afon Dyfrdwy (tua 1.2km i'r gogledd). vii) AGA Aber Afon Dyfrdwy (tua 1.2km i'r gogledd). viii) Safle Ramsar Aber Afon Dyfrdwy (tua 1.2km i'r gogledd). ix) ACA Coedwigoedd Dyffryn Alun (tua 6km i'r de-orllewin). IPs A yw IPs yn cytuno â'r rhestr ac yn cytuno nad oes unrhyw hepgoriadau at ddibenion asesiad ffurfiol? A yw'r Ymgeisydd wedi mynd i'r afael yn briodol â nodweddion diffiniol yr holl safleoedd Ewropeaidd? Yr Ymgeisydd Mae'n ymddangos bod sianel lif Afon Dyfrdwy yn mynd tuag at, o amgylch a'r tu ôl i Ynys Hilbre. I ble mae'r ffin AGA/ Ramsar ar gyfer Aber Afon Dyfrdwy yn mynd yn ffurfiol? A ellir darparu/ cyfeirio at gynllun o ffiniau'r AGA yn berthynol i lwybr y biblinell?

ExQ1: 27 Mawrth 2023**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Terfyn Amser 1: Dydd Llun 17 Ebrill 2023**

ExQ1	Cwestiwn ar gyfer:	Cwestiwn:
Q1.11.5	<i>Mesurau Lliniaru</i> Yr Ymgeisydd ac IPs, gan gynnwys CWCC a FCC	<ul style="list-style-type: none"> Mae'r ExA yn cydnabod bod yr Ymgeisydd yn cynnig y byddai'r REAC [APP-222] yn cael ei sicrhau a'i weithredu o fewn y CEMP (darperir CEMP Amlinellol [APP-226]). Mae'r mesurau lliniaru cyffredinol y cyfeirir atynt yn cynnwys arfer gorau i reoli llwch sy'n codi o brosesau adeiladu. Pa 'arfer gorau' yr ymdrinnir ag ef a beth fyddai'n ei gynnwys? A oes unrhyw arfer gorau a ddefnyddir yn lleol sy'n gymwys/ yn berthnasol yn yr ardaloedd gweinyddol unigol?
Q1.11.6	<i>Mesurau Lliniaru</i> Yr Ymgeisydd ac IPs, gan gynnwys CWCC a FCC	<ul style="list-style-type: none"> Cyfeirir at fesurau yn yr ES sy'n ceisio atal dyfrgwn rhag cael eu dal mewn pibellau. Sut bydd y mesurau hyn yn cael eu gwneud yn gydnaws â'r mesurau lliniaru a awgrymir ar gyfer diogelwch cyffredinol a manylion technegol draenio? Yn ogystal, a ddisgwylir unrhyw gyfyngiadau technegol ychwanegol yng ngoleuni'r ddarpariaeth ychwanegol hon?
Q1.11.7	<i>Mesurau Lliniaru/ Gwella</i> Yr Ymgeisydd ac IPs, gan gynnwys CWCC a FCC	<ul style="list-style-type: none"> Mae'r ExA yn nodi, o ran Gwelliannau Bioamrywiaeth, bod Polisi Cynllunio Cymru 10 yn datgan "rhaid i awdurdodau cynllunio geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth wrth arfer eu swyddogaethau." Mae hyn yn golygu na ddylai datblygiad arwain at unrhyw golled sylweddol o gynefinoedd na phoblogaethau o rywogaethau, yn lleol nac yn genedlaethol, a bod rhaid iddo ddarparu budd net i fioamrywiaeth. Mae'r polisi hwn a pholisïau dilynol ym Mhennod 6 Polisi Cynllunio Cymru 10 yn ymateb i Ddyletswydd Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Yn unol â hynny, pa opsiynau sydd ar gael i ddarparu gwelliannau ecolegol mewn lleoliadau oddi ar y safle ar gyfer Cynefinoedd Blaenoriaeth neu gynefinoedd eraill, gan gynnwys amgylcheddau daearol a dyfrol?
Q1.11.8	<i>Mesurau Lliniaru/ Gwella</i> Yr Ymgeisydd ac IPs, gan gynnwys CWCC a FCC, CNC ac NE	<ul style="list-style-type: none"> Nodwch yn nogfennau'r ES (neu mewn man arall) ble mae strategaethau gwella neu adfer natur strategol lleol yn yr ardal ddaearyddol sy'n destun y DCO y gellid eu defnyddio, o bosibl, i ddarparu gwelliant ecolegol ychwanegol.
12. Tirwedd a Gwledol		
Q1.12.1	<i>Diweddariad</i>	<ul style="list-style-type: none"> A fu unrhyw newidiadau i'r amgylchedd adeiledig yng nghyffiniau'r tir sy'n destun cynllun gwella a gyflwynwyd ar hyn o bryd? Os felly, nodwch ble, ac ystyriwch a fyddai angen i'r cynlluniau a'r datganiadau gael eu diweddarau/ diwygio.

ExQ1: 27 Mawrth 2023**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Terfyn Amser 1: Dydd Llun 17 Ebrill 2023**

ExQ1	Cwestiwn ar gyfer:	Cwestiwn:
	Yr Ymgeisydd ac IPs, gan gynnwys CWCC a FCC	
Q1.12.2	<i>Diweddariad</i> Yr Ymgeisydd ac IPs, gan gynnwys CWCC	<ul style="list-style-type: none"> Ym Mhennod 12 – Tirwedd a Gweledol, mae Tabl 12.1 – Crynodeb o Ymgynghoriad a Gynhaliwyd yn amlygu mai'r Meysydd pryder i CWCC ar hyd llwybr y Biblinell CO₂ Newydd yw'r rhai hynny lle y byddai dull torri ffosydd agored yn effeithio ar lystyfiant ac yn arbennig coed aeddfed. Mae'r ExA yn rhannu'r pryderon hynny. <p>Er bod yr Ymgeisydd yn dweud y bydd hyn yn cael ei osgoi lle y bo'n bosibl trwy ficro-leoli'r llwybr a/ neu ddefnyddio dulliau twnelu, a all yr Ymgeisydd esbonio ymhellach, gan gyfeirio at elfennau eraill o'r ES, sut byddai'r effaith weledol yn cael ei lliniaru?</p> <p>A ellir cyflwyno cynllun sy'n dangos y manylion hyn er mwyn rhoi mwy o sicrwydd?</p>
Q1.12.3	<i>Diweddariad</i> Yr Ymgeisydd ac IPs, gan gynnwys CWCC a FCC	<ul style="list-style-type: none"> Yr Ymgeisydd ac IPs <ol style="list-style-type: none"> Cadarnhewch a ddisgwylir cynnal proses 'Adolygu Dyluniad' leol (neu unrhyw benderfyniad Gweithgor Cadwraeth/ Treftadaeth neu debyg) ar gyfer unrhyw agwedd ar y cynllun DCO a gynigir? Yr Ymgeisydd <ol style="list-style-type: none"> Esboniwch sut gallai unrhyw newid neu addasiad ymarferol i'r cynllun o ganlyniad i ystyriaethau/ sylwadau dylunio lleol gael ei gynnwys os bydd angen.
Q1.12.4	<i>Methodoleg</i> IPs, gan gynnwys Ymgymerywr Statudol	<ul style="list-style-type: none"> Mae Pennod 12 Tirwedd a Gweledol, Tabl 12.2 yn rhestru'r elfennau sydd wedi'u hepgor o'r asesiad. Mae hyn yn cynnwys cydnabyddiaeth y bydd angen i bob AGI, BVS a chabinet rheoli gael cysylltiad â'r rhwydwaith trydan lleol ar y pwyntiau cysylltu agosaf sy'n ymarferol. Ar gyfer yr EIA, tybir y byddai hynny trwy'r briffordd fabwysiedig agosaf. Byddai unrhyw waith cysylltu hyd at y pwynt hwnnw'n cael ei wneud trwy'r ymgymerywr statudol unigol, felly nid yw wedi'i gynnwys yn rhan o Ddatblygiad Arfaethedig y DCO. A yw ymgymerywr statudol yn cytuno bod defnyddio'r briffordd yn ymarferol? A yw IPs yn cytuno â'r elfennau a hepgorwyd? Os na, nodwch pam.
Q1.12.5	<i>Methodoleg</i> IPs	<ul style="list-style-type: none"> Mae Pennod 12 yr ES – Tirwedd a Gweledol yn nodi bod yr elfennau canlynol wedi cael eu cynnwys yn yr asesiad ar gyfer pob cam adeiladu, gweithredu a datgomisiynu:

ExQ1: 27 Mawrth 2023**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Terfyn Amser 1: Dydd Llun 17 Ebrill 2023**

ExQ1	Cwestiwn ar gyfer:	Cwestiwn:
		<ul style="list-style-type: none"> - Cymeriad y dirwedd ac amwynder gweledol preswylwyr a defnyddwyr hamdden o fewn Ardal Astudio 2km y Ffin Adeiladu Seilwaith Newydd; - Cymeriad y dirwedd ac amwynder gweledol preswylwyr a defnyddwyr hamdden o fewn Ardal Astudio 500m y tair BVS ar hyd Cysylltiad y Fflint i Biblinell Terfynfa PoA. <p>A yw IPs yn cytuno ag addasrwydd y trothwyon hynny? Os na, nodwch eich rhesymau.</p>
Q1.12.6	<p><i>Mesurau Lliniaru Gweddau AGIs/ BVIs</i></p> <p>Yr Ymgeisydd</p>	<ul style="list-style-type: none"> • O ystyried y Cynlluniau Gwedd/ Trefniant [APP-019] ac [APP-020] ar gyfer AGIs a'r BVIs [APP-016] ac [APP-017]:- <ol style="list-style-type: none"> i) Darparwch Gynlluniau Gwedd cywir sy'n adlewyrchu'r hyn a fanylir ar y Cynlluniau Trefniant. Ar hyn o bryd, mae'r Cynlluniau Gwedd yn dangos bod y safle a'r tir gerllaw yn wastad a lefel. Fodd bynnag, mae'r Cynlluniau Trefniant yn dangos yn glir y bydd angen i weithrediadau peirianegol greu arwyneb gwastad a lefel trwy dorri i'r tir/ creu arglawdd. Ni all hyn fod yn gywir, yn amlwg, a byddai'r ExA yn gofyn i'r cynlluniau gwedd gael eu diwygio i ddangos lefelau/ topograffeg y safleoedd AGI/ BVS arfaethedig a'r tir yn union gerllaw yn gywir. ii) Cadarnhewch ddeunyddiau gorffeniad allanol a lliw y ciosgau o fewn y BVIs. iii) Cadarnhewch liw y falfiau agored a'r ffens ar hyd y terfyn. A oes modd dewis gorffeniadau allanol enciliol sy'n cyd-fynd â'r gwyrddni amgylchynol? iv) O ran y ffens ar hyd y terfyn, faint o gyfle sydd i'w gwneud yn fwy atyniadol yn ogystal â sicrhau bod gofynion swyddogaethol yn cael eu bodloni? v) Yn yr un modd, a ellir defnyddio graean/ cerrig palmant lliw yn yr un ffordd ar gyfer ardaloedd agored? vi) Gan gydnabod y byddai'n cymryd amser i dirweddu newydd sefydlu, nodwch ba dirweddu cyflenwol sydd i'w ddefnyddio/ y gellid ei ddefnyddio ar hyd y terfyn i wneud y BVIs a'r AGIs yn fwy atyniadol o bellach i ffordd? vii) Esboniwch sut mae dewisiadau golwg yr AGI/ BVIs, gan gynnwys unrhyw fesurau lliniaru, yn adlewyrchu polisiau dylunio cenedlaethol a lleol presennol sy'n berthnasol i Gymru a Lloegr. viii) Cadarnhewch sut byddai manylion terfynol yr olwg allanol yn cael eu sicrhau gan y DCO.

ExQ1: 27 Mawrth 2023**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Terfyn Amser 1: Dydd Llun 17 Ebrill 2023**

ExQ1	Cwestiwn ar gyfer:	Cwestiwn:
		ix) Esboniwch sut mae cynnwys 'uchderau staciau' y cyfeirir atynt mewn prosesau awyrellu a lliniaru arogleuon wedi'u hystyried yn yr effeithiau arwyddocaol tebygol ar olwg yr ardal.
Q1.12.7	Yr Ymgeisydd	<ul style="list-style-type: none"> Dywedir ym Mhennod 19 yr ES Tabl 19.2 bod yr holl effeithiau adeiladu 'nad ydynt o dan y ddaear' ar dreftadaeth ddiwylliannol wedi cael eu hepgor o'r asesiad cronol oherwydd canfu'r asesiad treftadaeth ddiwylliannol y byddent yn ddibwys. Fodd bynnag, mae Pennod 8 yr ES yn nodi bod yr holl effeithiau gweddilliol ar dreftadaeth ddiwylliannol yn rhai niweidiol bach heblaw am un, y rhagfynegwyd y byddai'n profi effaith niweidiol gymedrol. Yn yr un modd, mae effeithiau gweledol cronol ym mlwyddyn weithredu 15 wedi'u hepgor yn Nhabl 19.2 ar y sail y byddent i gyd wedi cael eu lliniaru'n effeithiol erbyn hynny. Fodd bynnag, yn ôl yr asesiad a gynhwysir ym Mhennod 12 yr ES, rhagfynegir y bydd yr holl dderbynyddion amwynder gweledol, heblaw am ddau, yr amlygwyr effaith weddilliol ar eu cyfer, yn profi effaith niweidiol fach ym Mlwyddyn 15. A all yr Ymgeisydd esbonio'r anghysondebau a chyfiawnhau pam y gellir eithrio effeithiau cronol?
13. Adnoddau Mwynau		
Q1.13.1	<i>Cyffredinol</i> IPs, gan gynnwys FCC a CWCC	<ul style="list-style-type: none"> O ystyried asesiadau'r Ymgeisydd sydd wedi'u cynnwys yn Atodiad 11.3 Asesiad Adnoddau Mwynau – Rhannau 1 a 2 [APP-131] ac [APP-132], a oes unrhyw MSAs y mae'r DCO arfaethedig yn effeithio arnynt mewn ffordd nad yw eisoes wedi'i hystyried gan yr ES? Os felly, sut mae'r effaith yn wahanol i'r casgliadau y daethpwyd iddynt yn [APP-131] ac [APP-132]. Beth yw'r goblygiadau? Os yw'n berthnasol, amlygwch sut byddai unrhyw sterileiddio pellach o ardaloedd echdynnu mwynau na chyfrifir amdanynt (a ddiogelir yn ffurfiol neu fel arall) yn digwydd yn benodol. Awgrymwch unrhyw fesurau osgoi/ newid/ lliniaru sy'n angenrheidiol. A ddisgwylir/ a gynigir unrhyw MSAs newydd trwy gyfrwng diweddariad i'r cynllun neu unrhyw ddull arall? Amlygwch fanylion a statws unrhyw gynlluniau adfer ar gyfer ardaloedd mwynau sy'n berthnasol i ardal y DCO.

ExQ1: 27 Mawrth 2023**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Terfyn Amser 1: Dydd Llun 17 Ebrill 2023**

ExQ1	Cwestiwn ar gyfer:	Cwestiwn:
Q1.13.2	<i>Cyffredinol</i> IPs	<ul style="list-style-type: none"> Mae'r ES yn nodi bod gweithredwyr agregau trydydd parti (fel Tarmac a Hanson) wedi'u lleoli o fewn 10-15 milltir o rai MSAs y mae Datblygiad Arfaethedig y DCO yn eu rhyngdorri. A oes unrhyw sylwadau gan IPs ar unrhyw effeithiau uniongyrchol neu anuniongyrchol dilynol ar weithrediadau masnachol presennol sy'n digwydd yn yr ardal?
Q1.13.3	<i>Risgiau Mwyngloddio</i> Yr Ymgeisydd ac IPs, gan gynnwys FCC, CWCC a'r Awdurdod Glo	<ul style="list-style-type: none"> Mae Cyngor Cymuned Penarlâg [RR-038] yn dweud bod llawer o fwyngloddio (hanesyddol) wedi digwydd yn Sir y Fflint, ac felly bod nifer o siaffftiau pyllau (glo, haearn, plwm) yno, a bod y graig gysefin o dan y ddaeaereg ddrifft yn cynnwys llawer o ffawtiau. Mae'r ExA hefyd yn cydnabod y dangosir bod mwyngloddio hanesyddol yn bresennol ar draws rhan orllewinol llwybr y biblinell. Mae potensial ar gyfer gweithfeydd bas hanesyddol ar hyd Colliery Lane, Glannau Dyfrdwy, ar hyd y ffordd ac ymylon y ffordd ei hun. Mae hyn yn cynnwys ardaloedd i'r gorllewin o Gladstone Way lle'r oedd pwll glo brig yn bresennol yn flaenorol. Dangosir hefyd bod mwyngloddio hanesyddol sylweddol yn ardal Nant Alltami, y cafwyd cofnodion ohono. Mae asesiadau'r Ymgeisydd yn argymhell bod y biblinell yn cael ei llwybro i osgoi'r gweithfeydd hanesyddol hyn, er bod posibilrwydd bob amser o ddod ar draws gweithfeydd anhysbys ar draws yr ardal. Dangosir bod siaffftiau glo eraill wedi'u cofnodi gan yr Awdurdod Glo ar hyd y llwybr, ond ni welwyd unrhyw rai wrth gynnal arolygon o'r safle ar droed, ac felly ni wyddys sut mae'r rhain wedi cael eu capio a'u hôl-lenwi. Gyda'r uchod mewn golwg, sut byddai diogelwch pobl yn cael ei warchod yn ystod adeiladu o ystyried y peryglon posibl hynny? Yn ogystal â'r uchod, mae'r ExA yn nodi Asesiad Risg Glofaol yr Ymgeisydd, Rhan 1 [APP-121], sy'n datgan y dylai risg gweithfeydd bas posibl o amgylch Colliery Lane a Gladstone Way gael ei hystyried mewn unrhyw gynllun adeiladu ac y bydd ymchwiliad safle'n cael ei gynnal. Pryd byddai manylion y cynllun adeiladu a'r ymchwiliad safle ar gael? At hynny, mae'r ExA yn gofyn sut byddai/ dylai cyflwr tir annisgwyl gael ei drin os rhoddir caniatâd i'r DCO? A oes mesurau ymgynghori digonol wedi'u cynnwys yn y DCO o ran y mater hwn?

ExQ1: 27 Mawrth 2023**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Terfyn Amser 1: Dydd Llun 17 Ebrill 2023**

ExQ1	Cwestiwn ar gyfer:	Cwestiwn:
Q1.13.4	<i>Risgiau Seilwaith Ar Ôl Datblygu</i> Yr Ymgeisydd ac IPs, gan gynnwys FCC a CWCC	<ul style="list-style-type: none"> • Yr Ymgeisydd Mae'r ExA yn nodi bod yr ES yn datgan na fyddai echdynnu mwynau'n cael ei ganiatáu o fewn hawddfreintiau'r biblinell. A all yr Ymgeisydd esbonio dull(iau) penodol y DCO sy'n ymdrin â'r cyfyngiad hwnnw a graddau/ maint yr hawddfreintiau sy'n gysylltiedig? Mae'r ExA yn deall na fyddai mynediad uwchben y tir dros lwybr y biblinell yn cael ei gyfyngu gan y DCO o ystyried echdynnu mwynau presennol ac unrhyw echdynnu mwynau yn y dyfodol yn yr ardaloedd lleol dan sylw. Pa elfennau penodol o'r DCO sy'n caniatáu ar gyfer darparu mynediad posibl o'r fath yn y dyfodol? Neu a gyflawnir y ddarpariaeth trwy hepgor cyfyngiadau o'r fath yn unig? Eglurwch, os gwelwch yn dda. • IPs A fyddai caffael yr is-wyneb yn barhaol yn atal echdynnu mwynau yn rhywle arall?
14. Sŵn a Dirgryniad		
Q1.14.1	<i>Monitro</i> Yr Ymgeisydd ac IPs, gan gynnwys FCC a CWCC	<ul style="list-style-type: none"> • Yr Ymgeisydd <ol style="list-style-type: none"> i) Amlinellwch sut byddai trothwyon monitro'n cael eu hamlygu a'u gweithredu, a nodwch b'un a ddylai'r DCO gynnwys ymrwymiad i sicrhau mesurau unioni os bydd monitro'n amlygu lefelau sŵn a dirgryniad uwch na'r hyn a ragfynegwyd? ii) A all yr Ymgeisydd esbonio a fyddai angen monitro (a lefelau sbardun priodol) i bennu p'un a oes angen gweithredu mesurau i leihau sŵn ymhellach? Os felly, sut byddai'r rhain ac unrhyw fesurau unioni gofynnol yn cael eu sicrhau? iii) Sut gellir dibynnu ar fesurau lliniaru sŵn/ dirgryniad ar gyfer ecoleg i fod yn addas yn seiliedig ar y wybodaeth sy'n hysbys ar hyn o bryd? Neu a ddisgwylir gwybodaeth ychwanegol? iv) Rhowch ddiweddariad lle y bo'r angen. • Awdurdodau Cynllunio Perthnasol/ IPs: <ol style="list-style-type: none"> v) Gwnewch sylwadau ar yr angen am fonitro sŵn a mesurau lliniaru yn ystod y cyfnod adeiladu/ gweithredol.
Q1.14.2	Yr Ymgeisydd	<ul style="list-style-type: none"> • Disgrifir bod yr effeithiau sŵn a dirgryniad gweddilliol a amlygwyd yn ystod adeiladu (cymedrol a mawr) a datgomisiynu (cymedrol) yn arwyddocaol yn amodol ar y mesurau lliniaru a fyddai'n cael eu cynnwys yn y Cynllun Rheoli Sŵn a Dirgryniad, y

ExQ1: 27 Mawrth 2023**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Terfyn Amser 1: Dydd Llun 17 Ebrill 2023**

ExQ1	Cwestiwn ar gyfer:	Cwestiwn:
		<p>mae'n ofynnol ei gynnwys yn y CEMP yn ôl Gofyniad 5 y DCO drafft [APP-024]. A all yr Ymgeisydd:</p> <ul style="list-style-type: none"> i) Egluro p'un a ddisgwylir i'r effeithiau barhau i fod yn arwyddocaol ar ôl gweithredu'r Cynllun; ac ii) Esbonio sut y bydd cynllun o'r fath yn cael ei sicrhau ar gyfer y cyfnod datgomisiynu, o ystyried bod y DCO drafft yn ei sicrhau ar gyfer y cyfnod adeiladu yn unig.
Q1.14.3	Yr Ymgeisydd	<ul style="list-style-type: none"> • Cyfeiriwch yr ExA at ble ym Mhennod 15 yr ES (Sŵn a Dirgryniad) [APP-067] y nodwyd yr oriau adeiladu safonol arfaethedig. Os nad oes oriau adeiladu safonol arfaethedig wedi'u nodi ym Mhennod 15 yr ES, cadarnhewch yr oriau adeiladu safonol arfaethedig (h.y. a gynigir iddynt fod yn 08:00 tan 18:00 o'r gloch o ddydd Llun i ddydd Sul yn gynwysedig neu'n gyfnod arall).
Q1.14.4	Yr Ymgeisydd ac Awdurdodau Lleol Perthnasol (CWCC a FCC)	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r ExA yn nodi penderfyniad yr Ymgeisydd i beidio â chyflwyno Asesiad Dirgryniad Gweithredol ac na chynhaliwyd trafodaethau ynglŷn â'r mater hwn gyda'r Awdurdodau Lleol perthnasol (CWCC a FCC). Fodd bynnag, byddai'r ExA yn gofyn: <ul style="list-style-type: none"> i) a all yr Ymgeisydd roi esboniad llawnach ynglŷn â pham nad oedd yn credu bod angen asesiad o'r fath; a ii) ph'un a yw'r Awdurdodau Lleol Perthnasol (CWCC a FCC) yn cytuno â phenderfyniad yr Ymgeisydd nad oedd angen asesiad o'r fath ac, os na, pam nad ydynt yn cytuno.
Q1.14.5	Yr Ymgeisydd	<ul style="list-style-type: none"> • Eglurwch baragraff 15.5.8 Pennod 15 yr ES (Sŵn a Dirgryniad) [APP-067]. A ydych chi'n golygu cartref/ cartrefi i breswylwyr oedrannus neu gartrefi o oed penodol?
Q1.14.6	Awdurdodau Lleol Perthnasol (CWCC a FCC)	<ul style="list-style-type: none"> • Ar ôl ystyried y fethodoleg a'r cyfrifiadau a amlinellir ym Mhennod 15 yr ES (Sŵn a Dirgryniad) [APP-067], mae'n ymddangos y bydd offer swnllyd iawn yn cael ei ddefnyddio mewn rhai lleoliadau am oddeutu 80% o'r amser. Yn wir, mae Paragraff 15.9.4 yn nodi "...mae rhai derbynyddion ym mhob rhan yn debygol o brofi naill ai effaith sŵn niweidiol ganolig neu uchel ar ryw adeg yn ystod y cyfnod adeiladu." Mae hefyd yn cofnodi yr ystyrir bod maint yr effaith yn "effaith sylweddol (arwyddocaol)". O ystyried hyn, byddai'r ExA yn gofyn i'r Awdurdodau Lleol Perthnasol (CWCC a FCC): i) p'un a ydynt o'r farn bod posibilrwydd o gŵyn yn deillio o ddefnyddio offer o'r fath a/

ExQ1: 27 Mawrth 2023**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Terfyn Amser 1: Dydd Llun 17 Ebrill 2023**

ExQ1	Cwestiwn ar gyfer:	Cwestiwn:
		neu hyd defnyddio offer o'r fath; a ii) p'un a oes ganddynt unrhyw bryderon mewn perthynas ag Erthygl 9 (Amddiffyn Achos mewn perthynas â niwsans statudol) fel yr amlinellir yn y DCO drafft [APP-024].
Q1.14.7	Yr Ymgeisydd	<ul style="list-style-type: none"> Nodir Pennod 15 yr ES (Sŵn a Dirgryniad) [APP-067] paragraff 15.5.23, ond byddai'r ExA yn gofyn i'r Ymgeisydd b'un a yw'n cydnabod y gallai lefelau sŵn uwch na'r cyfrifiadau ddigwydd am gyfnodau cyfyngedig ac, os felly, pa fesurau lliniaru a gynigir i fynd i'r afael â digwyddiadau o'r fath.
Q1.14.8	Yr Ymgeisydd	<ul style="list-style-type: none"> Nodir paragraff 15.5.46 Pennod 15 yr ES (Sŵn a Dirgryniad) [APP-067], ac felly hefyd y ffaith y bydd mesurau lliniaru sŵn eilaidd yn cael eu cyflawni trwy sgrinio lleol a'r dulliau ymarferol gorau. Fodd bynnag, byddai'r ExA yn gofyn sut y bydd mesurau lliniaru o'r fath yn cael eu sicrhau yn ystod y cam dylunio manwl. Er enghraifft, a fwriedir i fanylion o'r fath gael eu pennu yn rhan o Ofyniad 4 (Dyluniad y Cynllun) neu Ofyniad 5 (CEMP) neu ryw ddull arall. Eglurwch, os gwelwch yn dda, gan esbonio'ch ymateb yn fanwl.
Q1.14.9	Yr Ymgeisydd	<ul style="list-style-type: none"> Mae'r ExA yn nodi paragraff 15.9.5 Pennod 15 yr ES (Sŵn a Dirgryniad) [APP-067], ond byddai'n gofyn beth mae'r Ymgeisydd yn ei feddwl gan y term 'amodau tir anodd'. Diffiniwch hyn a rhowch enghreifftiau, lle y bo'r angen.
Q1.14.10	Yr Ymgeisydd	<ul style="list-style-type: none"> Nodir paragraff 15.10.4 Pennod 15 yr ES (Sŵn a Dirgryniad) [APP-067], ac felly hefyd sylw'r Ymgeisydd y bydd, mewn ymgynghoriad â'r Awdurdod Lleol Perthnasol, yn ystyried ailgartrefu dros dro os nad yw mesurau lliniaru eraill yn ddigonol. Byddai'r ExA yn gofyn: <ul style="list-style-type: none"> i) a all yr Ymgeisydd gyfeirio at ble y bwriedir i fesurau lliniaru o'r fath gael eu sicrhau yn y DCO drafft [APP-024], y REAC [APP-222] neu ddogfen arall debyg a ph'un a fyddai defnyddio'r gair 'ystyried' yn fanwl gywir a/ neu'n orfodadwy? ii) a all Awdurdodau Lleol Perthnasol (CWCC a FCC) gadarnhau p'un a fyddai defnyddio'r gair 'ystyried' yn fanwl gywir a/ neu'n orfodadwy?
Q1.14.11	Yr Ymgeisydd	<ul style="list-style-type: none"> Pennod 15 yr ES (Sŵn a Dirgryniad) [APP-067] Paragraff 15.13.1 – Eglurwch beth a olygir gan y term 'Adeiladwr Adeiladu'. Ai camgymeriad yw hyn?
15. Polisi Cynllunio		
Q1.15.1	Yr Ymgeisydd ac IPs	<ul style="list-style-type: none"> Mae'r ymgynghoriad ynglŷn â'r Bil Ffyniant Bro ac Adfywio: diwygiadau i bolisi cynllunio cenedlaethol yn cael ei gynnal gan yr Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau. Agorodd

ExQ1: 27 Mawrth 2023**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Terfyn Amser 1: Dydd Llun 17 Ebrill 2023**

ExQ1	Cwestiwn ar gyfer:	Cwestiwn:
		<p>yr ymgynghoriad ym mis Rhagfyr 2022 ac mae'n parhau tan 2 Mawrth 2023. Mae lliaws o ddiwygiadau'n cael eu hystyried.</p> <p>Gofynnir i'r Ymgeisydd gydnabod y byddai newidiadau i bolisi cynllunio cenedlaethol yn ystod cyfnod yr archwiliad yn cael eu diffinio fel ystyriaethau pwysig a pherthnasol o ran ystyried y cais DCO a wneir. Yn ail, gofynnir i'r Ymgeisydd fynd i'r afael ag unrhyw un o'r newidiadau polisi a ddisgwylir ar hyn o bryd, fel y byddent yn berthnasol i'r Cais DCO hwn.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gwahoddir IPs i wneud sylwadau ar y newidiadau posibl uchod i bolisi cynllunio cenedlaethol.
Q1.15.2	Yr Ymgeisydd ac IPs, gan gynnwys FCC a CWCC	<ul style="list-style-type: none"> • A yw effeithiau uniongyrchol/ anuniongyrchol yn ymwneud â pholisi cynllunio ar gyfer safleoedd/ cymunedau teithwyr wedi derbyn sylw'n ddigonol?
16. Effeithiau Economaidd-gymdeithasol, gan gynnwys Iechyd y Boblogaeth ac Iechyd Dynol		
Q1.16.1	<i>Cyffredinol</i> Yr Ymgeisydd	<ul style="list-style-type: none"> • Mae Adran 1.3 y Datganiad Cynllunio a gyflwynwyd [APP-048] yn nodi y gallai adeiladu'r biblinell CO₂ gynhyrchu galw rhanbarthol a chenedlaethol am sgiliau adeiladu, peirianeg a gweithgynhyrchu a fydd yn cyfrannu at fuddion economaidd 'Y Prosiect', y mae Datblygiad Arfaethedig y DCO y gwneir cais amdano ac sy'n destun yr Archwiliad hwn yn rhan ohono. A all yr Ymgeisydd: <ul style="list-style-type: none"> i) Egluro ymhellach (neu drwy gyfeirio at y wybodaeth benodol yn y cais a gyflwynwyd) natur benodol a lefel unrhyw swyddi a fydd yn cael eu creu yn rhan o'r buddion economaidd cysylltiedig y mae'n cyfeirio atynt yn fras? ii) Cadarnhau p'un a all unrhyw rai o'r buddion economaidd disgwylidig y gellir eu priodoli i gynllun y DCO gael eu cyfeirio'n lleol? Er enghraifft, buddion a allai hwyluso cyfleoedd cyflogaeth lleol/ symudedd cymdeithasol o ardaloedd aneddiadau cyfagos? iii) Cynghori ynghylch unrhyw drafodaethau sy'n cael eu cynnal i ddarparu cysylltiadau llwybrau gwaith posibl/ cyfleoedd â darparwyr addysg lleol? iv) Cadarnhau a oes lle o fewn y dulliau caffael disgwylidig sydd ar gael i'r Ymgeisydd i alluogi darpariaeth/ cyfleoedd cyflogaeth lleol?

ExQ1: 27 Mawrth 2023**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Terfyn Amser 1: Dydd Llun 17 Ebrill 2023**

ExQ1	Cwestiwn ar gyfer:	Cwestiwn:
		<p>v) Ymrwymo i ymgysylltu â Chynghorau/ rhanddeiliaid perthnasol i archwilio cynyddu buddion economaidd-gymdeithasol lleol ymhellach, lle bynnag y bo'n bosibl?</p> <p>vi) Esbonio unrhyw fuddion economaidd-gymdeithasol sy'n gysylltiedig â gosod cebl ffeibr optig newydd.</p>
Q1.16.2	<p><i>Cyffredinol</i> IPs, gan gynnwys FCC a CWCC</p>	<ul style="list-style-type: none"> O ystyried y rhestr o Rhanddeiliaid y mae'r Ymgeisydd wedi ymgysylltu â nhw a nodir yn Atodiad A Cyfarfodydd â Rhanddeiliaid [APP-032]. <p>A hoffai IPs wneud unrhyw bwyntiau ynglŷn â sgiliau adeiladu, peirianeg a gweithgynhyrchu posibl a allai ddarparu buddion economaidd neu gyfleoedd lleol? Er enghraifft, a oes unrhyw fentrau cyflogaeth neu addysgol rhyng-gysylltiedig lleol y dylid rhoi gwybod i'r Ymgeisydd amdanynt er mwyn iddo eu hystyried wrth fesur y cyfleoedd economaidd-gymdeithasol cyffredinol sydd ar gael?</p>
Q1.16.3	<p><i>Cyffredinol</i> Yr Ymgeisydd a FCC</p>	<ul style="list-style-type: none"> Cyfeirir at gyfle ar gyfer Cronfa Budd Cymunedol yn y Sylwadau Perthnasol llawn a dderbyniwyd gan [RR-034] [RR-035]. Maen nhw'n nodi'n benodol "y byddai adeiladu'r biblinell yn tarfu'n sylweddol ar nifer o gymunedau yn Sir y Fflint ar hyd y cyfnod adeiladu. At hynny, pe byddai caniatâd yn cael ei roi, byddai hyn yn arwain at ymestyn oes Terfynell PoA y disgwylir iddi gael ei hadfer erbyn 2023 ar hyn o bryd. Fodd bynnag, nodir na fyddai cymunedau a diwydiant Sir y Fflint yn elwa o dderbyn hydrogen tan yn hwyrach o lawer yn y prosiect gan nad oes unrhyw gynlluniau ar hyn o bryd i adeiladu piblinell hydrogen yn Sir y Fflint. Fel y cyfryw, ystyrir ei bod yn rhesymol i'r datblygwyr ymrwymo i ddarparu cronfa budd cymunedol ar gyfer y cymunedau hynny yr effeithir arnynt". FCC <ol style="list-style-type: none"> Esboniwch beth y byddai'r Gronfa Budd Cymunedol a ddisgrifiwyd yn cael ei defnyddio ar ei gyfer yn benodol? Trwy ba ddull rheoleiddiol ffurfiol y byddech yn ceisio cyllid o'r fath gan yr Ymgeisydd os caiff ei ddilyn? Nodwch yn fanwl sut byddai unrhyw brawf statudol/ polisi sy'n gysylltiedig â sicrhau'r ceisiadau cyllid a ddisgrifiwyd yn cael ei fodloni. Os nad ydych eisoes wedi gwneud hynny, rhwch fanylion llawn unrhyw CILCS sydd ar waith ar gyfer yr ardal weinyddol neu unrhyw gynlluniau i'w chyflwyno. Yr Ymgeisydd

ExQ1: 27 Mawrth 2023**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Terfyn Amser 1: Dydd Llun 17 Ebrill 2023**

ExQ1	Cwestiwn ar gyfer:	Cwestiwn:
		<ul style="list-style-type: none"> v) Beth yw'ch barn am yr egwyddor o gyflawni Cronfa Budd Cymunedol o ystyried y cyd-destun polisi a deddfwriaethol y byddai angen iddi gael ei hystyried ynddo? vi) Mae'r Datganiad Cynllunio a gyflwynwyd [APP-048] yn nodi y bwriedir i fesurau lliniaru gael eu darparu yn unol â pharagraff 5.12.9 EN-1, sy'n datgan y dylai'r SoS ystyried p'un a yw mesurau lliniaru'n angenrheidiol i liniaru unrhyw effeithiau economaidd-gymdeithasol niweidiol o'r datblygiad. O ystyried yr holl fesurau lliniaru presennol ar gyfer effeithiau economaidd-gymdeithasol niweidiol a ddisgwylir ac a gynigir, a ydych chi'n cytuno bod cyfle polisi i ddarparu pecyn budd cymunedol lleol ehangach ychwanegol yn unol ag EN-1? vii) Os ydych yn cytuno, sut byddai'r elfennau hynny'n cael eu cyflawni'n ffurfiol gan y DCO arfaethedig?
Q1.16.4	<i>Amaethyddiaeth</i> Yr Ymgeisydd	<ul style="list-style-type: none"> • A wnewch chi: <ul style="list-style-type: none"> i) Gadarnhau p'un a fyddai'r Datblygiad Arfaethedig yn arwain at unrhyw faterion gwahanu ar gyfer ffermydd ac, os felly, sut y bwriedir mynd i'r afael â materion gwahanu o'r fath neu eu lliniaru? ii) Esbonio os/ sut y byddai achosion tymor byr a thymor hir o dorri cynlluniau Amaeth-Amgylcheddol a allai gael eu hachosi gan y Datblygiad Arfaethedig yn cael eu trin a phwy fyddai'n gyfrifol am ddelio ag unrhyw achosion o dorri – yr Ymgeisydd neu lofnodwr y cynllun? Os bydd y lofnodwr yn gyfrifol, a yw'r Ymgeisydd yn bwriadu rhoi unrhyw gymorth/ cyngor? iii) Cyfeirio at ble yn nogfennau'r Cais y gellir dod o hyd i'r wybodaeth hon os yw eisoes wedi cael ei darparu.
Q1.16.5	<i>Amaethyddiaeth</i> Yr Ymgeisydd	<ul style="list-style-type: none"> • Mae nifer o dirfeddianwyr wedi cyfeirio at ymyrryd â gweithgarwch busnes amaethyddol a gweithgareddau busnes eraill gan fynegi pryderon ynglŷn â sut y byddai mesurau iawndal yn cael eu trin. Er nad yw lefel unrhyw iawndal posibl yn fater i'r Archwiliad benderfynu arno, mae'r ExA yn gofyn i'r Ymgeisydd egluro/ esbonio ymhellach sut mae'n bwriadu delio â materion iawndal er budd yr holl IPs.
Q1.16.6	<i>Amaethyddiaeth</i> Rainford Hall Estate Limited ar ran y Meistri J ac E Williams	<ul style="list-style-type: none"> • Mae eich Sylw Perthnasol [RR-069] yn nodi y bydd y ffaith na fydd y tir ar Fferm Aston Hill, Aston Hill Lane, Glannau Dyfrdwy ar gael yn ystod y cyfnod adeiladu yn cael effaith ddifrifol ar allu'r fferm i daenu slyri. Rydych yn cyngori ynglŷn â newidiadau rheoleiddiol a ddaw i rym ar 1 Ebrill 2023 a fyddai'n effeithio ar ffermwyr yng Nghymru, gan y byddant yn gosod terfyn uchaf o 170kg/ha o nitrogen a ganiateir ar gyfer taenu.

ExQ1	Cwestiwn ar gyfer:	Cwestiwn:
		Er mwyn osgoi amheuaeth, cadarnhewch y ddarpariaeth reoleiddiol benodol rydych yn cyfeirio ati. Yn ogystal, rhwch fanylion llawn: i) cyfanswm y tir sy'n cael ei ffermio gan eich cleient a ii) yr ardaloedd rydych o'r farn y byddent yn destun aflonyddu a achosir gan y datblygiad a gynigir gan y Cais DCO hwn.
17. Trafnidiaeth a Thraffig		
Q1.17.1	<p><i>Rheoli Traffig</i></p> <p>IPs, gan gynnwys yr Awdurdodau Priffyrdd Perthnasol (Llywodraeth Cymru, National Highways, CWCC, ac ati)</p>	<ul style="list-style-type: none"> O ystyried y Cynllun Rheoli Traffig Adeiladu Amlinellol (OCTMP) [APP-224] a gyflwynwyd. Mae'r mesurau'n ddangosol ac mae IPs wedi mynegi sawl pryder rheoli traffig trwy sylwadau perthnasol. O ystyried y pryderon hyn yn ogystal â nodweddion y rhwydwaith ffyrdd lleol, mae'r ExA yn gofyn i faterion rheoli traffig gael eu datrys yn ystod yr archwiliad cyn belled ag y bo'n bosibl. Awdurdodau Priffyrdd Perthnasol Beth yw'ch barn am gwmpas a chynnwys y Cynllun Rheoli Traffig Amlinellol? Esboniwch eich rhesymeg mewn perthynas ag opsiynau a ffefrir ac unrhyw ychwanegiadau neu ddiwygiadau a awgrymir. IPs Gwahoddir sylwadau ar gynnwys yr OCTMP.
Q1.17.2	<p><i>Parcio/ Mynediad</i></p> <p>Yr Ymgeisydd ac IPs, gan gynnwys yr Awdurdodau Priffyrdd Perthnasol</p>	<ul style="list-style-type: none"> Yr Ymgeisydd Tybir y bydd gweithwyr adeiladu'n parcio yn y prif gyfadeilad(au) yn ystod adeiladu. Fodd bynnag, byddai'r ExA yn gofyn i chi gadarnhau p'un a yw'r dybiaeth uchod yn gywir ac, os na, darparu manylion parcio ar gyfer gweithwyr adeiladu. Byddai'r ExA hefyd yn gofyn am fanylion llawn lleoliad a pharamedrau dylunio'r ddarpariaeth barcio ar gyfer cerbydau gweithwyr adeiladu i ddangos y byddai ardaloedd parcio'n cynnwys digon o gapasiti i osgoi "<i>parcio manteisgar</i>" ar ffyrdd lleol cyfagos neu mewn cyfleusterau parcio eraill yn y cyffiniau. Eglurwch sut y byddai "<i>parcio manteisgar</i>" yn cael ei atal. Awdurdodau Priffyrdd Perthnasol/ IPs Mae'r ExA yn nodi cynnwys yr ES - Ffigur 17.5 [APP-215] sy'n darparu'r Lleoliadau Mynediad arfaethedig a ddisgwylir; ES- Ffigur 17.4 Llwybrau Traffig Adeiladu [APP-214]; ES- Ffigur 17.7 Gwyradau Ffyrdd [APP-217]; a'r OCTMP a gyflwynwyd [APP-224]. Fodd bynnag, byddai'r ExA yn gofyn:

ExQ1: 27 Mawrth 2023**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Terfyn Amser 1: Dydd Llun 17 Ebrill 2023**

ExQ1	Cwestiwn ar gyfer:	Cwestiwn:
		i) A oes unrhyw sylwadau eraill ar y lleoliadau mynediad neu'r gwyradau ffyrdd a ddisgwylir a fyddai'n berthnasol i gynnwys yr OCTMP ar y cam hwn? ii) A yw'r partion yn cytuno bod yr OCTMP yn addas? Os na, nodwch pam. iii) Gwahoddir sylwadau eraill ar gynnwys y dogfennau a grybwyllwyd uchod.
Q1.17.3	<i>Mynediad</i> Yr Ymgeisydd a'r Awdurdodau Priffyrdd Perthnasol a CWCC	<ul style="list-style-type: none"> Mae Peel NRE yn datgan yn ei Sylw Perthnasol [RR-078] bod y ffordd fynediad arfaethedig o gylchfan Grinsome Road i'r Biblinell/ AGI yn gwrthdaro â chyflawni Parc Plastigion Protos sydd wedi'i gymeradwyo (Cais cynllunio CWCC cyf. 21/04076/FUL) ac y gallai hyn gyfyngu ar gyflawni'r datblygiad. Felly, ar y cam hwn, mae Peel NRE yn gwrthwynebu'r fynedfa arfaethedig i AGI Ince a'r Biblinell. Mae'r ExA yn nodi honiad Peel NRE ei fod yn berchennog datganedig y tir sy'n ofynnol ar gyfer y Biblinell ar gyfer AGI Ince, a'r fynedfa, coridor y biblinell, a'r cyfadeilad adeiladu arfaethedig cysylltiedig (fel y dangosir ar Gynllun Gwaith cyf. EN070007-D.2.4-WP-Sheet 1) ('Y Tir yr Effeithir Arno'). Mae'r Tir yr Effeithir Arno yn cynnwys tir ym Mharc Ince, a adwaenir fel Protos – safle datblygu 130ha sy'n cynnwys hyb adfer adnoddau ac ynni mawr ac ardaloedd rheoli ecolegol sy'n gyflogwr mawr ger Ince, Swydd Gaer. Mae gan Protos ganiatadau cynllunio ar waith ac mae'r datblygiad eisoes wedi cyrraedd cam datblygedig. Mae gan Brotos ganiatâd cynllunio amlinellol (cyf. 14/02277/S73) ar gyfer parc adfer adnoddau ac, yn ogystal, mae cydsyniadau cynllunio ar wahân wedi cael eu sicrhau ar draws lleiniau unigol ar gyfer datblygiadau sy'n cyd-fynd ag ethos Protos, gan gynnwys Cyfleuster Ynni o Wastraff (cyf. 18/01543/S73), cyfleuster biomas (cyf. 14/02278/S73), gwaith ailgylchu pren (cyf. 14/02271/S73), cyfleuster plastig i hydrogen (cyf. 19/03489/FUL), a pharc plastigion (cyf. 21/04076/FUL). Mae'r ExA hefyd yn nodi y dywedir bod Protos wedi'i ddyrannu yng Nghynllun Lleol Gorllewin Swydd Gaer a Chaer (Polisiau STRAT 4 ac ENV 8 Rhan Un y Cynllun Lleol; a Pholisi EP6 Rhan Dau y Cynllun Lleol) a'i fod wedi'i ddiogelu ar gyfer parc adfer adnoddau amlfoddol a chyfleuster ynni o wastraff i'w ddefnyddio mewn cysylltiad ag ailgylchu, adfer ac ailbrosesu deunyddiau gwastraff. Yr Ymgeisydd <ul style="list-style-type: none"> i) A amlygwyd mynedfa amgen er mwyn osgoi gwrthdaro â datblygiad arfaethedig yn Protos?

ExQ1	Cwestiwn ar gyfer:	Cwestiwn:
		<p>ii) A fyddai modd iddo ddefnyddio croesfannau symlach dros draciau rheilffordd a ffosydd presennol ac arfaethedig. Os felly, sut gallai hynny gael ei wneud?</p> <p>iii) Mae'r Adroddiad Ymgynghori (dogfen cyf. D.5.1, Diwygiad A, mis Medi 2022, cyfeinod S1-09) yn datgan bod yr Ymgeisydd yn fodlon newid y llwybr mynediad ar yr amod bod mynediad parhaus yn cael ei ddarparu i'r AGI. A ellir cadarnhau unrhyw gynnydd â'r trafodaethau hynny ac unrhyw gamau nesaf a fwriedir?</p> <ul style="list-style-type: none"> • CWCC <p>iv) A oes gennych unrhyw bwyntiau ychwanegol i'w gwneud ynglŷn â'r mater mynediad a amlinellwyd neu sylwadau ynglŷn â sicrhau unrhyw ddatrysiadau posibl?</p>
Q1.17.4	<p><i>Seilwaith Priffyrdd Presennol/ Cynnal a Chadw Ffyrdd</i></p> <p>Yr Ymgeisydd ac IPs, gan gynnwys yr Awdurdodau Priffyrdd Perthnasol (h.y. Llywodraeth Cymru, National Highways, ac ati)</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Yr Ymgeisydd <p>Mae Sylw Perthnasol [RR-015] yn amlygu pryderon ynglŷn â chyflwr seilwaith priffyrdd presennol (gan gynnwys yr A494 Pont Afon Dyfrdwy) a allai gael ei waethygu gan Ddatblygiad Arfaethedig y DCO.</p> <p>Yn wir, mae'n bosibl bod y mater hwn eisoes wedi cael ei ragweld yn sgil ffurfio'r OCTMP.</p> <p>i) A all yr Ymgeisydd egluro ymhellach sut y bwriedir rheoli a/ neu liniaru materion cynnal a chadw ffyrdd sy'n gysylltiedig â chyflwr y seilwaith priffyrdd presennol?</p> <p>ii) Pa ddarpariaethau penodol yn y DCO sy'n ymdrin â materion cynnal a chadw ffyrdd, a sut maen nhw'n berthnasol i gydnabod unrhyw strwythur priffyrdd presennol yr effeithir arno?</p> <p>iii) Sut byddai mesurau digolledu'n cael eu trin ar gyfer unrhyw ddifrod anfwriadol a achosir i'r briffordd gyhoeddus neu seilwaith sy'n gysylltiedig â'r briffordd, gan gynnwys unrhyw bontydd lleol.</p> <ul style="list-style-type: none"> • IPs <p>iv) Cyflwynwch ba sylwadau bynnag yr ystyriwch eu bod yn angenrheidiol.</p> <p>v) A oes unrhyw arolygon cydnabyddedig presennol a gynhaliwyd sy'n darparu sail i fanylu ar gyflwr unrhyw seilwaith priffyrdd presennol y gellid effeithio arno? Os felly, rhowch y wybodaeth honno i'r Archwiliad.</p>

ExQ1: 27 Mawrth 2023**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Terfyn Amser 1: Dydd Llun 17 Ebrill 2023**

ExQ1	Cwestiwn ar gyfer:	Cwestiwn:
Q1.17.5	<i>Seilwaith Priffyrdd</i> Yr Ymgeisydd ac IPs, gan gynnwys yr Awdurdodau Priffyrdd Perthnasol (h.y. Llywodraeth Cymru, National Highways, ac ati)	<ul style="list-style-type: none"> Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi (ym mis Chwefror) ei bod wedi canslo cyfres o brosiectau adeiladu ffyrdd. A oes gan y cyhoeddiad neu'r gwelliannau amgen a awgrymwyd i'r A494 yn Aston Hill unrhyw oblygiadau i ddatblygiad arfaethedig y DCO? Os felly, esboniwch beth yw'r goblygiadau hynny a beth maen nhw'n debygol o'i gynnwys.
18. Rheoli Gwastraff		
Q1.18.1	Dd/B	<ul style="list-style-type: none"> Dim cwestiynau penodol ar hyn o bryd, nad ydynt eisoes wedi derbyn sylw gan gwestiynau eraill yn y ddogfen hon.
19. Gorchymyn Caniatâd Datblygu Drafft		
Q1.19.1	<i>DCO – Datblygiad Cysylltiedig</i> Llywodraeth Cymru/ FCC	<ul style="list-style-type: none"> Nodir paragraff 1.4 (Datblygiad Cysylltiedig) a 3.2 (Trosolwg o'r Fframwaith Deddfwriaethol a Chydsynio) y Datganiad Cynllunio a gyflwynwyd [APP-048]. Fodd bynnag, byddai'r ExA yn tynnu sylw'r IPs a restrir wrth ymyl y cwestiwn hwn at Adran 115 PA2008 (fel y'i diwygiwyd gan Adran 43 Deddf Cymru 2017), ac at y diffiniad o "biblinell" yn Adran 65 Deddf Piblinellau 1962, yn benodol mewn perthynas â'r BSVs a'r AGIs sy'n ffurfio rhan o'r cynllun ac sydd wedi'u lleoli yng Nghymru. Yng ngoleuni'r Adrannau hyn o'r Ddeddf berthnasol, byddai'r ExA yn gofyn i'r IPs a restrir: <ul style="list-style-type: none"> i) Adolygu'r Adrannau/ Deddfau a grybwyllwyd uchod a chadarnhau p'un a oes unrhyw Ddatblygiad Cysylltiedig at ddibenion Adran 115 PA2008 mewn perthynas â'r elfennau o'r datblygiad arfaethedig sydd wedi'u lleoli'n gyfan gwbl yng Nghymru ac, os felly, i amlygu hyn. ii) Cadarnhau a ydynt yn cytuno â dadansoddiad yr Ymgeisydd o gymhwyso Deddf Piblinellau 1962 mewn perthynas â'r BSVs yng Nghymru. iii) Os bydd IP yn anghytuno â safbwynt yr Ymgeisydd ar y mater hwn, amlinellwch y rhesymeg gyfreithiol sy'n ategu'r safbwynt a arddelir.

ExQ1: 27 Mawrth 2023**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Terfyn Amser 1: Dydd Llun 17 Ebrill 2023**

ExQ1	Cwestiwn ar gyfer:	Cwestiwn:
Q1.19.2	<i>DCO – Cyffredinol</i> Yr Ymgeisydd	<ul style="list-style-type: none"> A ddylai fod Atodlen yn y DCO sy'n rhestru'n benodol y Cynlluniau a'r Dogfennau sydd i'w hardystio? Adolygwch a diwygiwch fel y bo'r angen. Os penderfynir nad oes angen atodlen o'r fath, esboniwch pam.
Q1.19.3	<i>DCO – Cyffredinol</i> Yr Ymgeisydd	<ul style="list-style-type: none"> Tudalen gynnwys – Nid yw Erthygl 6 wedi'i chyfeirnodu'n gywir ar y dudalen gynnwys, gan ei bod yn ymddangos fel petai wedi cyfuno ag Erthygl 5 ym mhrif gorff y testun yn yr Erthyglau hyn, fel yr amlinellir yn y DCO drafft. Adolygwch a diwygiwch, fel y bo'r angen.
Q1.19.4	<i>DCO – Cyffredinol</i> Yr Ymgeisydd	<ul style="list-style-type: none"> Tudalen gynnwys – Atodlen 10 (Darpariaethau Amddiffynnol) – Mae rhai o'r Rhannau wedi'u cyfeirnodu'n anghywir. Er enghraifft, mae Rhan 4 yn cyfeirio at 'Cadent' ond mae Rhan 4 mewn gwirionedd yn ymwneud â'r Grid Cenedlaethol fel Ymgymwrwr Nwy, mae Rhan 5 yn ymwneud â Cadent Gas Ltd ac mae angen ailrifo'r rhannau sy'n weddill. Adolygwch a diweddarwch os bydd angen.
Q1.19.5	<i>DCO – Cyffredinol</i> Yr Ymgeisydd	<ul style="list-style-type: none"> Tudalen Gynnwys – Atodlen 11 (Gwaredu gwrychoedd) – Nid yw'r Rhannau wedi'u rhifo ac mae'r Rhan sy'n cyfeirio at 'Waredu gwrychoedd pwysig' yn wag. Adolygwch a diwygiwch, fel y bo'r angen and the Part that refers to 'Removal of important hedgerows' is blank. Please review and amend, as required.
Q1.19.6	<i>DCO – Cyffredinol</i> Yr Ymgeisydd	<ul style="list-style-type: none"> Tudalen Gynnwys – Mae angen diweddarau paragraffau 2 a 3 islaw Atodlen 12 ar y dudalen gynnwys. Adolygwch a diweddarwch, os oes angen.
Q1.19.7	<i>DCO – Erthyglau</i> Yr Ymgeisydd	<ul style="list-style-type: none"> Erthygl 2 (Dehongli) – Mae'r diffiniad o "ddatblygiad awdurdodedig" yn cyfeirio at Atodlen 1. Fodd bynnag, mae'r ExA o'r farn bod y cyfeiriad at "ddatblygiad cysylltiedig" yn rhyfedd yma, yn enwedig gan na wneir cyfeiriad pellach at "ddatblygiad cysylltiedig" yn y DCO drafft. Cyfeirir at "waith atodol" yn Atodlen 2. Dylai'r Ymgeisydd nodi beth yw "datblygiad cysylltiedig" gan gadarnhau ei fod yn bodloni'r meini prawf yn adran 115 PA2008. Adolygwch a diwygiwch, fel y bo'r angen.

ExQ1: 27 Mawrth 2023**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Terfyn Amser 1: Dydd Llun 17 Ebrill 2023**

ExQ1	Cwestiwn ar gyfer:	Cwestiwn:
Q1.19.8	<i>DCO – Erthyglau</i> Ymgeisydd	<ul style="list-style-type: none"> Erthygl 2 (Dehongli) – Defnyddir y term 'CEMP' yn y DCO drafft yn Erthygl 9 cyn iddo gael ei esbonio yn Atodlen 2, Gofyniad 1 (Dehongli). A ddylai gael ei gynnwys yn Erthygl 2, Dehongli?
Q1.19.9	<i>DCO – Erthyglau</i> Ymgeisydd	<ul style="list-style-type: none"> Erthygl 2 (Dehongli) - Diffiniad o "fasnach" a gweithgareddau galluogi. Mae amryw weithgareddau galluogi (gwaith paratoi'r safle ac ati) wedi'u heithrio'n benodol o'r diffiniad o "fasnach" yn Erthygl 2. Gallai rhai o'r gweithgareddau hyn orgyffwrdd â'r "cyfryw waith arall ag a allai fod yn angenrheidiol neu'n hwylus" ar ddiwedd Rhan 1 Atodlen 1. Mae angen i'r ExA fod yn fodlon na fydd y gweithgareddau galluogi hyn yn arwain at unrhyw effeithiau amgylcheddol niweidiol arwyddocaol, yn groes i'r ES. Yn ogystal, byddai'r diffiniad hwn yn caniatáu i'r gweithgareddau galluogi gael eu cynnal cyn i'r awdurdod cynllunio perthnasol gymeradwyo manylion mesurau i ddiogelu'r amgylchedd o dan y Gofynion ac mae'r ExA yn ymwybodol bod geiriad tebyg wedi cael ei ddileu mewn DCOs eraill. O ystyried y sylwadau hyn, mae'r ExA yn gofyn i'r diffiniad o "fasnach" a gweithgareddau galluogi gael ei adolygu a'i ddiwygio i fynd i'r afael â'r sylwadau a grybwyllwyd uchod, lle y bo'r angen. Byddai'r ExA hefyd yn gofyn, pan ystyrir nad oes angen unrhyw ddiwygiadau, bod yr Ymgeisydd yn cyfiawnhau ei benderfyniad ac yn darparu unrhyw gynsail i'w safbwynt.
Q1.19.10	<i>DCO – Erthyglau</i> Ymgeisydd	<ul style="list-style-type: none"> Erthygl 2 (Dehongli) – Mae'r diffiniad o "gynnal a chadw" yn Erthygl 2 yn bellgyrhaeddol iawn ac yn ymddangos fel petai'n cynnig cryn hyblygrwydd heb unrhyw rwymedigaeth, ar hyn o bryd, i gyfyngu gweithgareddau cynnal a chadw i'r rhai hynny na fyddent yn arwain at unrhyw effeithiau sylweddol newydd neu sylweddol wahanol ar yr amgylchedd i'r rhai a amlygwyd yn yr ES. Adolygwch a diwygiwch, os oes angen.
Q1.19.11	<i>DCO – Erthyglau</i> Ymgeisydd	<ul style="list-style-type: none"> Erthygl 2 (Dehongli) – Mae'r diffiniad o'r 'cynllun mynediad a hawliau tramwy' yn nodi mai hwnnw yw'r '...cynllun a ardystiwyd felly gan yr SoS at ddibenion y Gorchymyn hwn'. Fodd bynnag, nid yw'r cynllun mynediad a hawliau tramwy wedi'i restru yn Erthygl 44 (Ardystio Cynlluniau, ac ati). Adolygwch a diwygiwch, fel y bo'r angen.

ExQ1: 27 Mawrth 2023**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Terfyn Amser 1: Dydd Llun 17 Ebrill 2023**

ExQ1	Cwestiwn ar gyfer:	Cwestiwn:
Q1.19.12	<i>DCO – Erthyglau</i> Ymgeisydd	<ul style="list-style-type: none"> Erthygl 2 (Dehongli) – Diffiniad o 'Waith atodol' – Mae'r diffiniad yn bellgyrhaeddol ac mae'r ExA yn pryderu ynglŷn â graddau'r hyn a fyddai'n cael ei gynnwys yn y diffiniad hwn a pha 'waith ategol' a fyddai'n cael ei ganiatáu trwy gyfrwng Erthygl 3(1)(b) pe byddai'r DCO yn cael ei wneud. Yn ogystal, byddai'r ExA yn dweud bod Atodlen 1, Rhan 2 y DCO drafft yn ymddangos yn amwys. Adolygwch a diwygiwch, fel y bo'r angen. Os bydd yr Ymgeisydd yn anghytuno â phryder yr ExA yn hyn o beth, amlinellwch gysail gyfreithiol sy'n cyfiawnhau'r safbwynt a arddelir.
Q1.19.13	<i>DCO – Erthyglau</i> Awdurdod Lleol Perthnasol	<ul style="list-style-type: none"> Erthygl 2 (Dehongli) – Diffiniad o 'Fasnach' – A yw'r Awdurdodau Lleol Perthnasol yn fodlon â'r rhestr o eithriadau o fewn y diffiniad o gychwyn?
Q1.19.14	<i>DCO – Erthyglau</i> Yr Ymgeisydd a'r Awdurdodau Priffyrdd Perthnasol (h.y. Llywodraeth Cymru, National Highways, ac ati)	<ul style="list-style-type: none"> Erthygl 2 (Dehongli) – Diffiniad o 'Awdurdod priffyrdd' – Nodir y diffiniad hwn, ond byddai'r ExA yn gofyn p'un a ddylai NH a/ neu Lywodraeth Cymru gael eu cynnwys yn y diffiniad hwn ai peidio.
Q1.19.15	<i>DCO – Erthyglau</i> Yr Ymgeisydd	<ul style="list-style-type: none"> Erthygl 2 (Dehongli) – Mae Erthygl 2(3) yn cyfeirio at 'waith' tra bod Erthygl 2(6) yn cyfeirio at 'weithfeydd'. A ddylai'r cyfeiriad fod yn unigol neu'n lluosog? Yn ogystal, ac er mwyn eglurder, nid oes diffiniad o 'waith/' 'gweithfeydd' a byddai'r ExA yn gofyn p'un a ddylai'r cyfeiriadau hyn fod yn cyfeirio at Rifau Gwaith a/ neu Gynlluniau Gwaith?
Q1.19.16	<i>DCO – Erthyglau</i> Yr Ymgeisydd	<ul style="list-style-type: none"> Mae Erthygl 3 yn cynnwys cydsyniad ar gyfer y gwaith atodol (h.y. hwnnw yn Rhan 2 Atodlen 1). Fodd bynnag, mae'r ExA yn pryderu bod datgysylltiad posibl rhwng paragraff 2.2(i) y Memorandwm Esboniadol (EM), sy'n cyfeirio at "waith atodol dros dro sy'n hanfodol i adeiladu'r Biblinell CO₂, gan gynnwys cyfadeiladau adeiladu a thraciau mynediad dros dro" a Rhan 2 Atodlen 1 nad yw'n rhestru'r 'gwaith atodol' ond sy'n dweud ei fod "er budd neu er mwyn gwarchod tir y mae'r datblygiad awdurdodedig yn

ExQ1: 27 Mawrth 2023**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Terfyn Amser 1: Dydd Llun 17 Ebrill 2023**

ExQ1	Cwestiwn ar gyfer:	Cwestiwn:
		<p><i>effeithio arno</i>" ac yn dod "<i>o fewn cwmpas y gwaith a aseswyd gan yr ES</i>". Mae'r ExA yn pryderu bod y diffiniad hwn yn rhy amwys. Adolygwch a diwygiwch, os oes angen. Os na ystyrir bod angen ei ddiwygio, cyfiawnhewch pam yr ystyriwch fod y geiriad a ddefnyddiwyd yn ddigonol ac nad yw'n agored i'w ddehongli, a darparwch gynseiliau cyfreithiol sy'n ategu safbwynt yr Ymgeisydd yn hyn o beth. Hefyd, cyfeiriwch yr ExA at ble y darparwyd manylion llawn y 'gwaith atodol' yn nogfennau'r Cais a gyflwynwyd.</p>
Q1.19.17	<p><i>DCO – Erthyglau</i> Yr Ymgeisydd/FCC</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Erthygl 4 (Gweithredu a defnyddio'r datblygiad arfaethedig) – Cadarnhewch b'un a yw defnydd o'r biblinell bresennol wedi'i gyfyngu ar hyn o bryd i gludo nwy/ hylif penodol? Os oes cyfyngiad o'r fath yn bodoli, rhwch fanylion llawn y cyfyngiad hwnnw a ph'un a fyddai angen unrhyw ganiatadau, cydsyniadau, trwyddedau eraill, ac ati, heblaw am y DCO, i addasu'r biblinell bresennol at ddiben gwahanol.
Q1.19.18	<p><i>DCO – Terfynau gwyro</i> Yr Ymgeisydd</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'n ymddangos bod nifer o anghysondebau rhwng y paramedrau/ Terfynau Gwyro a nodwyd yn yr ES a'r DCO drafft: <ul style="list-style-type: none"> i) Mae Pennod 3 yr ES [APP-055] yn nodi dimensiynau'r AGIs, y BVSs a'r cyfadeiladau adeiladu, tra bod y DCO drafft yn Nhabl 1 Atodlen 2 Rhan 1 Gofyniad 4 yn nodi uchafswm arwynebedd pob un, ond nid yw'n ymddangos bod y ffigurau'n cyfateb. ii) Mae Pennod 3 yr ES [APP-055] ym mharagraff 3.4.6 yn datgan y byddai'r ffens ar y safleoedd AGI hyd at 3m o uchder. Fodd bynnag, mae'r DCO drafft yn Nhabl 1 Atodlen 2 Rhan 1 Gofyniad 4 yn ymddangos fel petai'n cyfeirio at ddau uchder mwyaf; mae un yn cyfeirio at uchafswm 5m ar gyfer "adeiladau a strwythurau gan gynnwys ffensys gweithredol" ac mae'r llall yn cyfeirio at uchafswm 3.5m ar gyfer "ffensys a giatiau". Nodir yr un Rhifau Gwaith ar gyfer y ddau. iii) Mae Pennod 3 yr ES [APP-055] yn nodi mai uchafswm lled y traciau mynediad parhaol o'r BVSs a'r AGIs yw 3m o led yn y safleoedd BVS a 6m yn y safleoedd AGI, tra'i fod wedi'i osod yn 6m yn y DCO drafft (Atodlen 2 Rhan 1 Gofyniad 4 Tabl 1) ar gyfer y BVSs a'r AGIs.

ExQ1: 27 Mawrth 2023**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Terfyn Amser 1: Dydd Llun 17 Ebrill 2023**

ExQ1	Cwestiwn ar gyfer:	Cwestiwn:
		<p>iv) Mae Pennod 3 yr ES [APP-055] paragraff 3.6.26 yn datgan mai uchafswm lled ymarferol y gwaith torri ffosydd agored fyddai 32m; nid yw'r paramedr hwn wedi'i nodi yn y DCO drafft;</p> <p>v) Mae Erthygl 6 y DCO drafft yn cyfeirio at uchafswm dyfnder o 35m ar gyfer y gwaith gosod di-ffos, ond ni chrybwyllir y paramedr hwn yn yr ES.</p> <p>vi) Mae Pennod 3 yr ES ym mharagraff 3.6.39 yn nodi bod dyfnder y ffosydd torri agored rhwng 2.5m a 6m; ni chyfeirir at y paramedr hwn yn y DCO drafft.</p> <p>vii) Mae Pennod 5 yr ES [APP-057] ym mharagraff 5.12.10 yn datgan bod Terfyn Gwro 5m i bob cyfeiriad o ymyl y cloddwaith ar gyfer pob un o'r AGIs a'r BVSS wedi'i ddangos ar Ffigur 3-2 yr ES [APP-176]. Nid yw hyn wedi'i nodi yn y DCO drafft, sy'n croesgyfeirio i'r Cynlluniau Gwaith ar gyfer y Terfynau Gwro ochrol.</p> <p>Gofynnir i'r Ymgeisydd fynd i'r afael â'r pwyntiau hyn.</p>
Q1.19.19	<p><i>DCO – Terfynau gwro</i> Yr Ymgeisydd</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Terfynau gwro – <ul style="list-style-type: none"> i) Mae Erthygl 6(1)(b) yn nodi'r terfyn isaf y mae'n rhaid i'r biblinell gael ei lleoli o dan y tir, ond mae'n caniatáu eithriad pan na fyddai'n ymarferol cydymffurfio â'r terfyn esgynnol hwnnw. Esboniwch ym mha amgylchiadau y disgwylir y byddai angen yr eithriad hwn. ii) Erthygl 6(1)(c) – Mae'r ExA yn nodi'r terfynau mewn manau eraill yn Erthygl 6(1) a byddai'n gofyn pam nad oes terfyn yn cael ei osod yn Erthygl 6(1)(c)? iii) Mae Erthygl 6(1)(d) ac (e) yn un frawddeg. Adolygwch a diwygiwch, fel y bo'r angen. iv) Erthygl 6(1)(f)(ii) – Byddai'r ExA yn herio'r defnydd o'r gair 'cyfleus' a byddai'n gofyn i'r Ymgeisydd gyfiawnhau pam mae term mor hyblyg yn dderbyniol/ yn briodol i'w ddefnyddio mewn DCO. v) Mae'r EM ym mharagraff 4.28 yn cyfeirio at y terfynau gwro esgynnol ar gyfer gwaith falffiau, fel y disgrifir yn Atodlen 1. Fodd bynnag, nid yw'n ymddangos bod unrhyw derfynau gwro esgynnol ar gyfer gwaith falffiau wedi'u cynnwys yn Atodlen 1. Adolygwch a diwygiwch, fel y bo'r angen. vi) Mae'r pŵer i wro'n fertigol i lawr yn eang, ac er y nodir yr esboniad ym mharagraff 4.27 yr EM, byddai'r ExA yn gofyn p'un a ddylai unrhyw wyriad o'r

ExQ1: 27 Mawrth 2023**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Terfyn Amser 1: Dydd Llun 17 Ebrill 2023**

ExQ1	Cwestiwn ar gyfer:	Cwestiwn:
		fath gael ei gyfyngu i hwnnw na fyddai'n arwain at unrhyw effeithiau sylweddol newydd neu wahanol ar yr amgylchedd i'r rhai a amlygwyd yn yr ES.
Q1.19.20	<i>DCO – Erthyglau</i> Ymgwymerwyr Statudol Perthnasol	<ul style="list-style-type: none"> Byddai'r ExA yn gofyn i Ymgwymerwyr Statudol perthnasol am eu sylwadau ynglŷn â datgymhwyso'r darpariaethau a amlinellir yn Erthygl 8(1) y DCO drafft, a oedd yn ymwneud â'r pwerau i wneud is-ddeddfau o dan Ddeddf Adnoddau Dŵr 1991 a'r pwerau i wneud is-ddeddfau, gwahardd rhwystrau, ac ati, mewn cyrsiau dŵr ac awdurdodi gwaith draenio mewn cysylltiad â ffos o dan Ddeddf Draenio Tir 1991.
Q1.19.21	<i>DCO – Erthyglau</i> Yr Ymgeisydd	<ul style="list-style-type: none"> Erthygl 9 – Dyma'r tro cyntaf i'r talfyriad CEMP gael ei ddefnyddio yn y DCO drafft ac ni roddwyd esboniad o'r term cyn hynny. Diffiniwch ef yn Erthygl 2 (Dehongli) a gwiriwch weddill y DCO drafft am unrhyw dalfyriadau eraill a ddefnyddiwyd ac na ddiffiniwyd mewn man arall.
Q1.19.22	<i>DCO – Erthyglau</i> Yr Ymgeisydd	<ul style="list-style-type: none"> Erthygl 10 (Gwaith stryd) <ul style="list-style-type: none"> i) Mae'r EM ym mharagraff 4.48-9 yn datgan bod "<i>geiriad tebyg</i>" mewn DCOs eraill, a nodir y DCOs a restrir fel enghreifftiau. Fodd bynnag, gan fod DCO Piblinell Southampton i Lundain 2020 yn DCO piblinell hefyd, byddai'r ExA yn gofyn i'r Ymgeisydd esbonio sut a pham mae Erthygl 10 y DCO arfaethedig yn wahanol i DCO Piblinell Southampton i Lundain a DCOs piblinell eraill cyfatebol. ii) Mae'r Erthygl yn cyfeirio at Atodlen 3, Rhan 1 (strydoedd sy'n destun gwaith stryd). Fodd bynnag, mae Atodlen 3, Rhan 1 yn cyfeirio at (...waith stryd parhaol). Adolygwch y ddogfen gyfan i sicrhau cysondeb, gan ddiwygio fel y bo'r angen. (e.e. Erthygl 12(1)(a) a (b)).
Q1.19.23	<i>DCO – Erthyglau</i> Awdurdodau Lleol Perthnasol/ Ymgwymerwyr Statudol	<ul style="list-style-type: none"> Erthygl 10 (Gwaith stryd) <p>Mae Erthygl 10(5) yn cyfeirio at ganlyniadau methiant i roi gwybod i'r ymgwymerwr (yr Ymgeisydd/ datblygwr) am benderfyniad o fewn cyfnod penodol o amser. Yn yr achos hwn, mae'n 42 diwrnod, ond mae rhai achosion o 28 diwrnod (gweler Erthyglau 19(9) a 21(7)). Mae'r angen i roi penderfyniad o fewn cyfnod penodol, a chanlyniadau peidio â gwneud hynny, yn digwydd drwy gydol y DCO drafft yn gyffredinol (e.e. Erthyglau 11(5), 14(7), 18(7), ac ati). Byddai'r ExA yn gofyn p'un a yw'r Awdurdodau Lleol</p>

ExQ1: 27 Mawrth 2023**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Terfyn Amser 1: Dydd Llun 17 Ebrill 2023**

ExQ1	Cwestiwn ar gyfer:	Cwestiwn:
		<p>Perthnasol/ Ymgwymerwyr Statudol yn fodlon â'r terfynau amser a nodwyd ac, os na, pa ddewis amgen fyddai'n cael ei ystyried yn dderbyniol?</p> <p>Yn ogystal â'r uchod, o ran yr holl Erthyglau sy'n mynegi canlyniad ar gyfer methiant i roi gwybod, byddai'r ExA yn gofyn p'un a ddylai erthyglau o'r fath hefyd nodi'r weithdrefn i'w dilyn os bydd yr Awdurdod Lleol Perthnasol/ Ymgwymerwr Statudol yn gwneud penderfyniad negyddol a dderbynnir gan yr ymgwymerwr o fewn y cyfnod perthnasol? A ddylai fod rhyw fath o groesgyfeirio i Erthygl 47 (Gofynion, Apeliadau, ac ati) ac Atodlen 2, Rhan 2, ac ati, y DCO drafft, er enghraifft? Os na, esboniwrch eich rhesymau'n llawn.</p>
Q1.19.24	<i>DCO – Erthyglau</i> Yr Ymgeisydd	<ul style="list-style-type: none"> • Erthygl 11 (Pŵer i newid gosodiad, ac ati, strydoedd): <ul style="list-style-type: none"> i) Erthygl 11(1) – Gwiriwch y cyfeiriadau at rifau'r colofnau yn yr Erthygl hon, oherwydd eu bod yn ymddangos yn anghyson â rhifau'r colofnau yn yr Atodlen a'r Rhan gysylltiedig. ii) Yn ogystal â'r uchod, gwiriwch weddill y DCO drafft o ran croesgyfeirio rhifau'r colofnau a nodir mewn Erthygl â'r rhifau colofnau cyfatebol yn yr atodlen i sicrhau cysondeb drwy gydol y ddogfen; ac iii) Mae'r pŵer yn Erthygl 11(2) yn eang ac yn berthnasol i unrhyw stryd, gan gynnwys y tu allan i Derfynau'r Gorchymyn, ac i restr helaeth o waith posibl. Dylai'r sail resymegol i hyn gael ei hesbonio yn yr EM, ond mae'n ymddangos ei bod ar goll. Darparwch y sail resymegol sydd ar goll neu cyfeiriwch yr ExA at leoliad y sail resymegol yn nogfennau'r Cais a gyflwynwyd. iv) Mae Erthygl 11(2)(h) yn cynnwys 'a' diangen. Yn ogystal, adolygwch yr atalnodi yn Erthygl 11(2) yn gyffredinol a thrwy gydol y DCO drafft (h.y. gweler Erthygl 15(2), 30(6)(b) a 32(5)(b)).
Q1.19.25	<i>DCO – Erthyglau</i> Yr Ymgeisydd	<ul style="list-style-type: none"> • Erthygl 12 (Cymhwysio Deddf 1991) – Mae'r pwerau yn yr Erthygl hon 11(2) yn eang a dylai'r sail resymegol iddynt gael ei hesbonio yn yr EM, ond mae ar goll. Darparwch y sail resymegol sydd ar goll neu cyfeiriwch yr ExA at leoliad y sail resymegol yn nogfennau'r Cais a gyflwynwyd.

ExQ1: 27 Mawrth 2023**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Terfyn Amser 1: Dydd Llun 17 Ebrill 2023**

ExQ1	Cwestiwn ar gyfer:	Cwestiwn:
Q1.19.26	<i>DCO – Erthyglau</i> Yr Ymgeisydd	<ul style="list-style-type: none"> Erthygl 13 (Cyfyngiadau dros dro ar hawliau tramwy cyhoeddus) - Erthygl 13(5) – Adolygwch gan gadw llygad am eiriad diangen a diwygiwch, os oes angen.
Q1.19.27	<i>DCO – Erthyglau</i> Yr Ymgeisydd	<ul style="list-style-type: none"> Erthygl 14 (Cyfyngu ar ddefnyddio strydoedd dros dro): <ul style="list-style-type: none"> i) Mae Erthygl 14(4) yn cyfeirio at Gynlluniau Gwaith, ond mae Atodlen 5 Colofn 3 yn nodi'r Cynlluniau Mynediad a Hawliau Tramwy. Gwiriwch ac eglurwch ba Gynlluniau y dylid cyfeirio atynt a diwygiwch fel y bo'r angen; ii) Erthygl 14(5)(a) – Dyma'r unig is-baragraff, felly pam mae wedi'i osod fel is-baragraff? Yn ogystal, a ddylai paragraff tebyg i Erthygl 14(5) gael ei gynnwys yn Erthygl 13 (Cyfyngiadau dros dro ar hawliau tramwy cyhoeddus); ac iii) Mae Erthygl 14(7) yn cyfeirio at '...gydsyniad o dan baragraff (5)(c)', ond nid oes paragraff o'r fath. Adolygwch a diwygiwch, os oes angen.
Q1.19.28	<i>DCO – Erthyglau</i> Yr Ymgeisydd	<ul style="list-style-type: none"> Erthygl 15 (Mynediad at waith) – Mae'n ymddangos bod yr ail gyfeiriad yn Erthygl 15(2) at '...paragraff (1)...' yn anghywir. Gwiriwch a diwygiwch, os oes angen.
Q1.19.29	<i>DCO – Erthyglau</i> Yr Ymgeisydd	<ul style="list-style-type: none"> Erthygl 17 (Defnyddio Ffyrdd Preifat) – Mae'r EM ym mharagraff 4.70 yn datgan "Nid yw'r erthygl hon yn creu hawl i'r ymgymwrwr eithrio defnyddwyr eraill..." Fodd bynnag, mae'r ExA yn pryderu y gallai'r pŵer yn Erthygl 17(1) gael yr effaith hon, mewn gwirionedd. Fel y cyfryw, byddai'r ExA yn gofyn i'r Ymgeisydd adolygu Erthygl 17(1) a'i diwygio, os oes angen.
Q1.19.30	<i>DCO – Erthyglau</i> Yr Ymgeisydd	<ul style="list-style-type: none"> Erthygl 18 (Rheoliadau traffig) ac Erthygl 20 (Cynnal a chadw gwaith draenio) – Mae'r pwerau yn yr Erthyglau hyn yn eang a dylai'r sail resymegol iddynt gael ei hesbonio yn yr EM, ond mae'n ymddangos ei bod ar goll. Darparwch y sail resymegol sydd ar goll neu cyfeiriwch yr ExA at leoliad y sail resymegol yn nogfennau'r Cais a gyflwynwyd.
Q1.19.31	<i>DCO – Erthyglau</i> Yr Ymgeisydd	<ul style="list-style-type: none"> Erthygl 21 (Awdurdod i arolygu ac ymchwilio'r tir) – Byddai'r Erthygl hon yn rhoi'r grym i gael mynediad i "unrhyw dir y gallai'r datblygiad arfaethedig effeithio arno" ac mae'n datgan mai dim ond 14 diwrnod o rybudd o flaen llaw y byddai angen ei roi. Dylai'r angen am bŵer eang o'r fath a byrder unrhyw gyfnod hysbysu gael ei esbonio'n glir yn

ExQ1: 27 Mawrth 2023**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Terfyn Amser 1: Dydd Llun 17 Ebrill 2023**

ExQ1	Cwestiwn ar gyfer:	Cwestiwn:
		yr EM. Byddai'r ExA yn gofyn am esboniad clir o'r fath ac i unrhyw gynsail a/ neu gyfiawnhad cyfreithiol gael ei nodi'n glir.
Q1.19.32	<i>DCO – Erthyglau</i> Yr Ymgeisydd/ Awdurdodau Lleol Perthnasol	<ul style="list-style-type: none"> • Erthygl 23 (Gwaredu gweddillion dynol) <ul style="list-style-type: none"> i) O ran Erthygl 23(2)(a), o ystyried hyd/ lled disgwylidig y Datblygiad Arfaethedig, sy'n cynnwys y terfynau gwyro, byddai'r ExA yn gofyn p'un a fyddai'n briodol cynnwys y Rhif(au) Gwaith lle y daethpwyd o hyd i weddillion dynol o'r fath mewn unrhyw hysbysiad o'r fath. Os na, esboniwch y rhesymau pam. ii) O ran Erthygl 23(2)(b), a ddylai hyn fynnu bod yr hysbysiad yn cael ei arddangos mewn man amlwg ar neu gerllaw tir y Gorchymyn sy'n agos i'r man lle y daethpwyd ar draws y gweddillion dynol? iii) Erthygl 23(3) – Pa mor hir yw 'rhesymol ymarferol'? Eglurwch a diwygiwch, os oes angen.
Q1.19.33	<i>DCO – Erthyglau</i> Yr Ymgeisydd	<ul style="list-style-type: none"> • Erthygl 24 (Caffael tir yn orfodol) – Yn yr Erthygl hon ac Erthyglau dilynol, mae'n ymddangos bod dilyniant rhifau'r Erthyglau ym mhrif gorff y testun wedi mynd o chwith (h.y. mae Erthygl 24(2) yn cyfeirio at Erthyglau 25 a 34, ond fe ddylai fod yn cyfeirio at Erthyglau 26 a 35, yn y drefn honno). Adolygwch yr holl gyfeiriadau o'r fath ym mhrif gorff y testun ym mhob Erthygl i sicrhau eu bod wedi'u cyfeirnoddi'n gywir a diwygiwch nhw, os oes angen.
Q1.19.34	<i>DCO – Erthyglau</i> Yr Ymgeisydd	<ul style="list-style-type: none"> • Erthygl 26 (Caffael hawliau yn orfodol a chyfamodau cyfyngu) – Mae Erthygl 26(3) a (4) yn croesgyfeirio i Atodlen 9 y DCO drafft. Fodd bynnag, nid yw teitl Atodlen 9 yn cynnwys y geiriad "a gosod cyfamodau cyfyngu". Gwiriwch a diwygiwch, os oes angen.
Q1.19.35	<i>DCO – Erthyglau</i> Yr Ymgeisydd	<ul style="list-style-type: none"> • Erthygl 27 (Awdurdod statudol i drechu hawddfrait a hawliau eraill) ac Erthygl 29 (Hawliau preifat) – Mae Erthygl 29 yn ymdrin ag atal hawliau preifat dros dro, tra bod Erthygl 27 yn rhoi'r pŵer i ymyrryd â hawddfrentiau, ac ati. Mae'r ExA yn nodi Paragraff 4.106 yr EM (o ran Erthygl 29) lle mae'n nodi bod yr Ymgeisydd yn credu bod hawliau preifat yn cynnwys hawddfrentiau ac na chynhaliwyd unrhyw ymchwiliadau manwl. Mae'r ExA yn gofyn pam mae angen i'r DCO gynnwys y ddwy Erthygl, gan nad yw'r rhesymeg yn glir yn yr EM, ac mae'n gofyn am esboniad ynglŷn â'r mater hwn.

ExQ1: 27 Mawrth 2023**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Terfyn Amser 1: Dydd Llun 17 Ebrill 2023**

ExQ1	Cwestiwn ar gyfer:	Cwestiwn:
		Mae'r ExA hefyd yn gofyn pa ymdrechion y mae'r Ymgeisydd wedi'u gwneud i ymchwilio i'r hawliau a'r hawddfreintiau hyn ac ymgynghori â'r Partïon yr Effeithir Arnynt.
Q1.19.36	<i>DCO – Erthyglau</i> Yr Ymgeisydd	<ul style="list-style-type: none"> • Erthygl 34 (Defnyddio tir dros dro i gynnal y datblygiad awdurdodedig) ac Erthygl 35 (Defnyddio tir dros dro i gynnal a chadw'r datblygiad arfaethedig) – <ul style="list-style-type: none"> i) Erthygl 34(1)(a)(ii) – a ddylai'r is-baragraff hwn fod yn nodi colofnau (1) a (2) yn Rhan 2 Atodlen 7? Byddai'r ExA yn gofyn p'un a ddylai fod yn cyfeirio at golofnau (3) a (4) yn lle hynny? ii) Mae Erthygl 34(1)(e) yn rhoi'r grym i adeiladu gwaith parhaol ar y tir dan sylw. Mae'r ExA yn gofyn i'r Ymgeisydd gyfiawnhau pam y byddai Erthyglau 34(1) yn dod o fewn yr Erthygl hon sy'n ymwneud â defnydd dros dro, pan fo angen gwaith parhaol a pham na cheisir CA llawn o'r tir. Darparwch esboniad ysgrifenedig llawn, sy'n rhoi cynsail gyfreithiol ar gyfer rhoi pŵer o'r fath fel TP. iii) Mae'r ExA yn nodi er bod mwyafrif y tir y gellid cael TP drosto yn ystod adeiladu'r datblygiad awdurdodedig wedi'i restru yn Atodlen 7, bod Erthygl 34(1)(a)(iii) yn ymestyn y pŵer hwn yn fwy eang i unrhyw ran arall o Dir y Gorchymyn. Mae'r un peth yn berthnasol i Erthygl 35(1)(a) o ran cynnal a chadw. Mae'r ExA yn gofyn i'r Ymgeisydd gyfiawnhau pam y dylai Erthygl 34(1)(a)(iii) a 35(1)(a) ganiatáu pwerau mor eang. Mae'r ExA yn gofyn pa gamau a gymerwyd i rybuddio'r holl dirfeddianwyr/ meddianwyr tir o fewn Terfynau'r Gorchymyn am y posibilrwydd hwn. iv) Erthygl 34(3)(a) – mae'r is-baragraff hwn yn cyfeirio at Golofn (4) Atodlen 7, ond nid yw'n egluro p'un a yw'n cyfeirio at Ran 1 neu Ran 2 Atodlen 7, neu'r ddwy. Eglurwch a diwygiwch, fel y bo'r angen. v) Mae Erthygl 34(3) yn datgan 'Mae'n rhaid i'r ymgymerwr beidio â... chadw meddiant ar unrhyw ran o'r tir...', ond yna mae'n pennu cyfnodau penodol mewn perthynas â'r tir a nodir ym mharagraffau (1)(a)(i) ac (1)(a)(iii) yr Erthygl. Byddai'r ExA yn gofyn a oes angen pennu cyfnod penodol o ran y tir a nodir ym mharagraff (1)(a)(ii) yr Erthygl hon? vi) Byddai'r ExA yn gofyn pam nad oes paragraff tebyg i Erthygl 35(2) wedi cael ei gynnwys yn Erthygl 34?

ExQ1: 27 Mawrth 2023**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Terfyn Amser 1: Dydd Llun 17 Ebrill 2023**

ExQ1	Cwestiwn ar gyfer:	Cwestiwn:
		<p>vii) A ddylai paragraffau gael eu mewnosod yn Erthyglau 34 a 35 sy'n datgan:</p> <p>a) nad oes unrhyw beth yn Erthyglau 34 a 35 sy'n atal cymryd TP fwy nag unwaith?</p> <p>b) na fydd unrhyw anghydfod ynglŷn â gwaredu gwaith dros dro ac adfer tir yn foddhaol yn atal yr ymgymwr rhag ildio meddiant o'r tir?</p> <p>viii) A ddylai Erthyglau 34 a 35 groesgyfeirio i atal 'Adfer Ddwywaith', fel yr amlinellir yn Erthygl 46?</p> <p>Adolygwch (i) i (viii) uchod, gan ymateb i'r cwestiynau a godwyd a diwygio'r DCO a'r EM, os oes angen.</p>
Q1.19.37	<i>DCO – Erthyglau</i> Yr Ymgeisydd	<ul style="list-style-type: none"> Mae Erthygl 35 (Defnyddio tir dros dro i gynnal a chadw'r datblygiad arfaethedig) is-baragraff (11) yn datgan: <i>"Yn yr erthygl hon, "y cyfnod cynnal a chadw" mewn perthynas ag unrhyw ran o'r datblygiad awdurdodedig yw'r cyfnod ar ôl cwblhau'r rhan honno o'r datblygiad awdurdodedig hyd nes bod datgomisiynu'n dechrau."</i> <p>Nodir mai rychwant oes weithredol dybiedig y Datblygiad Arfaethedig yw 25 mlynedd, er y cydnabyddir hefyd y gallai'r seilwaith piblinell fod yn weithredol am hyd at 40 mlynedd. Fel y cyfryw, esboniwch sut y gellir ystyried bod y defnyddiau cynnal a chadw a sicrhau trwy'r Erthygl hon yn ddefnydd dros dro o dir a pham na fyddai'n gyfystyr â chaffael tir yn barhaol. Wrth ymateb, amlinellwch unrhyw gynseiliau cyfreithiol a rhowch farn gyfreithiol ynglŷn â'r mater hwn.</p>
Q1.19.38	Yr Ymgeisydd	<ul style="list-style-type: none"> Erthygl 39 (Torri neu docio coed a chael gwared ar wrychoedd) ac Atodlen 11 (Cael gwared ar wrychoedd) – <p>i) Nid yw'r ExA yn credu ei bod yn glir p'un ai'r gwrychoedd yr ymdrinnir â nhw yn Atodlen 11 yw'r holl rai y mae'r Ymgeisydd yn ceisio pŵer i'w gwaredu. Mae Rhan 2 yn cyfeirio ar "wrychoedd pwysig" ond mae'n wag ar hyn o bryd. Eglurwch, os gwelwch yn dda.</p> <p>ii) Fel y mae wedi'i llunio ar hyn o bryd, nid yw Erthygl 39 yn cyfeirio at Atodlen 11, felly mae'n ymddangos ei bod yn 'atodlen rydd'. Felly, dylai Erthygl 39 gael ei diwygio i fynd i'r afael â'r mater hwn.</p>

ExQ1: 27 Mawrth 2023**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Terfyn Amser 1: Dydd Llun 17 Ebrill 2023**

ExQ1	Cwestiwn ar gyfer:	Cwestiwn:
		<p>iii) Mae paragraff 4.138 yr EM yn datgan bod Erthygl 39 yn awdurdodi cael gwared ar unrhyw wrych fel y'i diffinnir yn Rheoliadau Gwrychoedd 1997. Fodd bynnag, heb ddarpariaeth benodol neu ddiffiniad penodol i'r perwyl hwn, nid dyna'r achos fel y mae wedi'i lunio ar hyn o bryd. Fel y cyfryw, byddai'r ExA yn gofyn am eglurder ynglŷn â ph'un a yw'r Ymgeisydd yn ceisio pŵer i gael gwared ar wrychoedd yr ymdrinnir â nhw gan Atodlen 11 yn unig, neu gael gwared ar unrhyw wrych o fewn Terfynau'r Gorchymyn, fel yr amlinellir ar hyn o bryd yn Erthygl 39(4)? Diwygiwch yr EM hefyd, os oes angen.</p> <p>iv) O dan baragraff (4), mae testun sy'n dechrau gydag "Yn yr Erthygl hon..." yn ymddangos. A ddylai'r testun hwn gael ei farcio'n Baragraff (5)? Adolygwch a diwygiwch, os oes angen.</p>
Q1.19.39	<i>DCO – Erthyglau</i> Yr Ymgeisydd	<ul style="list-style-type: none"> Erthygl 40 (Coed sy'n destun TPO) – Byddai'r ExA yn gofyn i'r Ymgeisydd egluro pam mae angen yr Erthygl hon pan fo'r Aseiad o'r Effaith ar Goedyddiaeth a gyflwynwyd ([APP-115] ac [APP-116]) yn nodi nad oes TPO ar hyd llinell y llwybr, o fewn terfynau'r Gorchymyn.
Q1.19.40	<i>DCO – Erthyglau</i> Yr Ymgeisydd	<ul style="list-style-type: none"> Erthygl 41 (Hawliau'r Goron) – Mae paragraff 4.140 yr EM yn datgan bod yr Erthygl hon yn adlewyrchu termau Adran 135 PA2008. Fel y cyfryw, os yw'n adlewyrchu'r Adran hon, byddai'r ExA yn gofyn pam mae'r Erthygl yn angenrheidiol. At hynny, ar ôl adolygu'r Erthygl yn erbyn yr Adran, byddai'r ExA yn herio p'un a yw'n adlewyrchiad gwirioneddol o'r Adran honno. Ymhelaethwch ar yr esboniad yn yr EM ynglŷn â pham mae'r Erthygl hon yn angenrheidiol a sut mae'n adlewyrchu Adran 135 PA2008. <p>Os cedwir yr Erthygl hon heb ei newid, byddai'r ExA yn tynnu eich sylw at y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> i) Mae Erthygl 41(2) yn cyfeirio at gaffael buddiant mewn unrhyw ran o dir y Goron yn orfodol ac yna'n datgan, "fel y diffinnir yn Neddf 2008". Mae'r ExA o'r farn y dylai hyn fod yn fwy penodol a rhestru'r adrannau perthnasol o'r Ddeddf honno. Adolygwch a diwygiwch, os oes angen. ii) Mae'r ExA yn gofyn p'un a ddylai fod paragraff sy'n atal y datblygiad awdurdodedig rhag dechrau hyd nes y sicrhawyd cytundeb gan yr Ysgrifennydd Gwladol

ExQ1: 27 Mawrth 2023**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Terfyn Amser 1: Dydd Llun 17 Ebrill 2023**

ExQ1	Cwestiwn ar gyfer:	Cwestiwn:
		<p>perthnasol/ yr Adran berthnasol o'r Llywodraeth, ac ati, i ddefnyddio ei dir/ ei thir ar gyfer y datblygiad awdurdodedig.</p> <p>Adolygwch i) a ii) uchod a diwygiwch, os oes angen.</p>
Q1.19.41	<i>DCO – Erthyglau</i> Yr Ymgeisydd	<ul style="list-style-type: none"> • Mae Erthygl 42 (Darpariaethau Amddiffynnol) yn cyfeirio at Atodlen 10, ond byddai'r ExA yn gofyn i'r Ymgeisydd fod yn fwy penodol trwy ychwanegu'r geiriad 'i'r Gorchymyn', fel bod y testun yn datgan 'Mae Atodlen 10 (darpariaethau amddiffynnol) i'r Gorchymyn mewn grym.' Croesewir unrhyw eiriad amgen a fyddai'n cael yr un effaith, wrth gwrs.
Q1.19.42	<i>DCO – Erthyglau</i> Yr Ymgeisydd	<ul style="list-style-type: none"> • Erthygl 44 (Ardystio cynlluniau, ac ati) – <ul style="list-style-type: none"> i) Mae'r Cynlluniau Tir y Goron (Erthygl 44(1)(b)) a'r Cynlluniau Tir Categori Arbennig (Erthygl 44(1)(c)) yn nodi eu bod yn cynnwys cynllun allwedd a dalenni 1-37 yn gynwysedig. Fodd bynnag, mae'r Cynlluniau Tir y Goron [APP-009], fel y'u cyflwynwyd, yn cynnwys cynllun allwedd a dalenni rhif 1/37, 2/37, 5/37, 6/37, 7/37, 8/37, 9/37, 17/37, 18/37, 19/37 a 22/37 yn unig; ac mae'r Cynlluniau Tir Categori Arbennig [APP-014] yn cynnwys un cynllun yn unig (Lluniad Rhif: EN070007-D.2.6-LP-Sheet 1). Adolygwch a diwygiwch, os oes angen. ii) Mae Erthygl 44(1)(m) yn cyfeirio at y 'cynllun ysgrifenedig ymchwiliad archaeolegol amlinellol', ond mae cyfeirnod y ddogfen yn wag. Mae dogfen ag enw tebyg, ond nid yn union yr un fath, wedi cael ei gyflwyno i'r Archwiliad (Dogfen 6.5.2 'Cynllun Ymchwilio Ysgrifenedig Archaeolegol Amlinellol) [APP-223]. Eglurwch a yw'r dogfennau y cyfeirir atynt yr un fath neu'n wahanol. Os ydynt yn wahanol, pryd gall yr ExA ddisgwyl i'r ddogfen honno gael ei chyflwyno i'r Archwiliad? iii) Byddai'r ExA yn gofyn pam nad yw'r cynlluniau trefniant cyffredinol, fel y'u diffinnir yn Erthygl 2 ac a ailadroddir yn Erthygl 44(1)(e), yn cynnwys y Cynlluniau Lleoliad ar gyfer y BVSs (Cyfeirnod Dogfen D.2.7) [APP-015] a'r AGIs (Cyfeirnod Dogfen D.2.10) [APP-018]. Eglurwch, os gwelwch yn dda.
Q1.19.43	<i>DCO – Atodlenni</i> Yr Ymgeisydd	<ul style="list-style-type: none"> • Atodlen 1 – Rhan 1 (Datblygiad awdurdodedig) –

ExQ1: 27 Mawrth 2023**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Terfyn Amser 1: Dydd Llun 17 Ebrill 2023**

ExQ1	Cwestiwn ar gyfer:	Cwestiwn:
		<ul style="list-style-type: none">i) Mae'r Rhifau Gwaith sy'n cynnwys yr AGIs (Rhifau Gwaith 1, 9, 45 a 48) ychydig yn wahanol i'w gilydd (h.y. mae Rhifau Gwaith 1 a 45 yn cyfeirio at gyfleusterau lansio PIG, tra bod Rhifau Gwaith 9 a 48 yn cynnwys cyfleusterau lansio a derbyn PIG; mae gan Rhifau Gwaith 9, 45 a 48 falfiau ynysu, ond nid Rhif Gwaith 1; mae gan Rhif Gwaith 9 system amddiffyn gwasgedd dwysedd uchel, ond nid felly Rhifau Gwaith 1, 45 a 48, ac ati).ii) Mae Rhifau Gwaith 1 a 9 yn cyfeirio at 'gynnwys offer ar gyfer rheoli'r datblygiad awdurdodedig', ond nid yw Rhifau Gwaith 45 a 48 yn cynnwys cyfeiriad at y 'Datblygiad Awdurdodedig'.iii) Mae'r Rhifau Gwaith sy'n cynnwys y BVSs (Rhifau Gwaith 20, 26, 36, 51, 53 a 55) yn amrywio ychydig yn yr ystyr bod rhai'n cyfeirio at 'leoliad dangosol' (Rhifau Gwaith 26 a 53) tra bod y lleill yn cyfeirio at 'leoliad' yn unig. Nid oes unrhyw beth ar y Cynllun Lleoliad BVS a gyflwynwyd (Cyfeirnod Dogfen D.2.7)[APP-015] sy'n awgrymu bod lleoliadau Rhifau Gwaith 26 a 53 yn ddangosol.iv) Mae Rhif Gwaith 23B wedi'i gynnwys yn Atodlen 1 Rhan 1, ond mae Rhif Gwaith 23A wedi'i restru ddwywaith, er ei bod yn amlwg eu bod yn ymwneud â dau Rif Gwaith gwahanol.v) Mae fformat y rhan fwyaf o'r disgrifiadau sy'n ymwneud â phob Rhif Gwaith yn cadarnhau pa rif dalen Cynllun Gwaith y mae'r Rhifau Gwaith wedi'u manylu arnynt. Fodd bynnag, nid yw hyn yn digwydd ym mhob achos (h.y. Rhifau Gwaith 5C, 13A, 23B, 29A, ac ati). Yn ogystal, mae amryw anghysondebau ar draws y Rhifau Gwaith lle mae rhai cynlluniau Rhif Gwaith naill ai wedi'u cynnwys lle y dylent fod neu fel arall.vi) Mae angen i'r ExA fod yn glir bod yr hawliau a ganiateir gan y DCO yn ddilys, yn gymesur, ac yn angenrheidiol. Yn hyn o beth, ac ar ôl adolygu'r Rhifau Gwaith sydd wedi'u cynnwys yn Atodlen 1 y DCO drafft a'u cymharu â'r Cynlluniau Gwaith, byddai'r ExA yn ceisio, yn y lle cyntaf, eglurhad ynglŷn â maint y tir/ faint o dir y bwriedir iddo fod yn destun CA/ TP, yn enwedig o ran Rhifau Gwaith 20, 40A, 44B, 47B, 51 a 53. Sylwch nad yw'r rhestr hon yn hollgynhwysol a bydd yr ExA yn ceisio profi'r hawliau CA/ TP a geisir drwy gydol yr Archwiliad er mwyn sicrhau eu bod yn ddilys, yn gymesur, ac yn angenrheidiol.

ExQ1	Cwestiwn ar gyfer:	Cwestiwn:
		<p>vii) Nid yw Rhif Gwaith 57F wedi'i ddangos ar y Cynlluniau Gwaith ([APP-010] ac [APP-011]) (gweler dalen 5) ac mae Rhif Gwaith 57M yn ymddangos ddwywaith (gweler Dalen 20). O ran Rhif Gwaith 57M, byddai'r ExA yn holi p'un a ddylai fod Rhif Gwaith 57N?</p> <p>viii) Rhif Gwaith 57I. Byddai'r ExA yn holi p'un a yw'r cyfeiriad at '...i'r gorllewin o Church Lane' yn ddigon cywir at ddibenion lleoliadol a ph'un a fyddai cyfeiriad at 'Aston Hill' neu i'r dwyrain o Shotton Lane yn fwy priodol at ddibenion lleoliadol.</p>
Q1.19.44	<p><i>DCO – Atodlenni</i> Yr Ymgeisydd</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Atodlen 2 (Gofynion) – Adolygwch ac ymatebwch i'r cwestiynau isod a diwygiwch, fel y bo'r angen: <ul style="list-style-type: none"> i) Cadarnhewch fod yr Ymgeisydd wedi ymgysylltu â'r awdurdodau rhyddhau, yn unol â'r canllawiau a gynhwysir yn Nodyn Cyngor 15 (gweler paragraff 19.2). ii) Mae'r ExA o'r farn bod y manylion am Ofynion yn denau yn yr EM, yn enwedig o ran priodoldeb a pherthnasedd y gofynion a restrir i'r cynllun penodol hwn. Mae cynseiliau blaenorol wedi cael eu nodi (er y'u disgrifir fel "geiriad tebyg" yn unig yn hytrach na geiriad unfath), ond ni esbonnir eu tebygrwydd i'r cynllun hwn. Yn ogystal, mae'r EM yn datgan bod llawer o'r gofynion wedi'u seilio ar (hen) ddarpariaethau enghreifftiol, ond nid yw'n esbonio pam y gwnaed newidiadau nac yn rhoi cyfiawnhad dros gynnwys y Gofyniad. Enghraifft o hyn yw Gofyniad 8 lle na roddwyd unrhyw gyfiawnhad yn yr EM. iii) Mae Atodlen 2 (Gofynion) yn cyfeirio at Erthygl 3 ar frig ochr dde'r dudalen gyntaf. Dylai hyn gyfeirio at Erthygl 43. iv) Drwy gydol y Gofynion, mae'n ymddangos bod termau fel 'cynnal', 'adeiladu' a 'gweithredu' yn cael eu defnyddio i olygu'r un peth. Byddai'r ExA yn gofyn am gysondeb a bod y defnydd o dermau o'r fath yn cael ei adolygu a, lle y bo'n bosibl, bod y term 'gweithredu' neu amrywiad arno yn cael ei ddefnyddio. v) Yn ogystal â iv) uchod, mae'r ExA yn pryderu, ym mwyafrif yr achosion, nad yw'n ymddangos bod unrhyw elfen yn y Gofynion sy'n caniatáu i'r hyn a sicreir gael ei gynnal fel y'i cymeradwywyd wedi hynny ar hyd oes y Datblygiad Awdurdodedig neu am ba gyfnod amgen bynnag.

ExQ1: 27 Mawrth 2023**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Terfyn Amser 1: Dydd Llun 17 Ebrill 2023**

ExQ1	Cwestiwn ar gyfer:	Cwestiwn:
		<ul style="list-style-type: none">vi) Defnyddir y gair 'sylweddol' sawl gwaith. Gweler Gofynion 5, 10 ac 11 am enghreifftiau. Byddai'r ExA yn gofyn a fyddai defnydd o'r gair hwn yn fanwl gywir, er mwyn eglurder.vii) Gofyniad 1 (Dehongli) – mae'r gair 'modd' ar goll o "CTMP".viii) Nodir Gofyniad 3 (Camau'r datblygiad awdurdodedig) a Gofyniad 4 (Dyluniad y Cynllun), ac felly hefyd Gofyniad 19 sy'n ymwneud â cheisiadau a wnaed i Awdurdod Lleol perthnasol. Fodd bynnag, byddai'r ExA yn gofyn am eglurder ynglŷn â ph'un a oes angen i'r Gofynion hyn, a Gofynion eraill tebyg, gael eu cyflwyno i'r Awdurdod Lleol Perthnasol fel Cais ac felly'n ddarostyngedig i'r gweithdrefnau a amlinellir yn Rhan 2 (Ceisiadau a wnaed o dan ofynion) Atodlen 2 y DCO drafft. Mae'r pryder hwn yn codi oherwydd bod geiriad y Gofynion yn wahanol i Ofynion eraill, fel Gofyniad 5 lle mae'n cyfeirio'n benodol at '...gymeradwyaeth yr awdurdod cynllunio perthnasol...'ix) A ddylai Gofyniad 6 gynnwys croesyfeiriad i'r mesurau lliniaru perthnasol a nodir yn y REAC?x) Nodir Gofyniad 7(3). Fodd bynnag, byddai'r ExA yn gofyn pa mor hir fyddai'r cyfnod ymgynghori a sut byddai hyn yn cyd-fynd â'r graddfeydd amser a nodir yng Ngofyniad 19(1) o ran hysbysu am benderfyniad.xi) Gofyniad 8 (Draenio dŵr wyneb) – Byddai'r ExA yn gofyn pam mae Rhifau Gwaith 36 a 55 wedi'u heithrio pan fo'r BVSs hyn yn ymddangos fel petaent yn cynnig draenio dŵr wyneb?xii) A oes angen Gofyniad ynglŷn â draenio dŵr budr, yn enwedig o ran cyfadeiladau adeiladu a logistaidd dros dro a safleoedd adeiladu AGIs/ BVS?xiii) Gofyniad 9 (Tir a dŵr daear halogedig) – Nodir y gofyniad hwn, ond byddai'r ExA yn gofyn p'un a ddylai'r gwaith o fewn yr ardal lle y deuir ar draws halogiad ddod i ben tra bo'r mater yn cael ei ymchwilio a'i adrodd, a pha raddfeydd amser sy'n cael eu cynnwys yn y gwahanol elfennau o'r Gofyniad hwn (h.y. Pryd mae'n rhaid adrodd i'r Awdurdod Cynllunio Perthnasol am ddod o hyd i halogiad; Pryd mae angen cwblhau ymchwiliad ac asesiad risg; ac ati)xiv) Gofyniad 12 (Arolygon ecolegol) – Beth fydd yn digwydd os canfyddir bod EPS yn bresennol?

ExQ1: 27 Mawrth 2023**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Terfyn Amser 1: Dydd Llun 17 Ebrill 2023**

ExQ1	Cwestiwn ar gyfer:	Cwestiwn:
		<p>xv) Gofyniad 13 (Oriau adeiladu) – Mae'r ExA yn nodi geiriad Gofyniad 13(1) a byddai'n gwneud y sylwadau canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none">a) mae'n ymddangos bod gweithio ar y penwythnos yn ddiymatal.b) Nid yw'n ymddangos bod y cyfeiriad at waith adeiladu'n digwydd rhwng 0800 a 1800 o'r gloch ar ddiwrnodau'r wythnos yn unig (heblaw am wyliau cyhoeddus a gwyliau banc) yn cyfyngu ar weithio y tu allan i'r oriau hyn ar wyliau cyhoeddus neu wyliau banc. O ystyried a) a b), byddai'r ExA yn gofyn p'un a fwriedir gweithio ar y penwythnos ac, os felly, p'un a ddylai gwaith o'r fath gael ei gyfyngu; a beth a gynigir o ran gwyliau cyhoeddus a gwyliau banc?c) O ran Gofyniad 13(2), beth yw rhesymol ymarferol?ch) Mae Gofyniad 13(5) yn cynnwys diffiniad o 'weithgareddau anymwthiol', a fyddai'n cynnwys gweithgareddau na fyddent yn creu unrhyw olau, sŵn na dirgryniad canfyddadwy. Byddai'r ExA yn gofyn am ddiffiniad o'r gair 'canfyddadwy' a ph'un a ystyriwyd unrhyw fathau eraill o niwsans, fel arogleuon, mygdarthau, mwg, lludw huddygl, grut llwch, ac ati. <p>xvi) Gofyniad 14 (Sŵn gweithredol) – Mae'r teler 'preswylir ynddo'n gyfreithlon ar ddyddiad gwneud y Gorchymyn hwn' yn achosi peth pryder i'r ExA. Byddai'r ExA yn gofyn:</p> <p>xvii) Beth fydd yn digwydd o ran adeiladau cyfreithlon sydd wedi'u cynnwys yn Nhabl 15-24 sy'n wag ar ddyddiad gwneud y Gorchymyn? Er enghraifft, gallai'r eiddo fod yn wag tra'n disgwyl ei werthu neu ei rentu; yn ddibreswyl oherwydd bod y meddianwyr ar wyliau neu i ffwrdd am reswm arall; yn wag am unrhyw nifer o resymau cyfiawnadwy, ond yn gallu cael ei feddiannu'n gyfreithlon. Gyda hyn mewn golwg, sut byddai Gofyniad sy'n cynnwys y teler uchod yn orfodadwy, yn fanwl gywir ac yn rhesymol ym mhob ystyr arall? Er enghraifft, sut bydd yr Ymgeisydd neu'r Awdurdod Lleol Perthnasol yn dangos bod eiddo preswyl penodol yn cael ei 'breswyllo'n gyfreithlon' neu fel arall ar ddyddiad gwneud y Gorchymyn hwn?</p> <p>xviii) Mae Gofyniad 15 (Adfer tir) yn cyfeirio at 'brosiect awdurdodedig'. A ddylai hyn fod yn ddatblygiad awdurdodedig?</p>

ExQ1: 27 Mawrth 2023**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Terfyn Amser 1: Dydd Llun 17 Ebrill 2023**

ExQ1	Cwestiwn ar gyfer:	Cwestiwn:
		<p>xix) Gofyniad 16 (Ar ôl y CEMP) – Byddai'r ExA yn gofyn:</p> <ul style="list-style-type: none">d) p'un a oes rhaid i'r OMEMP gynnwys y gwaith monitro, cynnal a chadw gweithredol sy'n ofynnol gan yr OCEMP;dd) p'un a ddylai'r Gofyniad gyfeirio at y CEMP;e) p'un a ddylai datgomisiynu fod yn Ofyniad ynddo'i hun, yn hytrach na chael ei gyfuno â gofynion ôl-adeiladu;f) p'un a fyddai'r cyfnod lleiaf o 6 mis a nodir yng Ngofyniad 16(3) yn ddigonol o ran gwaith datgomisiynu;ff) pam nad yw'r Gofyniad hwn yn atal gwaith datgomisiynu rhag digwydd cyn unrhyw gymeradwyaeth ffurfiol gan yr Awdurdod Lleol Perthnasol;g) p'un a ddylai'r cynllun rheoli dymchwel sy'n ofynnol gan Ofyniad 16(4) gynnwys yr angen am: gynllun fesul cam ar gyfer unrhyw waith dymchwel a/ neu symud ymaith; amserlen ar gyfer gweithredu'r cynllun; a chynllun adfer tir ar gyfer unrhyw dir nad yw'n derbyn sylw gan Ofyniad 15.ng) p'un a ddylai Gofyniad 16(4) nodi bod rhaid i'r cynllun rheoli gwastraff gynnwys manylion sy'n ymwneud â gwaredu'r holl ddeunyddiau sy'n deillio o'r gwaith datgomisiynu o'r tir. <p>xx) A ddylai Gofyniad 19 nodi bod rhaid i Gais a wneir i awdurdod perthnasol gynnwys cadarnhad ynglŷn â ph'un a yw'n debygol y bydd testun y cais yn arwain at unrhyw effeithiau sylweddol newydd neu sylweddol wahanol ar yr amgylchedd i'r rheiny yn y datganiad amgylcheddol, ac, os felly, bod rhaid i'r Cais gynnwys gwybodaeth sy'n amlinellu beth yw'r effeithiau hynny.</p> <p>xxi) Gofyniad 20 (Awdurdodau perthnasol lluosog) – Byddai'r ExA yn gofyn beth fydd yn digwydd os na ddarperir sylwadau o fewn y cyfnod penodedig?</p> <p>xxii) Gofyniad 21 (Gwybodaeth ychwanegol) – Defnyddir y rhif '5' yn gyfnewidiol â'r gair 'pump'. Hefyd, y cyfeiriad at 'ddiwrnodau busnes' yw'r cyfeiriad cyntaf at derm o'r fath yn y gofyniad hwn ac mae'n ymddangos yn groes i'r term 'diwrnodau' a ddefnyddir mewn manau eraill yn y ddogfen. Adolygwch a diwygiwch fel y bo'r angen. Yn olaf, byddai'r ExA yn herio p'un a yw'r cyfnod a nodwyd ar gyfer ymatebion gan ymgylgoreion (h.y. o fewn 21 diwrnod o dderbyn y cais) yn ddigonol?</p>

ExQ1: 27 Mawrth 2023**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Terfyn Amser 1: Dydd Llun 17 Ebrill 2023**

ExQ1	Cwestiwn ar gyfer:	Cwestiwn:
		<p>xxiii) Gofyniad 22 (Ffioedd) - Byddai'r ExA yn gofyn:</p> <p>a) beth fydd yn digwydd os bydd newid i'r Rheoliadau Ffioedd?</p> <p>b) mae Gofyniad 22(1)(b) yn nodi ffi o £97 fesul cais. Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod hyn yn groes i'r Rheoliadau Ffioedd presennol.</p> <p>c) beth fydd yn digwydd os bydd anghydfod dilysu? (Gweler Erthygl 12 Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) 2015 (fel y'i diwygiwyd)</p> <p>xxiv) Gofyniad 23 (Apeliadau) – Dylai Gofyniad 23(1)(b) i (e), yn gynwysedig, ddatgan '23(1)(a)(i) i (iv). Yn ogystal, beth fydd yn digwydd os bydd unrhyw gais i ryddhau gofyniad yn arwain at unrhyw effeithiau sylweddol newydd neu sylweddol wahanol ar yr amgylchedd o gymharu â'r rhai hynny yn y datganiad amgylcheddol? A ddylai fod dull sy'n tybio bod y Cais hwnnw wedi cael ei wrthod gan yr awdurdod cynllunio perthnasol ar ddiwedd y cyfnod perthnasol?</p> <p>xxv) Mae Gofyniad 24(7) yn cyfeirio at Ganllawiau Ymarfer Cynllunio sydd wedi cael eu disodli. Adolygwch a diwygiwch, os oes angen.</p>
Q1.19.45	<i>DCO – Atodlenni</i> Yr Ymgeisydd	<ul style="list-style-type: none"> • Mae Atodlenni 3 i 6 y DCO drafft [APP-024] yn croesgyfeirio i lythrennau a rhifau sydd wedi'u marcio ar y Cynlluniau Mynediad a Hawliau Tramwy ([APP-012] ac [APP-013]). Fodd bynnag, nid yw'n ymddangos bod yr holl lythrennau a rhifau sydd wedi'u marcio ar y Cynlluniau Tir wedi'u cyfeirnodu'n gywir yn yr Atodlen uchod, ac nid yw'n ymddangos bod rhai wedi'u cyfeirnodu o gwbl. Er enghraifft, nid yw Rhan 1 Atodlen 3 y DCO drafft [APP-024] yn rhestru'r pwyntiau llythyren/ rhif sy'n gysylltiedig â rhifau gwaith: <ul style="list-style-type: none"> - 46 (Dalen 20) – pwyntiau llythyren/ rhif 20-F, 20-N ac 20-O; - 49 (Dalen 22) – pwyntiau llythyren/ rhif 22-G, 22-K a 22-L; neu - 50 (Dalen 50) – pwyntiau llythyren/rhif 25-A, 25-C a 25-D. <p>Mae'n ymddangos bod achosion tebyg yn digwydd mewn perthynas â Rhifau Gwaith: 54 (Dalenni 27 a 28); a 59 (Dalen 29).</p>

ExQ1: 27 Mawrth 2023**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Terfyn Amser 1: Dydd Llun 17 Ebrill 2023**

ExQ1	Cwestiwn ar gyfer:	Cwestiwn:
		Adolygwch y Cynlluniau Mynediad a Hawliau Tramwy ([APP-012] ac [APP-013]) a'r DCO drafft [APP-024] i sicrhau bod yr holl bwyntiau cyfeirio perthnasol ar y cynllun uchod yn cael eu cyfeirnodol'n gywir yn atodlenni perthnasol y DCO drafft [APP-024] ac fel arall.
Q1.19.46	<i>DCO – Atodlenni</i> Yr Ymgeisydd	<ul style="list-style-type: none"> Atodlen 3, Rhan 1 (Strydoedd sy'n destun gwaith stryd parhaol) – <ul style="list-style-type: none"> i) mae'r ail res o dan golofn 3 yn cyfeirio at Rif Gwaith X. Mae hyn hefyd yn digwydd yn: <ul style="list-style-type: none"> - Atodlen 3, Rhan 2 ar dudalen 75 yn y drydedd res gyflawn o dan golofn 3. ii) Nifer o achosion yn Atodlen 4, Rhan 1. Eglurwch, os gwelwch yn dda. <p>Adolygwch a diwygiwch, os oes angen.</p>
Q1.19.47	<i>DCO – Atodlenni</i> Yr Ymgeisydd	<ul style="list-style-type: none"> Teitl Atodlen 4, Rhan 1 yw 'Priffordd i'w chau na fwriedir darparu yn ei lle'. A yw'r teitl hwn yn gywir?
Q1.19.48	<i>DCO – Atodlenni</i> Yr Ymgeisydd	<ul style="list-style-type: none"> Atodlen 5, Colofn (3) – mae pob cofnod yn dechrau gydag 'I'w gadarnhau'. Eglurwch, os gwelwch yn dda.
Q1.19.49	<i>DCO – Atodlenni</i> Yr Ymgeisydd	<ul style="list-style-type: none"> Atodlen 6 – mae ail res colofn 3 yn cyfeirio at bwyntiau wedi'u marcio 3-A a 3-B ar ddalen 3 y cynllun mynediad a hawliau tramwy. Fodd bynnag, dim ond 3-A a ddangosir ar y cynllun hwn. Eglurwch, os gwelwch yn dda.
Q1.19.50	<i>DCO – Atodlenni</i> Yr Ymgeisydd	<ul style="list-style-type: none"> Atodlen 7: <ul style="list-style-type: none"> i) mae'n cyfeirio at Erthygl 33 ar frig yr ochr dde. Dylai hyn gyfeirio at Erthygl 34. ii) Rhan 1 (tudalen 87) – mae'r rhes olaf ond un yng Ngholofn (2) yn rhestru llain rhif 5-04 ddwywaith. iii) Rhan 1 (tudalen 89) – nid yw'n ymddangos bod Llain 15-02 wedi'i rhestru. iv) Rhan 1 (tudalen 90) – mae'r pum cofnod olaf yn dyblygu cofnodion a restrwyd eisoes.
Q1.19.51	<i>DCO – Atodlenni</i>	<ul style="list-style-type: none"> Atodlen 8 (Tir y gellid caffael hawliau, ac ati, newydd ynddo) – Byddai'r ExA yn herio'r dull eang a ddefnyddir mewn perthynas â chaffael hawliau newydd. Mae Colofn 2 yn

ExQ1: 27 Mawrth 2023**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Terfyn Amser 1: Dydd Llun 17 Ebrill 2023**

ExQ1	Cwestiwn ar gyfer:	Cwestiwn:
	Yr Ymgeisydd	cynnwys y rhestr o hawliau newydd a allai gael eu caffael o dan Erthygl 26. Fodd bynnag, mae'n hir iawn ac yn benagored. Mae'r ExA o'r farn y dylai'r Ymgeisydd nodi pa hawliau sy'n cael eu caffael, o ran pa leiniau, ar ffurf atodlen ychwanegol sy'n adlewyrchu'r wybodaeth a roddwyd yn y BoR. Adolygwch a diwygiwch, os oes angen.
Q1.19.52	<i>DCO – Atodlenni</i> Yr Ymgeisydd	<ul style="list-style-type: none"> Atodlenni 9 a 10 – Byddai'r ExA yn herio'r rhifau Erthyglau y cyfeirir atynt yn y gornel dde uchaf. Gwiriwch a diwygiwch, os oes angen.
Q1.19.53	<i>DCO – Atodlenni</i> Yr Ymgeisydd	<ul style="list-style-type: none"> Atodlen 11, Rhan [] ar dudalen 136. Mae angen ychwanegu'r rhif Rhan cywir ac mae'r holl feysydd yn y Rhan hon yn wag. Adolygwch a diweddarwch, fel y bo'r angen.
Q1.19.54	<i>DCO – Seilwaith priffyrdd</i> Yr Ymgeisydd	<ul style="list-style-type: none"> Mae NH [RR-064] wedi nodi y ceisir y Pwerau Gorfodol mewn perthynas â thir sy'n ffurfio rhan o'r SRN, sef yr M53 a'r M56, gan gynnwys caffael is-wyneb y ffordd gerbydau ei hun mewn dau leoliad lle mae'r biblinell yn croesi'r SRN. I ddiogelu buddiannau NH a diogelwch a chyfanrwydd yr SRN, mae NH yn gwrthwynebu cynnwys y Lleiniau yn y Gorchymyn a rhoi Pwerau Gorfodol mewn perthynas â nhw. Mae'r Lleiniau'n cynnwys tir a gaffaelwyd gan NH at ddiben ei ymgymeriad statudol ac, yn unol â hynny, gwneir y sylw hwn o dan adran 56 ac adrannau 127 a 138 PA2008. Mae NH o'r farn nad oes achos cymhellol er budd y cyhoedd ar gyfer y Pwerau Gorfodol ac na all yr Ysgrifennydd Gwladol, wrth gymhwyso adran 127 PA2008, ddod i'r casgliad y gellir caffael tir sy'n ffurfio'r SRN yn barhaol a chreu hawliau a chyfyngiadau newydd dros yr holl Leiniau heb achosi niwed difrifol i ymgymeriad NH. Nid oes unrhyw dir arall ar gael i NH i unioni'r niwed. Sut mae'r Ymgeisydd yn bwriadu unioni'r gwrthwynebiad o ran: (a) cynnwys darpariaethau amddiffynnol yn y Gorchymyn er ei fudd; a (b) cytundebau â'r Ymgeisydd sy'n rheoleiddio (i) y modd o gaffael hawliau dros y Lleiniau a gwneud y gwaith perthnasol, gan gynnwys telerau sy'n amddiffyn ymgymeriad NH a chytundeb na fydd pwerau caffael gorfodol yn cael eu harfer mewn perthynas â thir o'r fath; a (ii) cynnal gwaith yng nghyffiniau'r SRN i ddiogelu ymgymeriad statudol NH.
20.	Arall	
Q1.20.1	<i>Goleuo</i> IPs	<ul style="list-style-type: none"> Mae'r ExA yn nodi y gallai newidiadau i lefelau golau yn yr ardal uniongyrchol trwy oleuadau artiffisial yn ystod cyfnodau adeiladu neu weithredu dilynol newid amodau

ExQ1: 27 Mawrth 2023**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Terfyn Amser 1: Dydd Llun 17 Ebrill 2023**

ExQ1	Cwestiwn ar gyfer:	Cwestiwn:
		<p>amwynder ar gyfer eiddo cyfagos presennol a/ neu achosi effeithiau posibl ar fywyd gwyllt a'r amgylchedd lleol. O ystyried y cynllun yn ei gyfanrwydd:-</p> <p>A oes gan unrhyw IPs unrhyw bryderon ynglŷn â goleuadau yn ystod cyfnodau adeiladu arfaethedig, neu sy'n deillio o unrhyw elfen arall o'r cynllun?</p>
Q1.20.2	<p><i>Diogelwch</i> Yr Ymgeisydd/ yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch/ Awdurdodau Lleol Perthnasol (CWCC a FCC)</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Mae Sylw Perthnasol [RR-081] yn nodi bod y biblinell newydd a'r derfynell AGI yn Ince yn agos iawn i dir sy'n destun parth effaith Rheoli Peryglon Damweiniau Mawr (COMAH). <p>Yr Ymgeisydd Nodwch ba ymgynghoriad a gynhaliwyd gyda'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) a ph'un a yw'r HSE wedi darparu unrhyw gynlluniau safle sy'n dangos y Parthau HSE. (Sylwer: Mae'r ExA yn ymwybodol y gallai'r cyfryw gynlluniau fod wedi cael eu rhoi ar sail gyfrinachol ac nid yw'n gofyn iddynt gael eu cyflwyno ar yr adeg hon. Fodd bynnag, fe allai ofyn i'r cyfryw gynlluniau gael eu cyflwyno yn ystod yr archwiliad. Os gofynnir amdanynt, byddai hynny'n debygol o fod ar ffurf fersiwn gyhoeddus olygedig, ynghyd â fersiwn gyfrinachol heb ei golygu ar gyfer ystyriaeth yr ExA).</p> <p>Darparwch gopi o unrhyw ohebiaeth a dderbyniwyd oddi wrth yr HSE mewn perthynas â'r Datblygiad Arfaethedig hwn, heb gynnwys unrhyw gynlluniau y gallai'r HSE fod wedi'u cyflwyno'n gyfrinachol, neu gyfeirio'r ExA at ble y gellir dod o hyd i ohebiaeth o'r fath yn nogfennau'r cais a gyflwynwyd.</p> <p>Hefyd, cadarnhewch ba ddarpariaeth fyddai'n cael ei gwneud yn ystod y camau adeiladu a gweithredol i ddiogelu iechyd cyhoeddus y rhai hynny sy'n ymwneud ag adeiladu a gweithredu'r cyfleuster? Sut byddai darpariaeth o'r fath yn cael ei sicrhau gan y DCO?</p> <p>Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch/ Awdurdodau Lleol Perthnasol Cadarnhewch y canlynol:</p> <ol style="list-style-type: none"> i) b'un a yw'r Datblygiad Arfaethedig yn agos i unrhyw safle(oedd) Rheoli Peryglon Damweiniau Mawr dynodedig, ac, os felly, rhowch wybod i'r ExA am

ExQ1: 27 Mawrth 2023**Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Terfyn Amser 1: Dydd Llun 17 Ebrill 2023**

ExQ1	Cwestiwn ar gyfer:	Cwestiwn:
		<p>unrhyw bryderon a allai fod gennych ynglŷn â'r Datblygiad Arfaethedig a'i agoswydd i'r safleoedd hynny.</p> <p>ii) p'un a yw'r HSE wedi rhoi unrhyw sylwadau a/ neu gyngor ynglŷn â'r Datblygiad sy'n destun y Cais DCO hwn. (h.y. a yw'r HSE wedi cyhoeddi unrhyw lythyrau mewn perthynas â'r datblygiad a gynigir gan y Cais DCO hwn sy'n datgan 'Nid yw'n Cynghori yn Erbyn' neu ei fod 'Yn Cynghori yn Erbyn'). Os felly, cyflwynwch gopi o'r llythyr cyngor hwnnw i'r Archwiliad.</p>
Q1.20.3	<i>Rheoliadau Diogelwch Piblinell</i> Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch	<ul style="list-style-type: none">• Cadarnhewch b'un a yw'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch o'r farn:<ul style="list-style-type: none">i) y byddai cludo CO₂ fel y cynigir gan y Cais DCO hwn yn gyfystyr â chludo 'Hylif peryglus' fel y'i diffinnir yn Rheoliadau Diogelwch Piblinell 1996; acii) a fyddai/ na fyddai'r biblinell arfaethedig yn cael ei hystyried yn Biblinell Perygl Damweiniau Mawr gan yr un Rheoliadau.

ExQ1: 27 Mawrth 2023

Mae'n rhaid anfon ymatebion erbyn Terfyn Amser 1: Dydd Llun 17 Ebrill 2023

ATODIAD A

[Prosiect Piblinell CO2 HyNet]:

Rhestr o'r holl wrthwynebiadau i roi pwerau Caffael Gorfodol neu Feddiant Dros Dro.

Os amlygir buddiant newydd yn y tir, neu unigolyn Categori 3 newydd, dylai'r Ymgeisydd roi gwybod i'r unigolion hynny am eu hawl i wneud cais i ddod yn Barti â Buddiant o dan a102A PA2008.

Rhif y Gwrth h. ⁱ	Enw/ Sefydliad	Rhif Cyf. IP/AP ⁱⁱ	Rhif Cyf. RR ⁱⁱⁱ	Rhif Cyf. WR ^{iv}	Rhif Cyf. Dogfen Arall ^v	Buddiant ^{vi}	Parhaol/ Dros Dro ^{vii}	Llain/ Lleiniau	CA? ^{viii}	Statws y gwrthwynebiad

i Rhif y Gwrth. = rhif y gwrthwynebiad. Dylid rhoi rhif olynol unigryw i bob gwrthwynebiad a restrir yn y tabl hwn.

ii Rhif cyfeirnod a roddir i bob Parti â Buddiant (IP) ac Unigolyn yr Effeithir Arno (AP)

iii Rhif cyfeirnod a roddir i bob Sylw Perthnasol (RR) yn llyfrgell yr Archwiliad

iv Rhif cyfeirnod a roddir i bob Sylw Ysgrifenedig (WR) yn llyfrgell yr Archwiliad

v Rhif cyfeirnod a roddir i unrhyw ddogfen arall yn llyfrgell yr Archwiliad

vi Mae hyn yn cyfeirio at rannau 1 i 3 y Llyfr Cyfeirio:

- Rhan 1, sy'n cynnwys enwau a chyfeiriadau perchnogion, deiliaid prydles, tenantiaid, a meddianwyr pob llain o dir y Gorchymyn, ac eraill sydd â buddiant ynddynt neu'r pŵer i'w gwerthu a'u trawsgludo, neu eu rhyddhau;
- Rhan 2, sy'n cynnwys enwau a chyfeiriadau unrhyw unigolion nad yw'r Gorchymyn yn effeithio ar eu tir yn uniongyrchol, ond "a fyddai neu a allai" fod â hawl i wneud hawliad o dan adran 10 Deddf Prynu Gorfodol 1965, o ganlyniad i weithredu'r Gorchymyn, neu Ran 1 Deddf Digollediad Tir 1973, o ganlyniad i ddefnyddio'r tir pan fydd y Gorchymyn wedi cael ei weithredu;
- Rhan 3, sy'n cynnwys enwau a chyfeiriadau unrhyw unigolion sydd â hawl i hawddfreintiau neu hawliau preifat eraill dros dir y Gorchymyn a allai gael eu cau, eu hatal dros dro neu eu hymyrryd o dan y Gorchymyn.

vii Mae'r golofn hon yn nodi p'un a yw'r Ymgeisydd yn ceisio caffael tir/ hawliau yn orfodol neu eu meddiannu dros dro

viii CA = caffael gorfodol. Yr ateb yw 'ie' os yw'r tir yn rhannau 1 neu 3 y Llyfr Cyfeirio ac mae'r Grid Cenedlaethol yn ceisio caffael tir/ hawliau yn orfodol.